# YMLAEN GYDA'N GILYDD

# Ein Cynllun ar gyfer Cymru Gryfach, Prydain Gryfach a Dyfodol Ffyniannus

MANIFFESTO PLAID Y CEIDWADWYR CYMREIG 2017

Ceidwadwyr Cymreig | Welsh Conservatives

Hyrwyddwyd gan Richard Minshull ar ran y Ceidwadwyr Cymreig, y ddau o Uned 5, Canolfan Fusnes Pro-copy, Parc Tŷ Glas, Caerdydd CF14 5DU. St Ives plc, Canolfan Fusnes Parkway, Ystad Ddiwydiannol Glannau Dyfrdwy, Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint CH5 2LD.



*Y pum mlynedd nesaf yw'r cyfnod mwyaf heriol i Brydain ei wynebu yn fy mywyd i.*

*Bydd Brexit yn ein diffinio: ein lle yn y byd, ein diogelwch economaidd a'n ffyniant yn y dyfodol.*

*Felly ar yr adeg hon, yn fwy nag erioed, mae angen i Brydain gael ei harwain yn gryf a chadarn er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a ddaw yn sgîl Brexit i deuluoedd gweithgar.*

*Nawr yn fwy nag erioed, mae angen cynllun clir ar Brydain.*

*Bydd y maniffesto hwn,* Ein Cynllun ar gyfer Cymru Gryfach, Prydain Gryfach a Dyfodol Ffyniannus, *yn cwrdd â heriau enfawr ein hoes, y tu hwnt i Brexit.*

*Gyda'r cynllun hwn ac arweiniad cadarn i'n tywys drwy Brexit, byddwn yn adeiladu Prydain gryfach, decach, mwy ffyniannus, i bob un ohonom.*



**Theresa May**
Prif Weinidog

# CYNNWYS


Rhagair gan Theresa May ..... 4

Rhagair gan Alun Cairns ac Andrew RT Davies ..... 6

Pum her enfawr ..... 8

1. Economi gref sy’n gweithio i bawb ..... 13

2. Cenedl unedig gref mewn byd sy’n newid ..... 31

3. Meritocratiaeth fawr y byd ..... 47

4. Adfer y contract rhwng y cenedlaethau ..... 59

5. Ffyniant a diogelwch mewn oes ddigidol ..... 67

Casgliad ..... 77

# RHAGAIR
# gan Theresa May

**Yr etholiad hwn yw'r pwysicaf y mae'r wlad hon wedi ei wynebu yn ystod fy oes.** Mae ein ffyniant yn y dyfodol, ein statws yn y byd, ein safonau byw, a'r cyfleoedd rydym am i'n plant – a phlant ein plant – eu cael i gyd yn dibynnu ar gael y pum mlynedd nesaf yn iawn.  Os methwn, bydd y canlyniadau i Brydain a sicrwydd economaidd pobl gyffredin sy'n gweithio ledled y wlad hon yn sylweddol. Os llwyddwn, mae cyfleoedd mawr o'n blaenau.

Nawr, yn fwy nag erioed, mae angen llywodraeth gref a sefydlog ar Brydain er mwyn cael y cytundeb gorau posibl i'n gwlad. Nawr, yn fwy nag erioed, mae angen arweinyddiaeth gref a sefydlog ar Brydain er mwyn achub ar y cyfleoedd a gynigir gan Brexit.

Credaf y gall ein Teyrnas Unedig ddod drwy'r cyfnod hwn o newid cenedlaethol mawr yn gryfach ac yn fwy ffyniannus nag erioed o'r blaen. Credaf y gallwn fod yn wlad uchel ei bri yn y byd ac arwain y ffordd wrth ateb rai o heriau mwyaf ein hoes. Credaf y gallwn – a bod yn rhaid i ni – achub ar y cyfle hwn i adeiladu Meritocratiaeth Fawr yma ym Mhrydain.

Bydd y polisïau a amlinellir ar y tudalennau canlynol yn dechrau adeiladu'r Prydain gryfach, tecach a mwy ffyniannus honno. Ni chynigir atebion cyflym. Mae'n iawn bod pobl yn amheus o wleidyddion sy'n honni bod ganddynt atebion hawdd i broblemau dyrys. Mae gan arweinwyr gyfrifoldeb i fod yn onest gyda phobl am yr heriau sy'n ein hwynebu a'r gwaith caled sydd ei angen i'w goresgyn.

Felly mae'r maniffesto hwn yn cynnig gweledigaeth ar gyfer dyfodol Prydain – nid yn unig dros y pum mlynedd nesaf, ond tu hwnt. Mae'n nodi'r pum her enfawr a wynebwn a'r hyn a wnawn i fynd i'r afael â hwy. Wrth wneud hynny, mae'n cynnig gweledigaeth o'r math o wlad rwyf am i Brydain fod.

Prydain lle gall pob ardal ffynnu, gyda strategaeth ddiwydiannol fodern i rannu cyfleoedd ledled y Deyrnas Unedig gyfan. Prydain lle mae gwaith yn talu, gyda chyflog byw cenedlaethol uwch a hawliau a diogelwch priodol yn y gweithle. Prydain sydd ag economi gref a all gefnogi gwasanaethau cyhoeddus o'r radd flaenaf, gyda'r rhaglen fuddsoddi fwyaf uchelgeisiol o ran pobl, technoleg ac adeiladau y mae'r GIG wedi'i gweld erioed; y cyllid mwyaf erioed i ysgolion, sydd hefyd yn deg; a'r cynllun priodol cyntaf erioed i dalu am ofal cymdeithasol a'i ddarparu. A Phrydain lle y caiff anghyfiawnderau tanbaid eu herio a'u trechu, gyda'r Bil Iechyd Meddwl newydd cyntaf

am 35 mlynedd i roi parch cyfartal wrth wraidd triniaeth a rhoi diwedd ar y stigma sy'n gysylltiedig â salwch meddwl unwaith ac am byth.

Dyma fy nghynllun ar gyfer Prydain gryfach a dyfodol ffyniannus. Mae'n ddatganiad o fwriad: ymrwymiad i ateb heriau mawr ein hoes a gwneud y penderfyniadau anodd mawr hynny sy'n iawn i Brydain yn yr hirdymor.

Ni fydd hon yn dasg hawdd. Bydd yn gofyn am ddisgyblaeth a ffocws, ymdrech a gwaith caled. Bydd yn gofyn am arweinyddiaeth gan lywodraeth sy'n ddigon cryf i sefyll i fyny dros Brydain, ac yn ddigon sefydlog i lywio'r wlad yn ddiogel drwy'r negodi sydd i ddod.

Yn anad dim, bydd yn gofyn am undod diben rhwng yr holl wledydd sy'n creu'r undeb arbennig hwn, o'r gogledd i'r de ac o'r dwyrain i'r gorllewin. Wrth i ni ddechrau ar y daith fawreddog sydd o'n blaenau dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, gall y gwerthoedd, y buddiannau a'r uchelgeisiau a rennir gennym ein huno fel gwlad, a rhaid iddynt wneud hynny.

Gallwn ddewis dweud bod y dasg o'n blaenau yn rhy fawr, troi'n ôl at y gorffennol a chredu na ellir ei chyflawni; neu gallwn edrych tua'r dyfodol yn llawn gobaith, gan gredu bod y gorau eto i ddod i Brydain.

Rwy'n dewis edrych tua'r dyfodol: yn hyderus bod gennym y weledigaeth, y cynllun a'r ewyllys i ddefnyddio'r cyfle hwn i greu Prydain well. Prydain gryfach lle mae gan bawb y sicrwydd economaidd sydd ei angen arnynt a'r cyfle i fyw bywyd dedwydd a diogel. Prydain decach sy'n gweithio i bawb, nid dim ond yr ychydig freintiedig.



**Theresa May**
Prif Weinidog

# Rhagair gan Alun Cairns ac Andrew RT Davies

**Mae'r dewis sy'n wynebu pobl Cymru yn yr etholiad hwn yn ymwneud yn gyfan gwbl â'r dyfodol.**

Bydd pwy bynnag fydd yn ennill yr etholiad yn wynebu un brif dasg: sicrhau'r cytundeb cywir i Gymru, ac i'r DU gyfan, pan fyddwn yn gadael yr Undeb Ewropeaidd. Mae gwneud Brexit yn llwyddiant yn greiddiol i'n cenedl a dim ond Theresa May sy'n cynnig yr arweinyddiaeth gref a sefydlog sydd ei hangen arnom i'n tywys drwy Brexit a thu hwnt.

Cred y Prif Weinidog yn angerddol yn y cyswllt gwerthfawr rhwng Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac mae'r Undeb wrth wraidd y rhaglen Lywodraethu. Mae Cymru yn rhan o Undeb sy'n fwy na chasgliad o bedair gwlad - rydym wedi, a byddwn o hyd, yn cyflawni mwy gyda'n gilydd.

Gellir gweld cryfder ein hymrwymiad i Gymru drwy ein penderfyniad i sicrhau mwy o swyddi i bobl gyffredin sy'n gweithio, mwy o fuddsoddi yn seilwaith Cymru a chytundeb ariannu teg i bobl Cymru. Bydd ein Cronfa Ffyniant a Rennir yn lleihau anghydraddoldebau rhwng cymunedau ledled y DU ac mae'n brawf clir o'r DU yn gweithio fel un Undeb. Byddwn hefyd yn diddymu'r tollau ar gyfer pob cerbyd sy'n defnyddio dwy bont Hafren. Bydd hyn yn atgyfnerthu'r bartneriaeth werthfawr rhwng de Cymru a de-orllewin Lloegr, gan ddod â busnesau a chymunedau'n agosach at ei gilydd a chefnogi'r Undeb.

Bydd y maniffesto yn adeiladu ar ein cyflawniadau ac yn creu gwlad gref, decach a mwy unedig. Rhagor o swyddi, rhagor o fenter, rhagor o fuddsoddi - rhain yw ein llwyddiannau yng Nghymru ers 2010.

Mae Cymru yn wlad fywiog, ddeinamig, arloesol sydd mewn sefyllfa dda i droi'r cyfleoedd newydd sydd i ddod yn llwyddiannau. Ond dim ond fel rhan o Brydain fwy diogel y gallwn gyflawni'r cynllun hwn ar gyfer Cymru gryfach, decach, os byddwch yn pleidleisio dros Theresa May ar 8 Mehefin.

Mae angen i ni gael ein harwain gan Brif Weinidog a Llywodraeth y DU a fydd yn llywodraethu er budd Cymru. Mae'r dewis y mae'r wlad yn ei hwynebu yn syml iawn: dim ond dau unigolyn all fod yn Brif Weinidog ar ôl 8 Mehefin i negodi Brexit.

Mae'n ddewis rhwng Theresa May – a Jeremy Corbyn.

Gyda Theresa May cewch arweinyddiaeth gref a sefydlog, a dull o ymdrin â Brexit sy'n sicrhau twf economaidd, swyddi i'n plant a chyllid cyhoeddus cadarn - ni waeth ble rydych yn byw yng Nghymru.

Neu fe gewch Jeremy Corbyn gwan, wedi'i gynnal gan Plaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol mewn clymblaid anhrefnus ac ansefydlog.

Wrth i ni negodi i adael yr Undeb Ewropeaidd mae'r Prif Weinidog wedi bod yn glir y byddwn yn sicrhau cytundeb fydd o fudd i bob rhan o'r DU. Byddwn yn parhau i gydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru, busnesau a chymunedau ledled Cymru er mwyn sicrhau ein bod yn cael y cytundeb cywir i Gymru fel rhan o genedl unedig.

Drwy ymroddiad a gwaith caled, gallwn wneud i Brexit lwyddo - gyda Chymru yn chwarae rôl allweddol fel rhan o Brydain fyd-eang, sy'n edrych tuag allan ac sy'n croesawu'r byd. Byddwn yn adeiladu economi gryfach sy'n gwobrwyo'r rheiny sy'n gweithio'n galed, lle caiff cynnydd economaidd ei sicrhau a lle caiff ffyniant a chyfleoedd eu rhannu ar draws y wlad. Gallwn adeiladu cymdeithas decach gyda chyfleoedd gwirioneddol i bawb, lle caiff pawb yng Nghymru y cyfle i fwrw ymlaen mewn bywyd.

Bydd y camau hyn yn uno ein cenedl - gan werthfawrogi'r cyswllt gwerthfawr sy'n bodoli rhwng Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Bydd pob pleidlais i Theresa May a'ch ymgeisydd lleol yma yng Nghymru yn helpu i sicrhau'r cytundeb cywir i Gymru a'r DU, i gryfhau ein heconomi a gwneud bywyd yn ei gwlad hyd yn oed yn well.

Dyna pam, yn yr etholiad hwn, y gofynnwn i chi bleidleisio dros Theresa May a'i thîm o Geidwadwyr ar 8 Mehefin.

Diolch.

**Y Gwir Anrh. Alun Cairns**
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

**Andrew RT Davies AC**
Arweinydd y Ceidwadwyr Cymreig yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru

# PUM HER ENFAWR

## Arweinyddiaeth gref a sefydlog

Fel cenedlaethau o'n blaenau, rydym yn byw ar adeg o newid cenedlaethol sylweddol. Ar adegau o'r fath, mae angen arweinyddiaeth gref a sefydlog ar ein gwlad a all wneud y penderfyniadau hirdymor cywir er mwyn sicrhau diogelwch a ffyniant y Deyrnas Unedig yn y dyfodol.

Ers canlyniad y refferendwm yr haf diwethaf, dyna beth mae'r llywodraeth wedi'i wneud. Er gwaethaf y darogan ynghylch perygl ariannol ac economaidd uniongyrchol, rydym wedi gweld hyder yn parhau'n uchel, y nifer fwyaf erioed o swyddi a thwf economaidd sydd wedi rhagori ar ein holl ddisgwyliadau.

Bydd llywodraeth Geidwadol newydd yn parhau â'r cynllun sydd wedi darparu sefydlogrwydd a sicrwydd. Y tu hwnt i'r cynllun hwn, gwyddom fod angen i ni wneud y penderfyniadau hirdymor cywir er mwyn sicrhau ein diogelwch a'n ffyniant yn y dyfodol. Wrth wneud hynny, byddwn yn sicrhau bod Prydain nid yn unig yn ateb heriau'r dyfodol ond yn achub ar y cyfleoedd y mae'r heriau hyn yn eu cynnig.

## Pum her enfawr

Mae'r maniffesto hwn yn cynnig ein gweledigaeth ar gyfer Cymru, fel rhan o Brydain gryfach, nid yn unig dros y pum mlynedd nesaf ond am y blynyddoedd a'r degawdau i ddod. Yn ogystal â bod yn rhaglen lywodraethu mae'n datgan ein bod yn bwriadu cyflawni'r hyn nad oes llawer o lywodraethau hyd yn oed yn barod i roi cynnig arno: byddwn yn gwneud y penderfyniadau hirdymor mawr, ac anodd weithiau, sy'n briodol i'n dyfodol a chenedlaethau'r dyfodol.

Pan fo'r fath newid cenedlaethol ar droed, credwn fod Prydain yn wynebu pum her enfawr, y mae pob un yn gofyn am arweinyddiaeth gref, ymdrech ar y cyd a pholisi deallus i'w hateb.

**Yr angen am economi gref**. Mae angen i ni fanteisio ar ein cryfderau presennol, buddsoddi mewn seilwaith a phobl, a sicrhau bod ein heconomi gyfan ledled y wlad, gan gynnwys Cymru, yn gallu tyfu. Heb economi gref, ni allwn warantu ein diogelwch, ein ffyniant personol, ein gwasanaethau cyhoeddus, na chymunedau bodlon a chynaliadwy.

**Brexit a byd newidiol.** Mae angen i ni sicrhau ein bod yn gadael yr Undeb Ewropeaidd mewn ffordd esmwyth a threfnus sy'n gweithio i Gymru a phob rhan o'r DU, a meithrin partneriaeth ddofn ac arbennig â'n cyfeillion a'n cymheiriaid ledled Ewrop. Gan fod llai a llai o wahaniaeth rhwng materion domestig a rhyngwladol o ran mewnfudo, diogelwch cenedlaethol a'r economi, rhaid i Brydain aros yn gryf ac yn unedig – a chwarae rôl

arweiniol yn y byd er mwyn diogelu ein buddiannau.

**Rhaniadau cymdeithasol parhaus**. I ormod o bobl, mae'r llwybr a ddilynir mewn bywyd yn dal i gael ei bennu gan y man lle cawsoch eich geni ac i bwy. Mae angen i ni sicrhau bod pawb yn cael y cyfle i wireddu eu potensial ac elwa ar eu gwaith caled, pwy bynnag ydych a lle bynnag ydych ledled y Deyrnas Unedig.

**Cymdeithas sy'n heneiddio.** Mae angen i ni ymateb i realiti cymdeithas sy'n heneiddio, gan roi sicrwydd i'r henoed a gofalu am y rhai â chyflyrau iechyd hirdymor, tra'n sicrhau ein bod yn deg i genedlaethau iau.

**Technoleg sy'n newid yn gyflym**. Er mwyn ein heconomi a'n cymdeithas, mae angen i ni fanteisio ar dechnoleg sy'n newid yn gyflym, tra'n sicrhau bod ein diogelwch a'n preifatrwydd personol – a lles plant a phobl iau – yn cael eu diogelu.

## Llywodraethu o'r prif ffrwd

Os na wnawn benderfyniadau nawr i ateb yr heriau hyn, mae ein gwlad yn wynebu risg o fynd yn wannach, yn dlotach ac yn llai sefydlog; ond os dangoswn arweinyddiaeth ac achub ar y cyfleoedd y mae'r heriau enfawr hyn yn eu cynnig, gall Prydain ddod drwy Brexit, edrych y tu hwnt iddo a chamu i'r dyfodol yn hyderus.

Er mwyn gwneud hynny, bydd angen i ni lywodraethu yn y ffordd a sefydlwyd gan Theresa May ers iddi ddod yn brif weinidog y llynedd. Rhaid i ni wrthod y templedi ideolegol a ddarparwyd gan y chwith sosialaidd a'r dde libertaraidd ac yn hytrach groesawu'r farn prif ffrwd sy'n cydnabod y pethau da y gall llywodraeth eu gwneud.

Yn hytrach na dilyn agenda sy'n seiliedig ar fan canol tybiedig a ddiffinnir ac a sefydlir gan yr elite yn San Steffan, byddwn yn llywodraethu er budd prif ffrwd y cyhoedd ym Mhrydain. Byddwn yn gwneud ein gwaith ac yn tywys Prydain allan o'r Undeb Ewropeaidd. Byddwn yn adfer cyllid cyhoeddus ac yn cynnal sefydlogrwydd economaidd. Byddwn yn lleihau ac yn rheoli mewnfudo. Byddwn yn gadarn wrth amddiffyn y wlad rhag terfysgaeth a bygythiadau diogelwch eraill.

Byddwn hefyd yn herio'r rhai mewn awdurdod sy'n camddefnyddio'r fraint honno. Byddwn yn rhedeg gwasanaethau cyhoeddus yn unol â'u gwerthoedd fel sefydliadau lleol a chenedlaethol pwysig. Byddwn nid yn unig yn sicrhau hawliau a diogelwch gweithwyr ond yn eu cynyddu. A byddwn yn datblygu ein strategaeth ddiwydiannol fodern uchelgeisiol i gael yr economi i weithio i bawb, ledled y wlad.

O dan arweinyddiaeth gref a sefydlog Theresa May, ni fydd unrhyw grwsadau ideolegol. Ni adewir i agenda'r llywodraeth lithro i'r dde. Ein man cychwyn yw y dylem wneud penderfyniadau ar sail yr hyn sy'n gweithio. A byddwn bob amser yn cael ein llywio gan

yr hyn sy'n bwysig i deuluoedd cyffredin sy'n gweithio yn y wlad hon.

## Byddwn yn llywodraethu er budd teuluoedd cyffredin sy'n gweithio

Fel y dywedodd Theresa May pan ddaeth yn brif weinidog gyntaf, bydd gwaith y llywodraeth o dan ei harweinyddiaeth yn cael ei lywio nid er budd yr ychydig breintiedig ond gan fuddiannau teuluoedd cyffredin sy'n gweithio: pobl sydd â swydd ond nad oes ganddynt sicrwydd swydd bob amser; pobl sy'n berchen ar eu cartref eu hunain ond sy'n poeni am dalu'r morgais; pobl sydd fwy neu lai'n llwyddo i gael dau ben llinyn ynghyd ond sy'n poeni am gostau byw a chael eu plant i mewn i ysgol dda.

Mae'r teuluoedd hyn wedi cael eu hanwybyddu gan wleidyddion, a chan eraill mewn awdurdod, am ormod o amser. Eto i gyd, nid ydynt yn gofyn am lawer: maent am fyw eu bywydau, gwneud eu gorau i'w plant, cael cyfle teg. O dan arweinyddiaeth Theresa May, ni chânt eu hanwybyddu mwyach.

Cyflwynir y maniffesto hwn i'r bobl hyn. Dyma'r bobl sy'n gweithio'n galed bob dydd, conglfeini ein gwlad. A dyma'r bobl sy'n haeddu arweinyddiaeth gref a sefydlog gan lywodraeth sy'n benderfynol o ateb y pum her enfawr a wynebwn – a gwneud y penderfyniadau hirdymor cywir er mwyn sicrhau dyfodol y Deyrnas Unedig.

## Credwn yn y daioni y gall llywodraeth ei wneud

Er mwyn gwneud hynny, bydd angen gwladwriaeth gref a strategol, sy'n ystwyth ac yn ymateb i anghenion pobl. Er nad yw byth yn wir bod gan lywodraeth yr holl atebion, gall a dylai llywodraeth fod yn rym er daioni – a dylai ddefnyddio ei hawdurdod i wasanaethu pobl y wlad hon sy'n gweithio.

Os ydym am gadw ein heconomi yn gryf wrth i'r byd newid, bydd angen i'r llywodraeth chwarae rôl weithgar, gan arwain strategaeth ddiwydiannol fodern i wneud y mwyaf o gryfderau Prydain ac achub ar gyfleoedd newydd – gan greu swyddi diogel, sy'n talu cyflog da, i'r wlad gyfan.

Os ydym am sicrhau bod Prydain yn dod drwy Brexit fel gwlad gref ac unedig, bydd angen arweinyddiaeth gref a llywodraeth dda: er mwyn cael y cytundeb cywir i Brydain yn Ewrop, taro cytundebau masnachu newydd ledled y byd a sicrhau bod ein heconomi yn gryf yn y blynyddoedd i ddod.

Os ydym am oresgyn rhaniadau cymdeithasol parhaus Prydain, bydd angen i ni roi cyfle gwirioneddol i bobl a sicrhau mai Prydain yw Meritocratiaeth Fawr y byd. Bydd hynny'n ei gwneud yn ofynnol i'r llywodraeth ddatrys problemau sydd wedi'u hanwybyddu am amser hir fel diffyg hyfforddiant ac addysg dechnegol

ym Mhrydain, yn ogystal ag anghyfiawnder hirsefydledig, fel diffyg gofal i bobl â phroblemau iechyd meddwl, a diffyg cyfleoedd cyfartal parhaus ar sail hil, rhywedd a dosbarth.

Os ydym am ymdopi â'n cymdeithas sy'n heneiddio a rhoi sicrwydd i'r henoed tra'n bod yn deg i genedlaethau iau, bydd angen llywodraeth gadarnhaol a gweithgar a wnaiff ddelio â galw cynyddol am ofal cymdeithasol, ariannu a gwella ein Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac adeiladu mwy o dai ledled y wlad. Bydd angen i ni wneud penderfyniadau sydd weithiau'n anodd sy'n gofyn mwy gan un genhedlaeth er mwyn helpu un arall.

Os ydym am ymateb i newidiadau cyflym mewn technoleg, mae angen i'r llywodraeth sicrhau mai Prydain yw'r lle gorau yn y byd i sefydlu a rhedeg busnesau modern, gan ddod â swyddi'r dyfodol i'n gwlad; ond mae hefyd angen i'r llywodraeth greu'r fframweithiau rheoliadol cywir a wnaiff amddiffyn ein diogelwch a'n preifatrwydd personol, a sicrhau lles plant a phobl iau mewn oes pan fo cymaint o fywyd yn digwydd ar-lein.

Ni all llywodraeth yn unig ddatrys pob her y mae ein gwlad yn ei hwynebu. Heb fusnes a menter, ni fyddai unrhyw ffyniant na gwasanaethau cyhoeddus. Heb rwymedigaethau a dyletswyddau dinasyddiaeth, ni fyddai cymdeithas yn gweithredu. Heb gyfrifoldeb unigol, ni ellir cyflawni unrhyw beth. Ond er mwyn i wlad barhau'n sefydlog, i economi fod yn gref, i gymdeithas aros yn iach, mae angen partneriaeth rhwng yr unigolyn a'r wlad ehangach, rhwng y sector preifat a gwasanaethau cyhoeddus, a'r arweinyddiaeth gref mai dim ond llywodraeth all ei darparu.

## Ein hegwyddorion

Credwn y pethau hyn nid er gwaethaf y ffaith ein bod yn Geidwadwyr ond oherwydd ein bod yn Geidwadwyr.

Gan nad yw Ceidwadaeth yn ymdebygu i'r athroniaeth a ddisgrifir gan gartwnwyr, ac nid yw byth wedi ymdebygu iddi. Ni chredwn mewn marchnadoedd rhydd dilyffethair. Gwrthodwn gwlt unigoliaeth hunanol. Mae'n gas gennym raniadau cymdeithasol, anghyfiawnder, annhegwch ac anghydraddoldeb. Ystyriwn fod dogma ac ideoleg gaeth nid yn unig yn ddiangen ond yn beryglus.

Mae Ceidwadaeth wirioneddol yn golygu ymrwymo i'ch gwlad a'ch cymuned; credu nid yn unig mewn cymdeithas ond yn y daioni y gall llywodraeth ei wneud; parchu'r sefydliadau lleol a chenedlaethol sy'n ein rhwymo; deall bod newid yn anochel ac y gall fod yn beth da, ond y dylai newid gael ei lunio, drwy arweinyddiaeth gref ac egwyddorion clir, er lles pawb.

Gwyddom fod ein cyfrifoldeb i'n gilydd yn drech na'r hawliau unigol sydd gennym. Gwyddom fod gennym oll rwymedigaethau i'n gilydd, oherwydd dyna mae cymuned a gwlad yn ei fynnu. Deallwn nad oes neb, waeth pa mor bwerus, wedi llwyddo ar ei ben ei hun a'n bod i gyd felly mewn dyled i'n gilydd. Parchwn y ffaith fod cymdeithas yn gontract rhwng y cenedlaethau: partneriaeth rhwng y rhai sy'n byw, y rhai a fu fyw o'n blaenau, a'r rhai sydd heb gael eu geni eto.

## Gweledigaeth ar gyfer Prydain gryfach a dyfodol ffyniannus

Os gadawn i'n hunain gael ein llywio gan yr egwyddorion hyn, os oes gennym arweinyddiaeth gref a sefydlog, ac os atebwn y pum her enfawr a wynebir gan Brydain, credwn fod gan ein gwlad ddyfodol disglair.

Mae Cymru yn rhan o'r pumed economi fwyaf yn y byd, a gaiff y gyfran fwyaf o fuddsoddiad tramor yn Ewrop ac sydd â'r economi sy'n tyfu gyflymaf yn yr G7. O ganlyniad, yma yng Nghymru gwelwn y nifer fwyaf erioed o bobl mewn gwaith, y twf economaidd cyflymaf y pen y tu allan i Lundain ers 2010 ac mae gwerth allforion o Gymru wedi mwy na dyblu ers 1999. Mae gan y DU dair o'r deg prif brifysgol yn y byd ac, er gwaethaf y ffaith ei bod yn cyfrif am lai nag 1 y cant o boblogaeth y byd, mae gennym fwy o enillwyr Gwobr Nobel nag unrhyw wlad arall, namyn America. Mae gennym y gwasanaethau cudd-wybodaeth gorau ynghyd â lluoedd arfog uchel eu bri a all arddel awdurdod ledled y byd.

Felly, yn ddiau, gall gwlad o'r fath fawredd â'n un ni – gydag arweinyddiaeth gref a sefydlog – ateb yr heriau enfawr a wynebir gennym:

- sicrhau bod ein heconomi yn parhau'n gryf a sicrhau bod y wlad gyfan yn ffynnu;
- dod drwy Brexit fel gwlad gref ac unedig, a all chwarae rôl arweiniol yn y byd i amddiffyn buddiannau Prydain;
- goresgyn rhaniadau cymdeithasol drwy roi cyfle gwirioneddol i bobl a sicrhau mai Prydain yw Meritocratiaeth Fawr y byd;
- adfer y contract rhwng y cenedlaethau sy'n rhoi sicrwydd i bobl hŷn tra'n bod yn deg i bobl iau;
- achub ar gyfleoedd technoleg sy'n newid, tra'n sicrhau bod ein diogelwch a'n preifatrwydd personol – a lles plant a phobl iau – yn cael eu diogelu o hyd.

Mae ein Hundeb gwerthfawr wrth wraidd Rhaglen Lywodraethu'r prif weinidog, ac mae Cymru yn rhan ganolog o'r ymrwymiad hwn. Mae gan y Deyrnas Unedig hanes clodwiw ond credwn fod y gorau i ddod. Gyda'r cynllun hwn i ateb y pum her enfawr a wynebir gennym, gyda'n cynigion i sefydlu Prydain gryfach a dyfodol ffyniannus, byddwn, fel gwlad, yn symud ymlaen, gyda'n gilydd.

# 1. ECONOMI GREF SY'N GWEITHIO I BAWB

## Bydd Theresa May a'r Ceidwadwyr Cymreig yn cyflawni'r canlynol

- Economi gref sy'n seiliedig ar gyllid cyhoeddus cadarn, trethi is, gwell trefniadau rheoleiddio a chytundebau masnach rydd â marchnadoedd ledled y byd.
- Bargen newydd i bobl gyffredin sy'n gweithio gan roi cyflog byw gweddus iddynt a hawliau a mesurau diogelu newydd yn y gweithle.
- Trefniadau llywodraethu corfforaethol tecach, sy'n seiliedig ar reolau newydd ar gyfer prynu cwmnïau, cyflogau uwch reolwyr a chynrychiolaeth i weithwyr ar fyrddau cwmnïau.
- Twf ledled y wlad drwy ein strategaeth ddiwydiannol fodern i'r DU gyfan a buddsoddiad sylweddol mewn seilwaith a gwaith ymchwil a datblygu yng Nghymru.
- Costau ynni cystadleuol a fforddiadwy yn dilyn adolygiad annibynnol newydd o gost ynni.
- Trefi a dinasoedd ffyniannus, a ategir gan sefydliadau lleol cryf, camau i adleoli swyddogaethau'r llywodraeth, ac asedau diwylliannol a rennir ledled y wlad.

**Mae economi gref yn sail i bopeth yr hoffem ei gyflawni fel cenedl.** Er mwyn cael y ffyniant, y diogelwch a'r ansawdd bywyd y mae Cymru yn dymuno eu cael, mae angen i ni gael economi fywiog a chadarn.

Ond mae angen i'n heconomi fod yn deg hefyd. Oherwydd yng Nghymru, a ledled Prydain heddiw, mae rhaniad rhwng y bobl a'r lleoedd hynny sydd wedi elwa ar newidiadau yn y farchnad fyd-eang, lle caiff cyfleoedd eu hadlewyrchu mewn cyfoeth ac ansawdd bywyd da; a'r bobl a'r lleoedd hynny sydd wedi cael trafferthion economaidd, lle mae cyfleoedd wedi crebachu a lle mae pobl yn poeni am ddyfodol eu plant.

Mae hyn yn annheg. Felly, byddwn yn creu economi sy'n gweithio i bawb ym mhob rhan o'r wlad. Byddwn yn seilio ein cynlluniau ar egwyddorion cyllid cyhoeddus cadarn, trethi isel, masnach rydd a threfniadau rheoleiddio effeithiol. Byddwn yn pennu rheolau ar gyfer busnesau sy'n ennyn hyder gweithwyr a buddsoddwyr. Dim ond sylfaen yw hynny, fodd bynnag. Drwy ein strategaeth ddiwydiannol fodern i'r DU gyfan, byddwn yn adeiladu economi sy'n buddsoddi ar gyfer yr hirdymor ac yn cefnogi twf ym mhob rhan o'r wlad – nid dim ond y lleoedd hynny sydd wedi gwneud yn dda dros y degawdau diwethaf ond y lleoedd hynny lle mae ffyniant ar drai hefyd. Ni all llywodraethau ddefnyddio arian cyhoeddus i helpu busnesau sy'n methu, ond ni allant chwaith adael i bobl a'u cymunedau gael eu gwthio naill ochr. Mae dyletswydd arnom i roi cyfleoedd i bob rhan o'n cenedl a sicrhau bod pawb yn ffynnu gyda'i gilydd.

# SYLFEINI ECONOMI GREF

**Arian cadarn a chyllid cyhoeddus cyfrifol yw'r sylfeini hanfodol ar gyfer llwyddiant economaidd cenedlaethol.** Os na all llywodraeth reoli ei harian yn briodol, ni all ennyn hyder yn ei gwlad ei hun nac ymhlith buddsoddwyr rhyngwladol. Ni all cwmnïau na theuluoedd gynllunio i'r dyfodol os bydd ysfa'r llywodraeth am eu harian yn arwain at drethi uwch a thoriadau i fuddsoddiadau a gwasanaethau hanfodol; a phan fydd pethau'n mynd y tu hwnt i reolaeth, pobl gyffredin sy'n gweithio sy'n cael yr ergyd fwyaf.

Mae'r Ceidwadwyr wedi gosod y sylfeini hanfodol hyn. Ddeng mlynedd ar ôl yr argyfwng bancio, mae'r diffyg yn ôl i'r hyn a fu gynt. Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol annibynnol yn rhagweld bod y ddyled genedlaethol ar fin dechrau gostwng o'r diwedd.

Mae gwaith i'w wneud o hyd i leihau'r diffyg, felly byddwn yn parhau i adfer cyllid cyhoeddus yn ystod y tymor seneddol nesaf. Byddwn yn parhau â'r rheolau cyllidol a gyhoeddwyd gan y canghellor yn natganiad yr hydref y llynedd, a fydd yn ein harwain

tuag at gyllideb fantoledig erbyn canol y degawd nesaf.

Dyma ein sylfaen. Mae'r amser wedi dod bellach i ganolbwyntio ar her economaidd fawr nesaf Prydain: ysgogi twf sy'n gweithio i bawb, ym mhob rhan o'n gwlad.

## Cadw trethi mor isel â phosibl

Os ydych am fyw mewn democratiaeth waraidd, rhaid talu eich cyfran deg o drethi ond ni ddylai gwleidyddion fyth anghofio bod trethi'n cael eu codi ar fusnesau sy'n cyflogi pobl, ac unigolion sy'n gweithio'n galed ac yn wynebu penderfyniadau anodd ynghylch sut i wario eu harian.

Y Ceidwadwyr fydd y blaid a fydd yn cadw trethi mor isel â phosibl ac yn gwario'r enillion yn gyfrifol bob amser. Ein bwriad pendant yw lleihau trethi ar fusnesau a theuluoedd sy'n gweithio ym Mhrydain.

Rhwng 2010 a 2015, gwnaethom dorri trethi i 1.2 miliwn o bobl yng Nghymru yn sgil y cynnydd yn y lwfans personol di-dreth. Erbyn 2020, byddwn, yn ôl yr addewid, yn cynyddu'r lwfans personol i £12,500 a'r gyfradd uwch i £50,000, ac ni fyddwn yn cynyddu Treth ar Werth.

Mae disgwyl i'r Dreth Gorfforaeth ostwng i 17 y cant erbyn 2020 – y gyfradd isaf mewn unrhyw economi ddatblygedig – a byddwn yn cadw at y cynllun hwnnw, oherwydd bydd yn helpu i ddenu buddsoddiad enfawr a miloedd o swyddi i'r DU.

Gwyddom fod y system ardrethi busnes bresennol yn peri heriau sylweddol i rai cwmnïau llai o faint. Dyna pam bod y Ceidwadwyr Cymreig bob amser wedi ymrwymo i ddiddymu ardrethi busnes i fusnesau llai o faint, gan eu helpu i gynyddu cyfleoedd cyflogaeth a hyrwyddo entrepreneuriaeth. Bydd y Ceidwadwyr Cymreig yn datblygu cyfleoedd i greu cymdeithas fwy entrepreneuraidd, heb osod rhwystrau sy'n atal pobl rhag gwireddu eu breuddwydion o redeg busnes bach. Byddem yn diddymu ardrethi busnes i'r holl fusnesau bach â gwerthoedd ardrethol o hyd at £15,000. Byddem hefyd yn ceisio diwygio ardrethi busnes, gan rannu lluosydd Cymru er mwyn gwneud busnesau llai o faint yn fwy cystadleuol.

Fodd bynnag, mae system dreth dda yn dibynnu ar fwy na'r prif gyfraddau treth yn unig, mae symlrwydd yn bwysig hefyd. Mae ein system yn rhy gymhleth o hyd ac mae hynny'n ei gwneud yn anodd i bobl – yn enwedig pobl hunangyflogedig a busnesau bach – asesu eu trethi. Felly, byddwn yn symleiddio'r system dreth.

## Cynyddu masnach

Mae Prydain erioed wedi bod yn genedl fasnachu fawr. Bydd masnach yn parhau i fod yn hollbwysig i'n twf a'n ffyniant yn y dyfodol. Wrth i ni adael yr Undeb Ewropeaidd, rydym am negodi partneriaeth ddofn ac arbennig newydd â'r UE, a fydd yn caniatáu masnach

rydd rhwng y DU ac aelod-wladwriaethau'r UE. Fel rhan o'r cytundeb y byddwn yn ei negodi, rydym am sicrhau bod cyn lleied o rwystrau â phosibl i fasnachu a buddsoddi. Mae gadael yr Undeb Ewropeaidd hefyd yn golygu y gallwn negodi ein cytundebau masnach ein hunain â gwledydd y tu allan i'r UE.

Byddwn yn sicrhau sefydlogrwydd yn syth drwy roi rhestri newydd y DU i Sefydliad Masnach y Byd, sy'n gyson â rhestri'r UE yr ydym yn rhwym iddynt tra'n bod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd. Byddwn yn ceisio atgynhyrchu holl gytundebau masnach rydd presennol yr UE a chefnogi camau i gadarnhau cytundebau masnach a luniwyd yn ystod ein cyfnod fel aelod o'r UE. Byddwn yn parhau i gefnogi'r system fasnach amlochrog fyd-eang sy'n seiliedig ar reolau. Byddwn yn cyflwyno Bil Masnach yn ystod y tymor seneddol nesaf.

Byddwn yn sicrhau bod Cymru wrth wraidd ein polisi masnach a buddsoddi. Mae diwydiant Cymru yn adnabyddus ledled y byd – o'n bwyd a'n cynnyrch enwog i'n rhagoriaeth ym maes peirianneg. Fel rhan o'r Deyrnas Unedig, mae Cymru yn elwa ar y diogelwch economaidd a'r dylanwad rhyngwladol a ddaw o gronni ein hadnoddau a rhannu ein llwyddiannau. Mae brandiau byd-eang fel Aston Martin wedi dewis ymleoli yng Nghymru, gan ddarparu swyddi o ansawdd uchel a buddsoddiad hirdymor yn economi Cymru. Byddwn yn sicrhau bod yr Adran Masnach Ryngwladol yn adran i'r DU gyfan, gan adeiladu ar ein llwyddiannau a chyflwyno Prydain sydd â chysylltiadau byd-eang, sy'n edrych tuag allan ac sy'n croesawu'r byd.

Byddwn yn creu rhwydwaith o Gomisiynwyr Masnach Ei Mawrhydi i lenwi naw swydd dramor ranbarthol newydd. Bydd y comisiynwyr hyn yn arwain gwaith i hyrwyddo allforion, buddsoddiad a'r polisi masnach dramor. Byddwn yn ailgynnull y Bwrdd Masnach gydag aelodau a fydd yn benodol gyfrifol am sicrhau ein bod yn cynyddu allforion o Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn ogystal â Lloegr, a bod pob rhan o'r Deyrnas Unedig yn dylanwadu'n uniongyrchol ar y polisi masnach.

Er bod gwerth allforion o Gymru wedi mwy na dyblu ers 1999, byddwn yn parhau i weithio i feithrin diwylliant allforio newydd ymhlith busnesau yng Nghymru, gan roi'r adnoddau a'r cyfleoedd sydd eu hangen arnynt i lwyddo yn y farchnad fyd-eang, a manteisio ar farchnadoedd twf uchel newydd ledled y byd.

Byddwn yn chwarae rôl fwy gweithredol i helpu consortia o Brydain i ennill y contractau mwyaf arloesol a gwerthfawr ledled y byd. Byddwn yn sicrhau y gall busnesau bach a chanolig nodi'r marchnadoedd a'r sectorau cywir i ennill contractau hollbwysig dramor. Byddwn yn gosod Cyllid Allforio'r DU, sy'n sicrhau na fydd unrhyw allforion hyfyw o'r DU yn methu oherwydd diffyg cyllid neu yswiriant, wrth wraidd cynnig hyrwyddo masnach y DU. A byddwn yn annog y byd i ymweld â Chymru ac astudio a chynnal busnes yng Nghymru drwy ymgyrch GREAT Britain a Visit Britain.

## Rheoleiddio effeithiol

Mae rheoleiddio yn angenrheidiol er mwyn rhoi trefn briodol ar unrhyw economi a sicrhau bod pobl – a'u buddsoddiadau – yn cael eu diogelu. Fodd bynnag, mae rheoleiddio gwael a gormodol gan lywodraethau yn cyfyngu ar dwf yn ddireswm. Felly, byddwn yn parhau i reoleiddio mewn modd mwy effeithlon, gan arbed £9 biliwn drwy'r Her Lleihau Biwrocratiaeth a'r Rheol Un i Mewn Dau Allan.

Mae lleihau cost rheoleiddio yn golygu mwy na lleihau'r baich rheoleiddio. Gall y fframweithiau rheoleiddio anghywir wobrwyo buddsoddwyr yn ormodol am y risg y maent yn ei chymryd wrth gefnogi prosiect penodol, sy'n golygu y gall teuluoedd a busnesau wynebu gordaliadau systematig. Felly, byddwn yn ystyried ffyrdd o wella trefniadau rheoleiddio cyfleustodau a seilwaith trafnidiaeth er mwyn sicrhau bargen well i gwsmeriaid a chymhellion cliriach ar gyfer buddsoddiadau effeithlon.

# RHEOLAU NEWYDD AR GYFER ECONOMI SY'N NEWID

**Mae'r Ceidwadwyr yn credu, os oes rhywbeth yn bwysig i chi, fod yn rhaid i chi fod yn barod i'w ddiwygio er mwyn ei gadw.** Mae hynny'n wir am ein heconomi heddiw. Cyfalafiaeth a marchnadoedd rhydd yw'r ffordd orau o hyd o sicrhau ffyniant a diogelwch economaidd, gan godi miliynau o bobl allan o dlodi ledled y byd. Mae angen rheolau ar farchnadoedd ac mae angen diweddaru'r rheolau hyn i adlewyrchu'r newidiadau yn ein heconomi.

## Gwarantu cyflog gweddus

Rhaid i ni sicrhau yn gyntaf fod pawb yn cael ei dalu'n deg am ei waith. Llywodraeth Geidwadol wnaeth gyflwyno'r Cyflog Byw Cenedlaethol ac o ganlyniad i hynny, mae pobl ledled y Deyrnas Unedig bellach yn cael isafswm o £7.50 yr awr. Bydd llywodraeth Geidwadol newydd yn parhau i gynyddu'r Cyflog Byw Cenedlaethol i 60 y cant o enillion canolrifol erbyn 2020 ac yn unol â'r gyfradd enillion canolrifol ar ôl hynny, fel bod pobl ar y cyflogau isaf yn elwa ar yr un gwelliannau mewn enillion â gweithwyr ar gyflogau uwch.

## Hawliau a mesurau diogelu ar gyfer yr economi 'gig'

Yn yr economi fodern, mae llawer o bobl yn dewis swyddi fel gyrru, dosbarthu a chodio, sy'n hynod o hyblyg ac y gellir eu cyfuno â swyddi eraill. Mae hyn yn cynnig manteision sylweddol i filiynau o bobl ond ni ddylem anwybyddu'r heriau y mae'r math hwn o gyflogaeth yn eu creu. Caiff y gweithwyr hyn eu cyfrif yn swyddogol fel gweithwyr hunangyflogedig ac, felly, mae ganddynt lai o hawliau pensiwn, llai o fynediad i fudd-daliadau ac nid ydynt yn gymwys i gael tâl salwch na thâl gwyliau. Serch hynny, mae

natur eu gwaith yn wahanol i weithiwr hunangyflogedig traddodiadol a all fod yn unig fasnachwr, yn gweithio ar ei liwt ei hun neu'n rhedeg ei fusnes ei hun.

Byddwn yn sicrhau bod pobl sy'n gweithio yn yr economi 'gig' yn cael eu diogelu'n briodol. Fis Hydref diwethaf, comisiynodd y llywodraeth Matthew Taylor, prif weithredwr Cymdeithas Frenhinol y Celfyddydau, i adolygu'r farchnad lafur sy'n newid. Rydym yn aros am ei adroddiad terfynol ond bydd llywodraeth Geidwadol newydd yn sicrhau bod buddiannau cyflogeion ar gontractau traddodiadol, pobl hunangyflogedig a'r bobl hynny sy'n gweithio yn yr economi 'gig' oll yn cael eu diogelu'n briodol.

## Atal achosion o efadu trethi

Rydym wedi cymryd camau grymus yn erbyn achosion o efadu ac osgoi trethi, gan gau'r bwlch treth – y gwahaniaeth rhwng swm y dreth sy'n ddyledus a'r swm a gesglir – nes ei fod ymhlith yr isaf yn y byd.

Byddwn yn mynd ymhellach yn awr. Byddwn yn deddfu i sicrhau trefniadau rheoleiddio llymach ar gyfer cwmnïau cynghori ar drethi. Byddwn yn cymryd camau mwy rhagweithiol mewn perthynas â thryloywder a chamddefnyddio ymddiriedolaethau.

Byddwn yn gwella gallu CThEM i atal achosion o smyglo, gan gynnwys drwy wella ein trefniadau ar gyfer plismona'r ffiniau wrth i ni adael yr Undeb Ewropeaidd. Byddwn hefyd yn cymryd mesurau pellach i leihau twyll ar-lein mewn perthynas â Threth ar Werth.

## Diogelu pensiynau preifat

Mae miliynau o bobl yn y wlad hon yn edrych ymlaen at ymddeoliad mwy sicr oherwydd eu pensiwn preifat. Mae'r pensiynau hyn yn bodoli am fod cyflogeion wedi cynilo arian yn gydwybodol drwy gydol eu hoes, gan aberthu moethusion a gwyliau tramor i wneud hynny'n aml. Roedd y bobl hynny yn gywir i wneud hyn. Mae perchenogion busnes sy'n camddefnyddio cronfeydd pensiwn ac yn eu peryglu, weithiau er mwyn eu cyfoethogi eu hunain, yn gwbl anghywir.

Ar hyn o bryd, nid oes gan reoleiddwyr na'r Gronfa Diogelu Pensiynau ddigon o bwerau i sicrhau bod y rhai sy'n cynilo pensiynau, pensiynwyr a chyfarwyddwyr cwmnïau darbodus yn cael eu diogelu rhag perchenogion busnes diegwyddor. Bydd llywodraeth Geidwadol yn cryfhau'r rheolau yn erbyn camddefnydd o'r fath, ac yn cynyddu'r gosb i'r rhai a gaiff eu dal yn camreoli cynlluniau pensiwn. Byddwn yn adeiladu ar bwerau presennol i roi hawl i gynlluniau pensiwn a'r Rheoleiddiwr Pensiynau graffu ar achosion o uno, prynu neu ymrwymiadau ariannol mawr sy'n peryglu solfedd y cynllun, eu cymeradwyo gydag amodau neu, mewn achosion eithriadol, eu hatal. Byddwn hefyd yn rhoi pwerau newydd i'r Rheoleiddiwr Pensiynau roi dirwyon cosbol i'r rhai y canfyddir eu bod wedi gadael cynllun pensiwn heb ddigon o adnoddau yn fwriadol ac, os oes angen, bwerau tebyg i'r rhai sydd gan y Gwasanaeth Ansolfedd yn barod i anghymhwyso'r

cyfarwyddwyr cwmnïau dan sylw. Byddwn yn ystyried cyflwyno trosedd newydd ar gyfer cyfarwyddwyr cwmnïau sydd, yn fwriadol neu'n ddiofal, yn peryglu gallu cynllun pensiwn i gyflawni ei ymrwymiadau.

## Diwygio rheolau ar brynu ac uno cwmnïau

Mae'r Ceidwadwyr yn credu yn hawliau perchenogion busnes. Rydym am fod yn genedl sydd â chysylltiadau byd-eang, sy'n gystadleuol, yn edrych tuag allan ac ar agor i fusnes – y wlad orau yn Ewrop i gynnal busnes.

Rydym yn croesawu buddsoddiadau o dramor ac rydym am i fuddsoddwyr lwyddo yma ond nid drwy arferion osgoi trethi na stripio asedau dinistriol. Byddwn yn diweddaru'r rheolau ar gyfer uno a phrynu cwmnïau. Bydd hyn yn galw am ystyriaeth ofalus ond gallwn ddatgan yn awr y byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i gynigwyr fynegi eu bwriadau'n glir ar ddechrau'r broses gwneud cais; bydd yn ofynnol i'r holl addewidion ac ymrwymiadau a wneir wrth wneud cais i brynu cwmni allu cael eu gorfodi'n gyfreithiol ar ôl hynny; a gall y llywodraeth fynnu bod cais yn cael ei oedi er mwyn craffu'n fanylach arno.

Byddwn hefyd yn cymryd camau i ddiogelu ein seilwaith cenedlaethol hanfodol. Byddwn yn sicrhau na fydd perchenogaeth dramor o gwmnïau sy'n rheoli seilwaith pwysig yn tanseilio diogelwch Prydain na gwasanaethau hanfodol. Rydym eisoes wedi atgyfnerthu prosesau craffu a rheoli gweinidogol mewn perthynas ag ynni niwclear sifil a byddwn yn mabwysiadu ymagwedd gadarn debyg mewn nifer fach o sectorau eraill, fel telathrebu, amddiffyn ac ynni.

## Cyflogau corfforaethol teg

Credwn y dylai pobl gael eu gwobrwyo am eu talentau a'u hymdrechion ond mae'n ddealladwy bod cydnabyddiaeth rhai arweinwyr corfforaethol yn peri sarhad i'r cyhoedd. Mae cyflogau arweinwyr corfforaethol wedi cynyddu'n llawer cyflymach na pherfformiad corfforaethol, ac mae'r bwlch rhwng y rhai sy'n cael y cyflog mwyaf a'r rhai sy'n cael y cyflog lleiaf wedi tyfu o 47:1 yn 1998 i 128:1 yn 2015.

Bydd y llywodraeth Geidwadol nesaf yn deddfu i sicrhau bod cyfranddeiliaid yn pleidleisio'n flynyddol ar becynnau cyflog uwch reolwyr a bydd yn rhaid i gwmnïau rhestredig gyhoeddi cymhareb sy'n dangos cyflog uwch reolwyr o'i gymharu â chyflog gweithlu'r DU yn gyffredinol. Bydd yn rhaid i gwmnïau egluro eu polisïau cyflog, yn enwedig cynlluniau cymhelliant cymhleth, yn well. Byddwn yn comisiynu archwiliad o'r defnydd a wneir o arferion adbrynu cyfranddaliadau, gyda'r nod o sicrhau na ellir defnyddio'r arferion hyn yn artiffisial i gyflawni targedau perfformiad a chwyddo cyflogau uwch reolwyr.

## Gwell trefniadau llywodraethu corfforaethol

Dyfais Brydeinig yw'r cwmni cydgyfalaf modern. Mae'n gweithio am ei fod yn seiliedig ar

reolau, ond mae angen i'r rheolau hyn newid wrth i'r byd newid.

Dylai byrddau ystyried buddiannau cyflogeion, cyflenwyr a'r gymuned ehangach yn ogystal â buddiannau cyfranddeiliaid. Er mwyn sicrhau bod buddiannau cyflogeion yn cael eu cynrychioli ar lefel bwrdd, byddwn yn newid y gyfraith i sicrhau y bydd yn rhaid i gwmnïau rhestredig naill ai enwebu cyfarwyddwr o'r gweithlu, sefydlu cyngor cynghori cyflogeion ffurfiol neu neilltuo cyfrifoldeb penodol am gynrychioli cyflogeion i gyfarwyddwr anweithredol dynodedig. Yn amodol ar fesurau diogelu synhwyrol, byddwn yn rhoi hawl i gyflogeion wneud cais am wybodaeth am gyfeiriad y cwmni yn y dyfodol.

Bydd y trefniadau cryfach hyn yn gymwys i gwmnïau rhestredig cyhoeddus. Byddwn yn ymgynghori ar sut y gallwn atgyfnerthu trefniadau llywodraethu busnesau preifat.

# STRATEGAETH DDIWYDIANNOL FODERN

**Nod ein strategaeth ddiwydiannol fodern yw creu economi gryfach sy'n gweithio i bawb – lle caiff cyfoeth a chyfleoedd eu lledaenu i bob cymuned yn y Deyrnas Unedig, nid dim ond y lleoedd mwyaf ffyniannus yn Llundain a de-ddwyrain Lloegr.** Byddwn yn sicrhau bod Cymru wrth wraidd y strategaeth hon. Rydym yn cydnabod y gall busnes yng Nghaerffili neu yn Aberteifi gael cymaint o fudd o strategaeth ddiwydiannol fodern â chwmni yng Nghaergrawnt, er mwyn tyfu'r economi ym mhob rhan o'r DU. Bydd y strategaeth hon yn helpu pobl ifanc i feithrin y sgiliau sydd eu hangen arnynt i lenwi swyddi medrus â chyflogau uchel yn y dyfodol. A bydd yn cefnogi Prydain yn yr hirdymor gan greu amodau lle gall busnesau llwyddiannus ddatblygu a thyfu, a'u helpu i fuddsoddi yn nyfodol ein cenedl.

Nid dewis enillwyr, helpu diwydiannau sy'n methu nac atgyfodi hen gwmnïau yw nod y strategaeth hon. Y nod yw adnabod y diwydiannau hynny sydd o werth strategol i'n heconomi a'u cefnogi a'u hyrwyddo drwy bolisïau ym maes masnach, trethi, seilwaith, sgiliau, hyfforddiant, ac ymchwil a datblygu – fel sy'n digwydd yn yr holl economïau mawr ac economïau sy'n tyfu yn y byd. Y nod yw adnabod y lleoedd a all gyfrannu at dwf economaidd a dod yn gartref i filiynau o swyddi newydd. Ac, am mai ateb yr heriau hirdymor sy'n wynebu ein heconomi yw'r nod, bydd y strategaeth ddiwydiannol yn canolbwyntio ar greu'r fframwaith sefydliadol cywir i sicrhau bod y strategaeth yn para am ddegawdau i ddod.

Byddwn yn gwario mwy ar waith ymchwil a datblygu, er mwyn troi darganfyddiadau gwych yn gynhyrchion ymarferol a thrawsnewid diwydiannau'r byd – fel y batris a fydd yn pweru cenhedlaeth newydd o gerbydau trydan glân ac effeithlon. Byddwn yn sefydlu

ffrydiau cyllido i sicrhau buddsoddiad ar gyfer yr hirdymor, yn dymchwel y rhwystrau sy'n llesteirio cwmnïau bach sydd â photensial mawr – ac yn gadael iddynt gystadlu pan mai'r llywodraeth ei hun yw'r prynwr. Byddwn yn adeiladu ar lwyddiant sectorau o'r radd flaenaf yng Nghymru, gan gynnwys gweithgynhyrchu ceir ac awyrennau, micro-electroneg ac arloesi digidol, ac yn helpu sectorau eraill i ddatblygu'r amodau sydd eu hangen arnynt i ffynnu. Byddwn yn sicrhau y gall diwydiannau a busnesau gael gafael ar ynni dibynadwy, rhad a glân. Byddwn yn darparu'r seilwaith – y ffyrdd, y rheilffyrdd, y meysydd awyr a'r cysylltiadau band eang – sydd ei angen ar fusnesau.

## Sicrhau mwy o arloesedd

Mae ein ffyniant hirdymor yn dibynnu ar wyddoniaeth, technoleg ac arloesedd. Mae gan y DU sail wyddoniaeth ragorol a llawer o gwmnïau technoleg o'r radd flaenaf. Mae angen i ni fynd ymhellach yn awr. Ein huchelgais yw mai'r DU fydd y wlad fwyaf arloesol yn y byd.

Mae Cymru yn enwedig yn parhau i ragori fel canolfan ar gyfer ymchwil, arloesedd, gweithgynhyrchu medrus a thechnoleg. Rydym wedi cefnogi gwaith ymchwil a datblygu drwy Innovate UK a buddsoddiadau fel y Ganolfan Gatapwlt Cymwysiadau Lled-ddargludyddion Cyfansawdd newydd yng Nghasnewydd, sy'n cael £10 miliwn y flwyddyn o gymorth gan y llywodraeth hyd at 2020-21 er mwyn helpu i ddatblygu clwstwr o dechnoleg o'r radd flaenaf. Drwy'r strategaeth ddiwydiannol fodern byddwn yn gwneud Cymru yn un o ardaloedd mwyaf cystadleuol y DU i ddechrau a thyfu busnes.

Yn natganiad yr hydref y llynedd, gwnaethom gyhoeddi cynnydd sylweddol ym muddsoddiad y llywodraeth mewn gwaith ymchwil a datblygu. Byddwn yn bwrw ymlaen â hyn ac yn sicrhau mwy o dwf fel ein bod ni, fel cenedl, yn cyrraedd lefel gyfartalog bresennol OECD ar gyfer buddsoddi mewn gwaith ymchwil a datblygu – hynny yw, 2.4 y cant o CDG – o fewn deng mlynedd, gyda nod tymor hwy o 3 y cant. Byddwn yn cynyddu nifer y gwyddonwyr sy'n gweithio yn y DU ac yn galluogi gwyddonwyr blaenllaw o bob cwr o'r byd i weithio yma. Byddwn yn gweithio'n galed i sicrhau bod gennym amgylchedd rheoleiddio sy'n annog arloesedd.

## Cronfeydd buddsoddi prifysgolion

Bydd ein prifysgolion penigamp yn arwain ymdrechion i ymestyn ein gallu ymchwil a datblygu. Mae'n rhaid i ni eu helpu i droi eu darganfyddiadau yn llwyddiannau – er bod ganddynt nifer o gronfeydd buddsoddi sy'n tyfu sy'n arbenigo mewn cwmnïau deillio, mae'n rhaid i ni wneud mwy i efelychu llwyddiant cronfeydd prifysgol tebyg yn yr Unol Daleithiau.

I'r perwyl hwnnw, byddwn yn gweithio i dyfu cronfeydd buddsoddi ein prifysgolion ledled y DU, gan weithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau y gall prifysgolion yng Nghymru elwa ar hyn. Rydym am weld cronfeydd cyfunol mwy er mwyn cynyddu'r symiau a gaiff eu buddsoddi mewn prifysgolion a chan brifysgolion yn sylweddol.

Rydym am i brifysgolion fwynhau ffrwyth masnachol eu gwaith ymchwil, drwy gronfeydd sy'n ddigon mawr i'w rhestru, gan roi cyfle i fuddsoddwyr ym Mhrydain rannu eu llwyddiant.

## Cronfa Genedlaethol Buddsoddi mewn Cynhyrchiant

Er mwyn i'n strategaeth ddiwydiannol fodern lwyddo, mae'n rhaid iddi fynd i'r afael â thwf cynhyrchiant araf y DU ac mae'n rhaid iddi gael ei hariannu'n briodol o'r dechrau. Felly, rydym wedi lansio Cronfa Genedlaethol Buddsoddi mewn Cynhyrchiant newydd gwerth £23 biliwn. Bydd y llywodraeth yn targedu'r gwariant hwn at feysydd hollbwysig o ran cynhyrchiant, gan gynnwys meysydd a fydd o fudd uniongyrchol i Gymru, fel ymchwil a datblygu, seilwaith economaidd a sgiliau. Bydd hyn yn cynnwys buddsoddiad o £740 miliwn mewn seilwaith digidol, y buddsoddiad mwyaf yn y rheilffyrdd ers oes Fictoria, £1.1 biliwn i wella trafnidiaeth leol a buddsoddiad o £250 miliwn mewn sgiliau erbyn diwedd 2020. Bydd y Gronfa Genedlaethol Buddsoddi mewn Cynhyrchiant yn golygu y bydd gwariant ar dai, seilwaith economaidd a gwaith ymchwil a datblygu yn cyfateb i gyfanswm o £170 biliwn yn ystod y tymor seneddol nesaf.

## Cronfeydd Prydain y Dyfodol

Mae pobl wedi sôn ers tro am yr angen i greu cronfeydd cyfoeth sofran yn y DU. Byddwn yn gwneud hyn yn rhan ganolog o'n cynllun hirdymor ar gyfer Prydain. Byddwn yn creu nifer o gronfeydd o'r fath, a elwir yn gronfeydd Prydain y Dyfodol, a fydd yn dal buddsoddiadau pobl Prydain mewn ymddiriedolaeth, gan gefnogi seilwaith ac economi Prydain. Rhagwelwn y caiff cronfeydd cynnar eu creu gan ddefnyddio refeniw o asedau segur, a derbyniadau a geir drwy werthu rhai asedau cyhoeddus. Byddwn yn annog cronfeydd pensiwn sydd â diddordeb mewn ymuno â chronfeydd Prydain y Dyfodol i wneud hynny.

## Y sgiliau sydd eu hangen arnom

Rhaid i ni hefyd ddiwallu anghenion uniongyrchol y sectorau hynny yn yr economi lle ceir prinder sgiliau. Byddwn yn gwneud i'r system fewnfudo weithio i'r sectorau hyn, gan sicrhau ein bod yn datblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnom ar gyfer y dyfodol hefyd.

Felly, byddwn yn gofyn i'r Pwyllgor Cynghori ar Fudo annibynnol wneud argymhellion i'r llywodraeth ynghylch sut y gellir sicrhau bod y system fisa yn fwy cyson â'n strategaeth ddiwydiannol fodern. Rhagwelwn y bydd cyngor y pwyllgor yn ein galluogi i neilltuo nifer sylweddol o fisâu i weithwyr mewn sectorau strategol bwysig, fel technoleg ddigidol, heb ychwanegu at gyfanswm y ffigurau mudo net.

Fodd bynnag, ni ddylai mewnfudwyr medrus fod yn esgus i'r llywodraeth a busnesau osgoi eu cyfrifoldebau i wella sgiliau gweithlu Prydain. Felly, byddwn yn dyblu'r Tâl Sgiliau Mewnfudwyr a godir ar gwmnïau sy'n cyflogi gweithwyr mudol i £2,000 y flwyddyn erbyn diwedd y tymor seneddol, gan ddefnyddio'r refeniw a gynhyrchir i fuddsoddi mewn hyfforddiant sgiliau lefel uwch ar gyfer gweithwyr yn y DU.

## Cefnogi busnesau bach

Y Blaid Geidwadol yw plaid mentergarwch ac entrepreneuriaid. Rydym yn deall mai busnesau bach sy'n ysgogi twf. Maent yn rhan allweddol o fywyd Prydain a chânt eu gwerthfawrogi am eu cyfraniad i bob cymuned ledled y wlad. Byddwn yn parhau i gefnogi busnesau bach drwy drethi isel, a thrwy leihau'r fiwrocratiaeth a'r rheoliadau sy'n atal busnesau bach rhag ffynnu.

Fel rhan o ddiwygiadau ehangach i'r farchnad ynni busnes, byddwn yn ymgynghori ar sut y gellir ymestyn cap y tariff diogelu i ficrofusnesau.

Rhaid i lywodraeth ganolog chwarae rôl i helpu BBaChau: ar draws holl adrannau'r llywodraeth, byddwn yn sicrhau bod 33 y cant o bryniannau'r llywodraeth ganolog yn dod o BBaChau erbyn diwedd y tymor seneddol. Fel rhan o'n strategaeth ddiwydiannol fodern, byddwn yn ystyried sut y gall y llywodraeth wneud hyd yn oed mwy i gefnogi arloesedd ymhlith cwmnïau bach a newydd. Rydym yn cydnabod hefyd y gall y llywodraeth wella'r amgylchedd busnes cyffredinol i BBaChau, felly byddwn yn defnyddio ein pŵer prynu i sicrhau bod contractwyr mawr yn cydymffurfio â'r Cod Talu Prydlon yn achos contractau'r llywodraeth a'u gwaith gydag eraill. Os na fyddant yn gwneud hynny, byddant yn colli'r hawl i wneud cais am gontractau'r llywodraeth.

## Helpu diwydiannau i lwyddo

Nid 'cynllunio' yr economi yw nod ein strategaeth ddiwydiannol fodern. Y nod yw helpu hen ddiwydiannau i ddod o hyd i fywyd newydd ffyniannus a datgloi cyfleoedd yn y dyfodol, a helpu diwydiannau newydd i dyfu.

Mae gan rai diwydiannau hanes da. Credwn y gallant gael dyfodol da hefyd. Rydym eisoes wedi dangos y gallwn arwain y byd ym maes gweithgynhyrchu uwch, fel peirianneg awyrennau a modurol. Byddwn yn parhau i gefnogi'r diwydiannau allweddol hyn fel y gallant dyfu ymhellach. Rydym am efelychu'r llwyddiant hwnnw mewn sectorau eraill – fel adeiladu llongau lle y gallwn, am y tro cyntaf mewn degawdau, weld gobaith o ddadeni. Byddwn yn symud ymlaen ag adolygiad Syr John Parker o'r diwydiant adeiladu llongau, gan helpu ein hiardiau llongau i foderneiddio a chydweithio.

Mae gan y diwydiant dur yn ne Cymru hanes hir a balch ac rydym yn ymrwymedig i weithio gyda Tata, yr undebau llafur, Llywodraeth Cymru ac eraill i barhau i geisio dod o hyd i ateb hyfyw hirdymor er mwyn sicrhau diwydiant dur cynaliadwy ym Mhort Talbot. Rydym wedi gwneud popeth yn ein gallu i gefnogi'r sector dur ac rydym wedi ymateb i alwadau'r diwydiant, gan gynnwys digolledu gweithgynhyrchwyr ynni-ddwys am gostau ynni adnewyddadwy a chostau polisïau newid hinsawdd, sicrhau hyblygrwydd wrth weithredu rheoliadau allyriadau'r UE, a phwyso'n llwyddiannus am offerynnau amddiffyn masnach i ddiogelu cynhyrchwyr dur y DU rhag arferion dympio dur annheg.

Mae diwydiannau eraill, fel y sector olew a nwy, yn trawsnewid. Mae Môr y Gogledd wedi darparu dros £300 biliwn mewn refeniw treth i economi'r DU ac yn cynnal miloedd o swyddi hyfedr ledled Prydain, gan gynnwys yng Nghymru. Byddwn yn sicrhau bod y sector yn parhau i chwarae rôl hollbwysig yn ein heconomi a'n cyflenwad ynni domestig, drwy gefnogi rhagor o fuddsoddiad yn adnoddau naturiol y DU. Byddwn yn parhau i gefnogi'r diwydiant ac adeiladu ar y cymorth digynsail a roddwyd eisoes i'r sector olew a nwy. Er bod cronfeydd sylweddol iawn ar ôl o hyd ym Môr y Gogledd, disgwylir mai hwn fydd y basn olew a nwy mawr cyntaf yn y byd i gael ei ddatgomisiynu'n llwyr, a byddwn yn manteisio ar hynny er mwyn helpu i ddatblygu diwydiant datgomisiynu o'r radd flaenaf. Byddwn yn gweithio gyda'r diwydiant i greu iard amlddefnydd a phorthladd tra dwfn cyntaf y DU er mwyn cefnogi'r diwydiant hwn.

Mae diwydiannau eraill yn llwyddiannus iawn yn barod. Er enghraifft, mae'r gwyddorau bywyd yn cyflogi 175,000 o bobl ac mae llawer o brif feddyginiaethau'r byd wedi'u datblygu yn y DU. Byddwn yn parhau i gefnogi gwaith ymchwil ym maes canfod a thrin canserau prin a chlefydau eraill. Gall y clwstwr gwyddorau bywyd cryf yng Nghymru helpu gwyddonwyr a meddygon i gynllunio triniaethau mwy effeithiol a phersonol, a helpu i gynnal ein statws fel y brif ganolfan Ewropeaidd ar gyfer gwyddorau bywyd.

## Costau ynni cystadleuol a fforddiadwy

Mae strategaeth ddiwydiannol lwyddiannus yn galw am gostau ynni cystadleuol a fforddiadwy. Rydym am sicrhau bod cost ynni ym Mhrydain yn gystadleuol yn rhyngwladol, i fusnesau a chartrefi.

Felly, byddwn yn comisiynu adolygiad annibynnol o Gost Ynni, gan ofyn am argymhellion ynghylch sut y gallwn sicrhau bod costau ynni yn y DU mor isel â phosibl, ynghyd â sicrhau cyflenwad dibynadwy a'n galluogi i gyflawni ein hamcan lleihau carbon erbyn 2050.

Ein huchelgais yw mai'r DU fydd â'r costau ynni isaf yn Ewrop, i gartrefi a busnesau. Felly, wrth i ni uwchraddio ein seilwaith ynni, byddwn yn gwneud hynny mewn modd fforddiadwy, yn unol â'r uchelgais honno. Ac am fod busnes ynni effeithlon yn golygu busnes mwy cystadleuol i gwmnïau ym Mhrydain, byddwn yn sefydlu cynllun effeithlonrwydd ynni diwydiannol er mwyn helpu cwmnïau mawr i gyflwyno mesurau i leihau eu defnydd o ynni a'u biliau.

## Cymysgedd ynni amrywiol

Rydym am weld ystod amrywiol o ffynonellau cynhyrchu ynni ym Mhrydain, am mai economi ynni amrywiol yw'r ffordd orau o ysgogi arloesedd, a'r ffordd orau hefyd o sicrhau ein bod yn cynhyrchu'n gywir yn y lle cywir.

Mae polisïau ar echdynnu nwy siâl a ffracio wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru a

byddwn yn rhannu arfer gorau ar reoliadau a chyfraith cynllunio, yn ogystal â'r arloesedd diweddaraf ym maes siâl, gyda Llywodraeth Cymru er mwyn annog camau i sefydlu diwydiant newydd yn y maes hwn.

Yn anad dim, credwn y dylai'r polisi ynni ganolbwyntio ar ganlyniadau yn hytrach na'r ffordd y byddwn yn cyflawni ein hamcanion. Felly, ar ôl i ni adael yr Undeb Ewropeaidd, byddwn yn llunio ein polisi ynni nid ar sail y ffordd y caiff ynni ei gynhyrchu ond ar sail y canlyniadau yr hoffem eu gweld – ynni dibynadwy a fforddiadwy, gan achub ar y cyfle diwydiannol y mae technoleg newydd yn ei chyflwyno a bodloni ein hymrwymiadau byd-eang o ran newid yn yr hinsawdd.

## Buddsoddi mewn trafnidiaeth

Rydym ynghanol un o'r rhaglenni buddsoddi mwyaf erioed yn ein ffyrdd a'n rheilffyrdd, a fydd yn buddsoddi rhyw £40 biliwn i wella trafnidiaeth ledled y Deyrnas Unedig dros weddill y degawd hwn.

Rydym yn buddsoddi i leihau amser a chostau teithio, cynyddu capasiti a denu buddsoddiad i'r DU. Byddwn yn parhau â'n rhaglen o fuddsoddiadau cenedlaethol strategol, gan gynnwys High Speed 2, Northern Powerhouse Rail a'r cynlluniau i ehangu Maes Awyr Heathrow – a byddwn yn sicrhau bod y prosiectau rhagorol hyn yn gwneud cymaint â phosibl i ddatblygu sgiliau a gyrfaoedd gweithwyr o Brydain.

Byddwn yn parhau i bwyso ar Lywodraeth Cymru i wneud gwelliannau mawr eu hangen i ffyrdd ledled Cymru, yn enwedig o gwmpas yr M4 yng Nghasnewydd, ar hyd yr A40 yn y gorllewin a'r A55 sy'n croesi'r gogledd. Mae gwelliannau i'r ffyrdd a'r rheilffyrdd yn hanfodol i lwyddiant bargen twf yng ngogledd Cymru ac er mwyn cysylltu'r rhanbarth yn well â chyfleoedd yng ngogledd Lloegr. Byddwn hefyd yn diddymu'r tollau ar gyfer pob cerbyd sy'n defnyddio dwy bont Hafren. Bydd hyn yn atgyfnerthu'r bartneriaeth werthfawr rhwng de Cymru a de-orllewin Lloegr, gan ddod â busnesau a chymunedau'n agosach at ei gilydd a chefnogi'r Undeb.

Ein huchelgais yw y bydd Prydain yn arwain y byd o ran technoleg cerbydau trydan a'r defnydd a wneir ohoni. Rydym am i bron bob car a fan fod yn niwtral o ran allyriadau erbyn 2050 – a byddwn yn buddsoddi £600 miliwn erbyn 2020 er mwyn helpu i gyflawni hyn. Byddwn yn buddsoddi mewn mwy o fysiau allyriadau isel, yn ogystal â chefnogi arddangosiadau clyweledol ar gyfer teithwyr bws a bysiau mini cymunedol mewn ardaloedd gwledig a gaiff eu gwasanaethu'n wael gan drafnidiaeth gyhoeddus.

Byddwn yn canolbwyntio ar greu mwy o gapasiti ar y rheilffyrdd, a fydd yn lleihau gorlenwi, yn cyflwyno llinellau a gorsafoedd newydd, ac yn gwella llwybrau presennol – gan gynnwys ar gyfer trenau cludo nwyddau. Byddwn yn cynyddu gwasanaethau ar ein prif linellau a llwybrau cymudo, ac yn lansio gwasanaethau newydd i leoedd sy'n cael eu

gwasanaethu'n wael neu leoedd lle ceir prosiectau tai mawr newydd.

Byddwn yn parhau i foderneiddio'r seilwaith rheilffyrdd yn y gogledd a'r de. Rydym eisoes wedi neilltuo £125 miliwn i fetro de Cymru fel rhan o Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Byddwn hefyd yn datblygu cynlluniau i adeiladu gorsafoedd a chyfleusterau newydd a gwell i deithwyr. Bydd trenau dinesig cyflym deufoddol yn dechrau cael eu cyflwyno yn ddiweddarach eleni a byddant yn gwneud newid sylweddol i gysur teithwyr a chapasiti. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd gwella cysylltiadau rheilffordd er mwyn cysylltu gweithgarwch economaidd trawsffiniol yn well, yn enwedig gyda dinasoedd fel Lerpwl, Manceinion a Bryste. Byddwn hefyd yn sicrhau bod teithwyr yn y gogledd yn elwa ar Hwb High Speed 2 yn Crewe. Bydd cysylltiadau â Llundain a gogledd-ddwyrain Lloegr yn gwella'n sylweddol yn ogystal â manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd economaidd a gynigir gan ogledd Lloegr.

# CREU CYMUNEDAU CRYFACH O ECONOMI GRYFACH

## Trefi a dinasoedd ffyniannus ledled Cymru

Rydym wedi gweld twf ac adnewyddu dinesig sydd i'w groesawu yn rhai o'n dinasoedd mwyaf. Fodd bynnag, erys bwlch llawer mwy rhwng Llundain a dinasoedd eraill y DU nag sydd i'w weld mewn unrhyw un o'r prif wledydd datblygedig eraill. Credwn mai'r cyfle i gau'r bwlch hwn yw'r wobr fwyaf ym Mhrydain heddiw. Bydd yn galw am ymdrech ddiflino gan y llywodraeth, busnesau a chymdeithas ddinesig dros flynyddoedd lawer. Rydym yn benderfynol o arwain y ffordd yn ystod y tymor seneddol nesaf.

Yn gyntaf, rydym yn cydnabod gwerth sefydliadau i fywiogrwydd trefi a dinasoedd. Fel yr eglurwn ym mhennod dau, dyma pam ein bod yn benderfynol o symud llawer o swyddogaethau'r llywodraeth ganolog i ddinasoedd ledled Prydain lle bo hynny'n bosibl a gweld ein hasedau diwylliannol sylweddol yn cyrraedd pobl ledled ein gwlad hefyd.

Rydym eisoes wedi cyflwyno Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, gwerth £1.2 biliwn, a fydd yn ysgogi twf economaidd sylweddol drwy'r rhanbarth. Mae partneriaid lleol yn disgwyl i'r fargen ddinesig greu cynifer â 25,000 o swyddi newydd a £4 biliwn o fuddsoddiad sector preifat yn y rhanbarth. Yn gynharach eleni, llofnododd y prif weinidog Fargen Dinas-Ranbarth Bae Abertawe y disgwylir iddi greu mwy na 9,000 o swyddi a sbarduno bron £1.3 biliwn o fuddsoddiad.

Byddwn hefyd yn cyflwyno Bargen Twf Gogledd Cymru, gan weithio gyda phartneriaid lleol a Llywodraeth Cymru i nodi'r ffordd orau o atgyfnerthu economi'r rhanbarth a

manteisio i'r eithaf ar ei gysylltiadau â Phwerdy Gogledd Lloegr. Byddwn yn tyfu economi'r canolbarth, gan sicrhau bod sectorau allweddol fel awtomatiaeth ddiwydiannol ac amaethyddiaeth yn cael eu cysylltu â Chanolbarth Lloegr.

Mae gan drefi a dinasoedd Cymru draddodiadau balch, cyfoethog yn ogystal â diwylliant a hanes a rennir. Byddwn yn dathlu ein diwylliant, ein treftadaeth a'n hiaith ac yn cynyddu presenoldeb rhyngwladol Cymru. Bydd y Ceidwadwyr Cymreig yn cefnogi cyllid i'r Urdd, gan gydnabod y rôl hollbwysig y mae sefydliad ieuenctid mwyaf Cymru yn ei chwarae i gefnogi ein treftadaeth, a byddwn yn parhau i hyrwyddo'r Eisteddfod Genedlaethol yn fyd-eang.

Mae Cymru wedi cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau chwaraeon byd-eang gan gynnwys Cwpan Ryder a Chyfres y Lludw a bydd Rownd Derfynol Cynghrair y Pencampwyr yn cael ei chynnal yng Nghaerdydd ym mis Mehefin – y digwyddiad chwaraeon mwyaf yn y byd yn 2017. Byddwn yn ceisio manteisio ar enw da cynyddol Cymru am gynnal digwyddiadau byd-eang ac yn gweithio'n agos gyda chyrff chwaraeon a Llywodraeth Cymru i annog rhagor o lwyddiannau, fel llwyddiant tîm pêl-droed Cymru yn Ewro 2016, drwy gael effaith gadarnhaol ar nifer y bobl o bob oed a gallu sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon.

Sefydlwyd S4C yn 1982 gan y Llywodraeth Geidwadol ac ers hynny mae wedi dod yn llwyfan pwysig i iaith a diwylliant Cymru. Byddwn yn parhau i gefnogi S4C fel rhan o strwythur darlledu'r DU a'i rôl allweddol i ddatblygu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Byddwn yn comisiynu adolygiad annibynnol o S4C ac yn gweithio'n agos gyda'r darlledwr i sicrhau y gall y sianel ffynnu ar adeg pan fo'r cyfryngau yn newid yn gyflym gan adlewyrchu'r argymhellion a'r dyheadau a nodir yn yr adolygiad manwl cyntaf o S4C mewn mwy na degawd. Byddwn yn datblygu strwythur a gynlluniwyd mewn byd analog er mwyn sicrhau y caiff gyfle i ffynnu yn yr oes ddigidol.

## Ein cymunedau gwledig

Byddwn yn sicrhau twf cynaliadwy yn yr economi wledig ac yn rhoi hwb i'n hardaloedd gwledig, fel bod pobl sy'n byw yn y wlad yn cael yr un cyfleoedd â'r rhai sy'n byw yn ein trefi a'n dinasoedd.

Mae gennym uchelgeisiau mawr ar gyfer ein diwydiant ffermio: rydym yn benderfynol o dyfu mwy, gwerthu mwy ac allforio mwy o fwyd da o Brydain. Rydym am roi sefydlogrwydd i ffermwyr wrth i ni adael yr UE a sefydlu fframweithiau newydd i helpu i gynhyrchu bwyd a gwarchod ardaloedd cefn gwlad. Felly, byddwn yn parhau i neilltuo'r un faint o arian i roi cymorth i ffermydd nes diwedd y tymor seneddol.

Mae amaethyddiaeth yn ddiwydiant eiconig yng Nghymru sy'n chwarae rhan bwysig yn ein heconomi a'n hamgylchedd. Byddwn yn gweithio gyda ffermwyr, cynhyrchwyr

bwyd ac arbenigwyr amgylcheddol yng Nghymru, a chyda Llywodraeth Cymru i lunio system amaeth-amgylchedd newydd, i'w chyflwyno yn ystod y tymor seneddol canlynol. Byddwn yn sicrhau bod cryfder brand Cymru yn cael ei gynnal a'i wella wrth i ni adael yr UE.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn cydnabod anghenion penodol ein cymunedau gwledig, gan alluogi pobl leol i chwarae llawer mwy o ran yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, tra'n lleihau'r fiwrocratiaeth sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth, rhoi gwerth ar gynhyrchiant lleol o ansawdd uchel, diogelu gwasanaethau cyhoeddus gwledig a rhoi mwy o flaenoriaeth i iechyd a lles anifeiliaid. Nawr – yn fwy nag erioed – mae angen i gymunedau gwledig Cymru gael cymorth.

Byddwn yn hyrwyddo ein cynnyrch o ansawdd uchel ac yn ceisio adnewyddu Strategaeth Bwyd a Diod Cymru o dan arweiniad y diwydiant. Bydd hyn yn cynnwys gweithio i sicrhau bod y sector cyhoeddus yn defnyddio mwy o gynnyrch lleol, a hyrwyddo bwyd lleol drwy god ymarfer gwirfoddol, fel bod archfarchnadoedd yn cyflenwi mwy o fwyd a diod o Gymru. Byddwn hefyd yn gweithredu cynlluniau i gefnogi dyfodol trefi marchnad, gan ddiogelu eu statws hanesyddol yng Nghymru a'u rôl strategol o fewn economïau lleol.

Mae lles anifeiliaid yn bwysig iawn i bobl Cymru a Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am hyn. Bydd y Ceidwadwyr Cymreig yn sicrhau bod anifeiliaid yn cael eu diogelu'n well, boed yn anifeiliaid anwes, yn anifeiliaid amaethyddol neu'n anifeiliaid gwyllt. Byddwn yn ceisio diweddaru deddfwriaeth ar werthu anifeiliaid i gynnwys masnach ar-lein. Byddwn yn adolygu safonau bridio a gofynion cofrestru anifeiliaid anwes er mwyn sicrhau bod digon o ddiogelwch ar gael i anifeiliaid. Byddwn yn cefnogi dulliau o labelu cynnyrch sy'n rhoi mwy o ddewis i ddefnyddwyr, gan gynnwys gwahaniaethu rhwng dulliau o ladd anifeiliaid lle cânt eu stynio a lle na chânt eu stynio, a byddwn yn cynyddu canran y defnydd cyhoeddus o gynnyrch Cymreig lles uchel.

Byddwn hefyd yn cymryd camau i wella'r gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir mewn ardaloedd gwledig. Byddwn yn diogelu'r rhwydwaith swyddfeydd post, er mwyn amddiffyn gwasanaethau gwledig presennol ac yn gweithio gyda Swyddfa'r Post er mwyn sicrhau bod gwasanaethau bancio a busnes ar gael i deuluoedd a busnesau bach mewn ardaloedd gwledig. Mae traean o'r holl BBaChau mewn ardaloedd gwledig yn defnyddio eu swyddfa bost bob wythnos a'n huchelgais yw y dylai pob gwasanaeth bancio arferol i fusnesau bach a defnyddwyr fod ar gael mewn swyddfeydd post gwledig.

Byddwn yn rhoi pleidlais rydd, ar fil gan y llywodraeth yn amser y llywodraeth, i roi cyfle i'r senedd benderfynu ar ddyfodol y Ddeddf Hela.

Yn olaf, rydym yn addo mai ni fydd y genhedlaeth gyntaf i adael yr amgylchedd mewn cyflwr gwell na'r hyn a etifeddwyd gennym. Dyna pam y byddwn yn llunio Cynllun

Amgylcheddol 25 Mlynedd cynhwysfawr a fydd yn dangos sut y byddwn yn gwella ein hamgylchedd wrth i ni adael yr Undeb Ewropeaidd a rheoli ein deddfwriaeth amgylcheddol unwaith eto. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar weithredu'r polisi hwn er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau ledled y DU.

## Ein cymunedau arfordirol

Mae degawdau o newid economaidd sylweddol wedi gadael eu hôl ar gymunedau arfordirol o gwmpas Cymru. Byddwn yn parhau i weithio er mwyn sicrhau bod y cymunedau hyn yn mwynhau'r bywiogrwydd a'r cyfleoedd y maent yn eu haeddu. Yn Lloegr, byddwn yn ymestyn ein Cronfa Cymunedau Arfordirol lwyddiannus tan 2022, er mwyn helpu ein trefi glan môr i ffynnu. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i geisio canlyniadau tebyg i gymunedau arfordirol yng Nghymru.

Pan fyddwn yn gadael yr Undeb Ewropeaidd a'i Bolisi Pysgodfeydd Cyffredin, byddwn yn llwyr gyfrifol am drefniadau mynediad i'r dyfroedd yr oedd gennym reolaeth sofran drostynt yn hanesyddol a'u rheoli. Bydd llywodraeth Geidwadol newydd yn gweithio gyda'r diwydiant pysgota a'n gwyddonwyr morol o'r radd flaenaf, yn ogystal â'r gweinyddiaethau datganoledig, i gyflwyno cyfundrefn pysgota masnachol newydd a fydd yn gwarchod ac yn cynyddu stociau pysgod ac yn helpu i sicrhau ffyniant ar gyfer cenhedlaeth newydd o bysgotwyr. Er mwyn rhoi sicrwydd cyfreithiol cyflawn i'n cymdogion ac eglurder yn ystod ein cyd-drafodaethau â'r Undeb Ewropeaidd, byddwn yn tynnu'n ôl o Gonfensiwn Pysgodfeydd Llundain.

# 2. CENEDL UNEDIG GREF MEWN BYD SY'N NEWID

## Bydd Theresa May a'r Ceidwadwyr Cymreig yn cyflawni'r canlynol

- Y cytundeb gorau posibl i Gymru wrth i ni adael yr Undeb Ewropeaidd drwy broses Brexit sy'n esmwyth ac yn drefnus.
- Undeb cadarn a sefydlog, sy'n cyflawni dros Gymru.
- Cronfa Ffyniant a Rennir i'r Deyrnas Unedig, a ariennir gan arian sy'n dod yn ôl i'r DU wrth i ni adael yr UE, er mwyn lleihau anghydraddoldebau rhwng cymunedau yn ein pedair gwlad.
- Arweinyddiaeth fyd-eang ym maes datblygu, wedi'i hategu gan wariant o 0.7 y cant o'n hincwm cenedlaethol gyda rheolau newydd i'w wario'n fwy effeithiol.
- Amddiffyn cadarn, gan gyflawni targed NATO o 2 y cant o CDG o leiaf a chynyddu gwariant o leiaf hanner y cant yn fwy na chwyddiant bob blwyddyn.
- Diogelwch rhag troseddu a therfysgaeth, wedi'i ategu gan heddlu seilwaith cenedlaethol newydd, ymateb cryfach i droseddau coler wen a'n strategaeth wrthderfysgaeth o'r radd flaenaf.

**Mae'r Deyrnas Unedig yn dechrau ar gyfnod newydd yn ein hanes hir.** Rydym yn gadael yr Undeb Ewropeaidd. Rydym am sicrhau ein bod yn gadael mewn ffordd esmwyth a threfnus a chytuno ar bartneriaeth ddofn ac arbennig â'r 27 o aelod-wladwriaethau sy'n weddill.

Wrth adael yr Undeb Ewropeaidd, rydym wedi dewis rôl wirioneddol fyd-eang i Brydain. Er mwyn llunio cytundebau masnach â hen ffrindiau a phartneriaid newydd ac ymgymryd â rôl flaenllaw yn y byd er mwyn amddiffyn buddiannau Prydain, mae'n rhaid i ni fod yn gadarn ac yn unedig.

Mae hyn yn dechrau gyda'n penderfyniad i amddiffyn cyfanrwydd y Deyrnas Unedig a chryfhau'r Undeb, gan ddod â phobloedd y Deyrnas Unedig ynghyd.

# EIN HUNDEB GWERTHFAWR

**Teyrnas Unedig ydym, un genedl sy'n cynnwys pedair – yr undeb gwleidyddol mwyaf llwyddiannus yn yr oes fodern.** Mae ei bodolaeth yn cydnabod gwerth undod – mae Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban yn cyflawni llai fel dwy, tair neu bedair, na'r Deyrnas Unedig gyda'i gilydd. Mae'r undeb hwn rhwng ein gwledydd a'n pobloedd yn rhoi'r nerth i ni newid pethau er gwell, i bawb, gyda'r fath uchelgais na fyddai'n bosibl ar ein pennau ein hunain.

Mae'r setliad sy'n llywodraethu'r ynysoedd hyn wedi newid yn sylweddol yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf. Mae pwerau penderfynu pwysig wedi cael eu datganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru. Rydym wedi cyflawni ein hymrwymiad i roi setliad datganoli cliriach, tecach a chryfach i Gymru. Mae Deddf Cymru 2017 yn cynnig eglurder ac atebolrwydd, gan sicrhau bod pobl sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru yn gwybod pwy sy'n gyfrifol am beth, ac yn galluogi Llywodraeth Cymru i gyflawni'r pethau sy'n wirioneddol bwysig i bobl Cymru, gan gynnwys amrywio trethi.

Wrth wraidd y setliad datganoli hwn y mae cytundeb fframwaith cyllidol newydd sy'n rhoi lefel deg o gyllid i Lywodraeth Cymru yn yr hirdymor. Ar hyn o bryd, mae Cymru yn cael tua £120 am bob £100 cyfatebol sy'n cael ei wario yn Lloegr a byddwn yn cadw'r cyllid gwaelodol yn unol â'r cytundeb a lofnodwyd ym mis Rhagfyr 2016. Mae hyn yn rhoi'r adnoddau i Lywodraeth Cymru gyflwyno gwell addysg, gofal iechyd a thai i bobl Cymru.

Mae'r datblygiad cadarnhaol hwn yn ein cyfansoddiad wedi rhoi llais i bobl a oedd yn teimlo eu bod ymhell o ganol grym, a chyfrifoldeb i bobl am eu rhan eu hunain yn ein

gwlad wych. Byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru mewn cydberthynas sy'n seiliedig ar gyfuno a rhannu adnoddau drwy fformiwla Barnett. Byddwn yn parchu'r setliadau datganoli: ni fydd unrhyw bwerau penderfynu sydd wedi'u datganoli yn cael eu dychwelyd i San Steffan. Yn wir, rydym yn rhagweld y bydd pwerau Llywodraeth Cymru yn cynyddu wrth i ni adael yr UE. Fodd bynnag, gallwn ddal i wneud mwy dros bobl Cymru.

Yn y gorffennol, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi tueddu i 'ddatganoli ac anghofio'. Bydd y llywodraeth Geidwadol hon yn unioni hynny. Rydym am i Lywodraeth y DU fod yn gyfrwng i gyflawni pethau da drwy'r wlad gyfan.

Felly byddwn yn llywodraeth weithgar, ym mhob rhan o'r DU. Byddwn yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru er budd ein holl bobl – ond nid hynny fydd terfyn ein gweithredoedd yng Nghymru. Rydym yn uchelgeisiol dros bawb ym Mhrydain ac ni fyddwn yn gadael neb ar ei hôl hi yn ein hymdrechion i ledaenu cyfleoedd a ffyniant ledled y Deyrnas Unedig.

Mae Cymru yn chwarae rhan hollbwysig yn strategaeth ddiwydiannol fodern y DU, o ran hybu diwydiannau sy'n tyfu yng Nghymru a'r pwerau ychwanegol a roddwyd i awdurdodau lleol a busnesau yng Nghymru hybu twf lleol. Bydd busnesau Cymru yn ganolog i'n polisïau masnach ac allforio newydd, a bydd ein buddsoddiad mewn seilwaith gwell yn helpu cwmnïau yng Nghymru i gael hyd yn oed mwy o fudd o farchnad sengl y DU nag y maent yn ei gael ar hyn o bryd. Byddwn yn moderneiddio'r seilwaith rheilffyrdd ledled Cymru, gan gynnwys gorsafoedd newydd a gwell, ac yn ystyried ffyrdd o harneisio adnoddau naturiol Cymru i gynhyrchu ynni.

Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i annog mwy o gydweithredu trawsffiniol, gan sicrhau nad yw'r ffin rhwng Cymru a Lloegr yn mynd yn rhwystr i fusnesau, addysg na chymunedau. Byddwn yn meithrin cyfleoedd rhwng dinasoedd yng Nghymru a gweddill y DU, megis cysylltu datblygu economaidd rhwng Caerdydd, Casnewydd a Bryste.

## Sefydliadau a rennir o fewn yr Undeb

Ers gormod o amser, mae grym ym Mhrydain wedi'i leoli yn Llundain. Mae hyn yn golygu mai yn Llundain hefyd y mae cyfleoedd. Mae'n bryd i ddinasoedd mawr ledled Prydain rannu yn nhrefn lywodraethu'r Deyrnas Unedig. Er mwyn i'n gwasanaeth sifil a'n cyrff diwylliannol mawr haeru eu bod yn sefydliadau'r DU, mae angen iddynt gynrychioli a bod yn bresennol ym mhob rhan o'n Teyrnas Unedig. Nid yw'n iawn ychwaith bod rhai o'n sefydliadau diwylliannol mawr wedi gwneud ymdrech i gael presenoldeb ledled y DU ond nad yw eraill wedi gwneud hynny.

Byddwn yn unioni'r sefyllfa hon. Gan ddechrau gyda chyrff hyd braich Llywodraeth y DU, byddwn yn dechrau symud niferoedd sylweddol o weision sifil Llywodraeth y DU a gweision cyhoeddus eraill o Lundain a de-ddwyrain Lloegr i ddinasoedd o amgylch

y DU. Byddwn yn sicrhau bod uwch swyddi yn symud hefyd, fel y bydd pencadlysoedd gweithredol yn ogystal â swyddogaethau gweinyddol wedi'u lleoli ledled Prydain yn hytrach nag yn Llundain. A byddwn yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n annog datblygiad clystyrau newydd o wasanaethau cyhoeddus, busnesau preifat a, lle y bo'n briodol, brifysgolion.

Byddwn yn gweithredu ar yr un sail â sefydliadau celfyddydol a diwylliannol sy'n rhoi cymaint o gadernid i'n Teyrnas Unedig. Bydd Channel 4 yn parhau i fod o dan berchenogaeth gyhoeddus a chaiff ei hadleoli o Lundain a byddwn yn gweithio gydag amgueddfeydd ac orielau mwyaf blaenllaw y genedl er mwyn sicrhau y caiff eu gweithiau a'u harbenigedd eu rhannu drwy'r wlad i gyd.

## Cronfa Ffyniant a Rennir y Deyrnas Unedig

Rydym yn credu mewn un genedl – mewn helpu pob rhan o'n gwlad i fod yn rhan o ffyniant a chyfleoedd ein Teyrnas Unedig wych. Ond eto mae llawer mwy i'w wneud. Nod y cronfeydd strwythurol presennol i'r UE gyfan oedd mynd i'r afael ag anghyfartalwch ond maent yn gostus i'w gweinyddu ac wedi'u targedu'n wael. Wrth i ni adael yr Undeb Ewropeaidd, mae'n rhaid i ni ystyried sut y gallwn leihau a dileu'r anghydraddoldebau hyn yn well.

Mae Cymru wedi bod yn gymwys yn gyson i gael yr uchafswm o'r cronfeydd strwythurol. Er i £4 biliwn gael ei neilltuo gan yr UE dros un mlynedd ar bymtheg i Orllewin Cymru a'r Cymoedd, mae'r gwariant wedi methu â sicrhau'r newid mawr i economi Cymru a addawyd. Bu hefyd gryn dipyn o wastraff ac nid yw'r effaith ar gymunedau yng Nghymru wedi bod mor sylweddol â'r hyn a ddymunwyd.

Byddwn yn defnyddio arian cronfeydd strwythurol sy'n dychwelyd i'r DU ar ôl Brexit i greu Cronfa Ffyniant a Rennir y Deyrnas Unedig, sydd wedi'i dylunio'n benodol i leihau anghydraddoldebau rhwng cymunedau ledled ein pedair gwlad. Bydd yr arian a gaiff ei wario yn helpu i sicrhau twf cynaliadwy a chynhwysol yn seiliedig ar ein strategaeth ddiwydiannol fodern. Byddwn yn ymgynghori'n eang ynghylch dyluniad y gronfa, gan gynnwys â Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, busnesau a chyrff cyhoeddus. Bydd Cronfa Ffyniant a Rennir y DU yn rhad i'w gweinyddu, yn llai biwrocrataidd ac wedi'i thargedu lle y mae ei hangen fwyaf.

# GADAEL YR UNDEB EWROPEAIDD

**Yn sgil y refferendwm hanesyddol ar 23 Mehefin 2016, mae'r Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd.** Dim ond y Blaid Geidwadol, o dan arweinyddiaeth gref a sefydlog Theresa May, a all negodi'r cytundeb gorau posibl i'n gwlad. Yn ei haraith yn Nhŷ Lancaster, amlinellodd y prif weinidog y deuddeg egwyddor y mae'n bwriadu eu

dilyn wrth geisio partneriaeth ddofn ac arbennig newydd â'r Undeb Ewropeaidd. Rydym wedi esbonio'r ffordd rydym yn bwriadu gweithredu yn y Papur Gwyn ar Ymadawiad y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd, a'i pherthynas newydd â'r Undeb yn ystod hynt Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Hysbysiad Gadael), yn llythyr y prif weinidog at lywydd y Cyngor Ewropeaidd yn dwyn Erthygl 50 i rym, ac ym Mhapur Gwyn y Bil Diwygio Mawr.

Rydym am gytuno ar bartneriaeth ddofn ac arbennig â'r Undeb Ewropeaidd. Bydd y bartneriaeth hon yn fuddiol i'r Undeb Ewropeaidd a'r Deyrnas Unedig fel ei gilydd: er ein bod yn gadael yr Undeb Ewropeaidd, nid ydym yn gadael Ewrop, ac rydym am barhau i fod yn bartneriaid ac yn gynghreiriaid ymrwymedig i'n ffrindiau ar y cyfandir.

Bydd y cyd-drafodaethau, yn anochel, yn anodd, a bydd yn rhaid i'r ddwy ochr gyfaddawdu, ond credwn o hyd bod dim cytundeb yn well na chytundeb gwael i'r Deyrnas Unedig. Ond byddwn yn dechrau ar y cyd-drafodaethau mewn ysbryd o gydweithrediad diffuant ac ymrwymiad i sicrhau'r cytundeb gorau posibl i Brydain. Byddwn yn sicrhau ein bod yn cael sicrwydd ac eglurder ynglŷn â'n dyfodol, rheolaeth dros ein cyfreithiau ein hunain a Theyrnas Unedig sy'n gryfach ac yn fwy unedig. Byddwn yn rheoli mewnfudo ac yn sicrhau hawliau gwladolion yr UE ym Mhrydain a gwladolion Prydeinig yn yr UE. Byddwn yn cadw'r Ardal Deithio Gyffredin ac yn cadw ffin mor ddirwystr â phosibl i bobl, nwyddau a gwasanaethau rhwng Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon. Bydd hawliau gweithwyr a roddwyd i ddinasyddion Prydeinig drwy ein haelodaeth o'r UE yn parhau. Byddwn yn ceisio sicrhau masnach rydd â marchnadoedd Ewropeaidd, ac yn sicrhau cytundebau masnach newydd â gwledydd eraill. Rydym am gydweithio yn y frwydr yn erbyn troseddu a therfysgaeth, cydweithredu ym maes gwyddoniaeth ac arloesedd – a sicrhau proses Brexit esmwyth a threfnus. A byddwn yn diogelu rhyddid democrataidd pobl Gibraltar a'n tiriogaethau tramor i aros yn Brydeinig, cyhyd ag y dymunant hynny. Bydd y cytundeb terfynol yn destun pleidlais yn nau dŷ'r senedd.

Wrth i ni adael yr Undeb Ewropeaidd, ni fyddwn yn aelodau o'r farchnad sengl na'r undeb tollau mwyach ond byddwn yn ceisio partneriaeth ddofn ac arbennig, gan gynnwys cytundeb masnach rydd a thollau cynhwysfawr. Efallai y bydd rhai rhaglenni Ewropeaidd y byddwn am gymryd rhan ynddynt ac os felly, bydd yn rhesymol i ni wneud cyfraniad. Byddwn yn penderfynu ar setliad teg ynglŷn â hawliau a rhwymedigaethau'r DU fel aelod-wladwriaeth sy'n gadael, yn unol â'r gyfraith ac ysbryd partneriaeth barhaus y DU â'r UE. Fodd bynnag, mae'r egwyddor yn glir: bydd cyfraniadau blynyddol enfawr Prydain i'r Undeb Ewropeaidd yn dod i ben.

Rydym am gael cyd-drafodaethau teg a threfnus, sy'n achosi cyn lleied o darfu â phosibl ac sy'n cynnig cymaint o sicrwydd â phosibl – er budd y ddwy ochr. Credwn y bydd angen cytuno ar delerau ein partneriaeth yn y dyfodol ochr yn ochr â'r broses adael, gan ddod i gytundeb ar y naill a'r llall o fewn y ddwy flynedd a ganiateir gan Erthygl 50 o Gytuniad yr Undeb Ewropeaidd.

## Ailwladoli cyfraith yr UE i'r Deyrnas Unedig

Byddwn yn deddfu drwy Fil Diwygio Mawr. Bydd ein cyfreithiau yn cael eu gwneud yn Llundain ac yng Nghaerdydd, a'u dehongli gan farnwyr yn y Deyrnas Unedig, nid yn Lwcsembwrg. Bydd y bil yn trosi cyfraith yr UE yn gyfraith y DU, gan alluogi busnesau ac unigolion i fyw eu bywydau gan wybod nad yw'r rheolau wedi newid dros nos. Drwy weithredu yn y modd hwn bydd hawliau gweithwyr a'r mesurau diogelu a roddir i ddefnyddwyr a'r amgylchedd drwy gyfraith yr UE yn parhau i fod ar gael yng nghyfraith y DU ar adeg gadael yr UE. Bydd y bil hefyd yn creu'r pwerau angenrheidiol i gywiro'r cyfreithiau hynny nad ydynt yn gweithredu'n briodol ar ôl i ni adael yr UE, fel y gall ein cyfundrefn gyfreithiol barhau i weithredu'n gywir y tu allan i'r UE. Unwaith y bydd cyfraith yr UE wedi trosi'n gyfraith ddomestig, bydd senedd y DU yn gallu pasio deddfwriaeth i ddiwygio, diddymu neu wella unrhyw ddarn o gyfraith yr UE fel y mynno, a hefyd Lywodraeth Cymru, pan fo ganddi'r pwerau penderfynu i wneud hynny.

Wrth i bwerau ddychwelyd o'r UE, byddwn yn gallu pennu'r lefel orau i wneud penderfyniadau ar y materion hyn, gan sicrhau bod pŵer yn nes at bobl y Deyrnas Unedig nag erioed o'r blaen. Rydym yn disgwyl y bydd hyn yn arwain at gynnydd sylweddol ym mhwerau penderfynu Llywodraeth Cymru ond, wrth i ni adael yr UE, mae'n rhaid i ni sicrhau hefyd na fydd unrhyw rwystrau newydd i fyw a chynnal busnes yn ein hundeb ein hunain yn cael eu creu. Mewn rhai meysydd, bydd hyn yn gofyn am fframweithiau cyffredin i'r DU. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r gweinyddiaethau datganoledig i weithredu mewn ffordd sy'n gweithio i'r Deyrnas Unedig gyfan ac sy'n adlewyrchu anghenion ac amgylchiadau unigol Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Yn ogystal â'r Bil Diwygio Mawr, byddwn yn cyflwyno nifer o filiau ychwanegol er mwyn sicrhau, pan fyddwn wedi gadael yr UE, fod sail statudol glir i awdurdodau yn y Deyrnas Unedig arfer pwerau a arferir drwy gyfraith a sefydliadau'r UE ar hyn o bryd.

Ni fyddwn yn cynnwys Siarter Hawliau Sylfaenol yr Undeb Ewropeaidd yng nghyfraith y DU. Ni fyddwn yn diddymu nac yn disodli'r Ddeddf Hawliau Dynol tra bydd proses Brexit yn mynd rhagddi ond byddwn yn ystyried ein fframwaith cyfreithiol ar gyfer hawliau dynol pan fydd y broses o adael yr UE wedi dod i ben. Byddwn yn parhau i fod yn un o lofnodion y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn ystod y tymor seneddol nesaf.

# PRYDAIN YN FYD-EANG

**Gwlad â chysylltiadau byd-eang yw'r Deyrnas Unedig.** Mae ein hanes yn un o gysylltiadau byd-eang; rhaid i gysylltiadau byd-eang fod yn rhan o'n dyfodol hefyd. Credwn y dylai Prydain chwarae rhan weithredol, flaenllaw yn y byd. Nid oherwydd bod gennym yr hawl neu'r dreftadaeth, ond oherwydd mai ein harweinyddiaeth yn y byd

yw'r ffordd fwyaf sicr o amddiffyn a hyrwyddo buddiannau pobl Prydain, a lledaenu'r gwerthoedd hynny sy'n gywir yn ein barn ni dros y byd i gyd.

Mae'r Deyrnas Unedig eisoes yn rym byd-eang. Mae gennym wasanaeth diplomyddol o'r radd flaenaf ac un o'r cyllidebau datblygu tramor mwyaf yn y byd. Mae ein lluoedd arfog yn cael eu parchu dros y byd i gyd ac maent yn ein galluogi i ddangos ein grym yn fyd-eang. Mae ein busnesau byd-eang yn golygu ein bod yn fwy rhyngysylltiedig â'r economi fyd-eang nag unrhyw wlad gyffelyb arall.

Mae Prydain eisoes yn ddylanwad pwysig er da dros y byd. Mae ein cymorth yn rhoi addysg a chyfle i filiynau ddianc rhag tlodi. Mae llongau ein llynges yn atal y fasnach ffiaidd mewn pobl ac mewn cyffuriau. Rydym ar flaen y gad o ran yr ymgyrch fyd-eang yn erbyn newid yn yr hinsawdd.

Gallwn a dylem wneud mwy, nid dim ond oherwydd bod cyflawni pethau da yn ddiben pwysig ynddo'i hun ond oherwydd bydd yn arwain at fwy o heddwch a ffyniant i bobl Prydain. Byddwn yn parhau i hyrwyddo gwerthoedd Prydeinig ledled y byd: rhyddid, democratiaeth, goddefgarwch a rheolaeth y gyfraith. Ni fydd hyrwyddwr mwyaf blaenllaw masnach rydd yn y byd. Byddwn yn ehangu ein hymdrechion byd-eang i ymladd eithafiaeth, terfysg, a thrais yn erbyn pobl oherwydd eu ffydd, eu rhyw neu eu rhywedd. Gan weithio gyda Llywodraeth Cymru byddwn yn parhau i arwain camau gweithredu rhyngwladol yn erbyn newid yn yr hinsawdd, a diraddio cynefinoedd a cholli rhywogaethau. Byddwn yn parhau i arwain ymgyrch fyd-eang dros addysg i fenywod a merched, sy'n allweddol i gynnydd mewn cynifer o wledydd. Byddwn yn arwain y frwydr yn erbyn caethwasiaeth fodern, yn union fel y trechwyd y fasnach mewn caethweision gennym ddwy ganrif yn ôl. Byddwn yn arwain ymdrech fyd-eang i gau mannau ar-lein i'r rhai sy'n cam-drin plant, sy'n ysgogi trais neu sy'n lledaenu iaith casineb. Byddwn yn arwain y byd yn y gwaith anodd o roi terfyn ar dlodi eithafol ymhlith plant a chydlynu ymdrechion yn erbyn ymwrthedd microbaidd a chlefydau trofannol sy'n datblygu. A byddwn yn arwain mewn maes newydd, sy'n achos pryder ledled y byd: ni fydd yr arweinydd byd-eang ym maes rheoleiddio'r defnydd o ddata personol a'r rhyngrwyd.

## Arweinyddiaeth Brydeinig mewn sefydliadau rhyngwladol

Mae diogelwch a ffyniant y Deyrnas Unedig yn seiliedig ar y sefydliadau rhyngwladol y gwnaethom helpu i'w sefydlu ac y byddwn yn parhau i helpu i'w cynnal: y Cenhedloedd Unedig a Chyngor Diogelwch y CU, NATO – conglfaen amddiffyn ein gwlad, y Gymanwlad, y G20, G7 a Sefydliad Masnach y Byd. Byddwn yn parhau i roi cefnogaeth gref i drefn ryngwladol lle mae rheolau yn llywodraethu ymddygiad gwladwriaeth; yn ein hymddygiad ein hunain byddwn yn cefnogi'r gyfundrefn hon a'i chymhwyso mewn ffordd egwyddorol. Byddwn yn parhau i geisio diwygio sefydliadau amlochrog, yn enwedig o ran y ffordd y maent yn dosbarthu cronfeydd datblygu, er mwyn sicrhau y caiff arian ei ddefnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol i ddiogelu a helpu'r bobl sydd fwyaf agored i niwed yn y byd.

## Partneriaethau a chynghreiriau byd-eang

Ochr yn ochr â'n partneriaeth ddofn ac arbennig arfaethedig â'r Undeb Ewropeaidd, byddwn yn cynnal y cysylltiadau hanesyddol, diwylliannol ac economaidd rhyngom ni a'n hen ffrindiau a chynghreiriaid ledled y byd. Byddwn yn adeiladu ar y berthynas arbennig sy'n bodoli eisoes â'r Unol Daleithiau, ac yn meithrin partneriaethau economaidd a diogelwch newydd a fydd yn ein gwneud yn fwy ffyniannus yma ac yn fwy diogel dramor. Byddwn yn cryfhau ein cysylltiadau agos â'n cynghreiriaid yn y Gymanwlad, gan barhau â'n cenhadaeth i hyrwyddo gwerthoedd democrataidd o amgylch y byd ac adeiladu ar y cydberthnasau economaidd sy'n bodoli eisoes er mwyn hyrwyddo ein buddiannau masnachu cyffredin. Byddwn yn datblygu cynghreiriau ac yn cydweithredu mwy â hen ffrindiau a phartneriaid newydd.

## Hyrwyddo masnach rydd yn fyd-eang

Bydd y Deyrnas Unedig yn hyrwyddwr byd-eang dros economi agored, masnach rydd a llif di-rwystr o fuddsoddiadau, syniadau a gwybodaeth. Mae masnach agored a rhydd yn allweddol i ffyniant, sefydlogrwydd a diogelwch rhyngwladol – mae'n elfen hanfodol o economi sy'n gweithio i bawb. Credwn fod yn rhaid i'r DU fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd unigryw sydd ganddi i greu cydberthnasau masnach a buddsoddi newydd ledled y byd, gyda Chymru yn chwarae rôl allweddol fel rhan o Brydain sy'n edrych tuag allan ac sy'n croesawu'r byd.

## Hyrwyddo diwylliant Prydeinig o amgylch y byd

Mae'r Deyrnas Unedig yn gartref i rai o'r sefydliadau diwylliannol gorau yn y byd. Byddwn yn parhau i hyrwyddo'r sefydliadau hynny a sicrhau bod ganddynt yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i gryfhau llais Prydain ar y llwyfan byd-eang ac fel cyfrwng i gyflawni pethau da yn y byd. Byddwn yn parhau i hyrwyddo democratiaeth, rheolaeth y gyfraith, hawliau eiddo, cyfryngau rhydd ac agored, a sefydliadau atebol mewn gwledydd a chymdeithasau ledled y byd.

Byddwn yn sicrhau bod gan y BBC World Service a'r British Council sylfeini cadarn fel y gallant hyrwyddo gwerthoedd gorau Prydain ledled y byd a meithrin cysylltiadau cadarn rhwng ein cymunedau lleol a gwledydd eraill.

## Arwain y byd ym maes datblygu

Mae cymorth Prydeinig yn helpu miliynau ac mae'n arwydd grymus o le Prydain yn y byd. Mae'n diogelu ein buddiannau: drwy adeiladu byd mwy diogel, iach a ffyniannus, gallwn ddiogelu ein pobl ein hunain rhag clefyd, gwrthdaro ac ansefydlogrwydd. Dyna'r uchelgais gywir i wlad sy'n edrych tuag allan, felly byddwn yn parhau â'n hymrwymiad i wario 0.7 y cant o'n hincwm cenedlaethol gros ar gymorth i wledydd sy'n datblygu ac argyfyngau rhyngwladol.

Byddwn yn parhau i ddefnyddio ein cyllideb cymorth yn unol â'r Nodau Datblygu Cynaliadwy, er mwyn rhoi terfyn ar dlodi eithafol, achub bywydau plant, a rhoi addysg i ferched. Byddwn yn mynd ati i geisio rhoi terfyn ar ddarostyngiad ac anffurfio menywod, ymladd yn erbyn y

gaethfasnach greulon mewn pobl ac atal diraddio amgylcheddol trychinebus. A byddwn yn parhau i arwain ymdrechion byd-eang i fynd i'r afael â thrais rhywiol yn ystod rhyfel.

Mae gwyddonwyr a dyfeiswyr o Brydain wedi helpu i fynd i'r afael â rhai o'r heriau mwyaf a wynebir gan bobl dlotaf y byd. Dylai Prydain sy'n edrych tuag allan anelu at wneud hyd yn oed yn fwy: byddwn yn cynyddu ein cyllid i ymchwil feddygol a thechnegol a arweinir gan y DU i'r bygythiadau mwyaf i iechyd a ffyniant byd-eang, a hynny'n sylweddol.

Mae lle o hyd i wella'r ffordd y defnyddir arian trethdalwyr i helpu'r bobl sydd fwyaf agored i niwed yn y byd. Yn ein barn ni, nid yw diffiniadau rhyngwladol o gymorth datblygu bob amser yn helpu wrth benderfynu sut y dylid gwario arian, ar bwy ac i beth. Felly byddwn yn gweithio gyda gwledydd sy'n cyd-weld â ni i newid y rheolau er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu diweddaru a'u bod yn adlewyrchu ehangder ein cymorth ledled y byd yn well. Os na fydd hynny'n gweithio, byddwn yn newid y gyfraith i ganiatáu i ni ddefnyddio diffiniad gwell o wariant datblygu, a pharhau i gyflawni ein targed o 0.7 y cant ar yr un pryd.

## Diwygio lloches

Byddwn yn sicrhau bod Prydain yn parhau i fod yn noddfa i ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Fodd bynnag, mae'r system bresennol wedi'i hanelu at bobl sy'n ddigon ifanc, yn ddigon iach, ac sydd â'r adnoddau i gyrraedd Prydain, yn hytrach na'r rhai sydd angen ein help fwyaf.

Lle bynnag y bo modd, bydd y llywodraeth yn cynnig lloches i bobl mewn rhannau o'r byd lle ceir gwrthdaro a gorthrwm, yn hytrach na'r rhai sydd wedi llwyddo i gyrraedd Prydain. Byddwn yn mynd ati i leihau nifer y ceisiadau am loches a wneir ym Mhrydain ac, wrth i ni wneud hynny, byddwn yn cynyddu nifer y bobl sy'n cael help gennym yn y rhanbarthau mwyaf cythryblus. Byddwn yn parhau i weithio gyda gwledydd eraill yn Ewrop a'r Cenhedloedd Unedig i adolygu'r diffiniadau cyfreithiol rhyngwladol o statws lloches a ffoaduriaid.

Byddwn yn sicrhau bod ein cynghorau yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i ymdopi â phobl wrth iddynt gyrraedd, a sefydlu cynlluniau i helpu unigolion, elusennau, grwpiau ffydd, eglwysi a busnesau i ddarparu tai a mathau eraill o gymorth i ffoaduriaid.

## Diogelu'r amgylchedd byd-eang

Bydd y Deyrnas Unedig yn arwain y byd ym maes diogelu amgylcheddol. Fel Ceidwadwyr, rydym yn ymrwymedig i adael yr amgylchedd mewn cyflwr gwell na'r hyn a etifeddwyd gennym. Dyna pam y byddwn yn parhau i arwain y camau gweithredu byd-eang yn erbyn newid yn yr hinsawdd, fel y dangosodd y llywodraeth wrth gadarnhau Cytundeb Paris. Y Deyrnas Unedig oedd y wlad gyntaf i gyflwyno Deddf Newid yn yr Hinsawdd, yr helpodd y Ceidwadwyr i'w llunio, ac rydym hanner ffordd tuag at gyflawni ein nod o leihau allyriadau wyth deg y cant o gymharu â lefelau 1990 erbyn 2050.

Byddwn yn hyrwyddo mwy o gydweithrediad ym maes cadwraeth o fewn cyrff rhyngwladol, gan warchod rhywogaethau prin, rhanbarthau'r pegynau a dyfroedd rhyngwladol. Byddwn yn gweithio gyda llywodraethau ein Tiriogaethau Tramor i greu Llain Las o ddiogelwch morol yn eu dyfroedd gwerthfawr, gan sefydlu'r gwarchodfeydd morol mwyaf yn y byd.

## Caethwasiaeth fodern

Mae'r DU yn un o arweinwyr y byd o ran ymladd yn erbyn y fasnach ddieflig mewn pobl – boed hynny o amgylch y byd ac yn ein gwlad ein hunain – at ddibenion camfanteisio rhywiol a chamfanteisio ar weithwyr. Fel ysgrifennydd gwladol, cyflwynodd Theresa May y Ddeddf Caethwasiaeth Fodern, sef yr un gyntaf o'i bath yn Ewrop, penododd gomisiynydd atal caethwasiaeth cyntaf y byd a sefydlodd y Tasglu Caethwasiaeth Fodern i ddwyn ynghyd benaethiaid MI5, MI6 a'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol i gydlynu ein hymateb i gangiau troseddol sy'n gweithredu ledled y byd.

Mae angen i ni fynd ymhellach yn awr. Mae angen i ni ganolbwyntio ar achosion o gamfanteisio ar ddynion, menywod a phlant sy'n agored i niwed at ddibenion gwaith, pobl sy'n cael eu symud o amgylch ein gwlad a rhwng gwledydd, fel na baent yn bobl o gwbl. Byddwn yn adolygu'r ffordd y cymhwysir camfanteisio yn y Ddeddf Caethwasiaeth Fodern er mwyn atgyfnerthu ein gallu i atal troseddwyr rhag gosod dynion, menywod a phlant mewn amodau gwaith troseddol, peryglus a chamfanteisiol. A bydd y DU yn defnyddio ei grym i annog y Cenhedloedd Unedig a chyrff rhyngwladol eraill i roi terfyn ar Gaethwasiaeth fodern am byth.

# AMDDIFFYN CADARN MEWN BYD ANSICR

**Mae ein byd yn llawn cyfleoedd ond mae hefyd yn llawn gwrthdaro, terfysgaeth a bygythiadau.** Fel grym byd-eang, mae cyfrifoldeb arnom i gynnal ein lluoedd arfog gwych fel y gallant amddiffyn y deyrnas, ein tiriogaethau tramor a'n buddiannau ledled y byd. Byddwn yn chwarae rôl flaenllaw yn NATO ac yn cynnal y gallu i gynnal cyrchoedd, cadw'r heddwch, cynnal ymgyrchoedd diogelwch a chynnull byddin ymdeithiol ar y cyd. Byddwn yn cynnal maint cyffredinol y lluoedd arfog, gan gynnwys byddin sy'n gallu rhoi adran ymladd rhyfel yn y maes. Byddwn yn estyn ein cyrhaeddiad ledled y byd. Byddwn yn cadw atalydd niwclear Trident parhaus ar y môr i roi'r sicrwydd pennaf o'n diogelwch.

Mae gennym y gyllideb amddiffyn fwyaf yn Ewrop a'r gyllideb fwyaf ond un yn NATO. Byddwn yn parhau i gyflawni ein hymrwymiad i NATO i wario o leiaf 2 y cant o CDG ar amddiffyn a byddwn yn cynyddu'r gyllideb amddiffyn o leiaf 0.5 y cant yn uwch na chwyddiant ym mhob blwyddyn o'r tymor seneddol newydd.

Mae gan Gymru hanes balch o wasanaeth milwrol ac mae wedi gwneud cyfraniad sylweddol i'n lluoedd arfog. Byddwn yn parhau i gyfrannu'r dynion a'r merched gorau i'n lluoedd arfog ac yn adeiladu ar ein harbenigedd technegol, gan dyfu'r ôl troed amddiffyn drwy'r genedl gyfan. Mae contractau'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn darparu swyddi o ansawdd uchel, buddsoddiad a sgiliau i gymunedau ledled Cymru. Mae contract gwerth £330 miliwn y Weinyddiaeth Amddiffyn a ddyfarnwyd i General Dynamics yn Oakdale, yn y de yn adeiladu ar ein sgiliau tactegol a thechnegol, gan gyflwyno'r genhedlaeth nesaf o systemau cyfathrebu ar faes y gad. Byddwn hefyd yn adeiladu ar ein henw da am sgiliau technoleg hedfan gyda'r ganolfan atgyweirio F-35 fyd-eang newydd yn Sealand, yn y gogledd, a fydd yn creu cannoedd o swyddi o safon, yn diogelu miloedd o swyddi eraill ac yn rhoi hwb mawr i allforion y DU.

## Y lluoedd arfog gorau

Byddwn yn denu ac yn cadw'r dynion a'r merched gorau i'n lluoedd arfog, gan gynnwys drwy eu cyflogi ar sail hyblyg. Byddwn yn diogelu ein lluoedd arfog dewr rhag hawliadau cyfreithiol mynych sy'n peri gofid meddwl i'r rhai sy'n peryglu eu bywydau drosom, sy'n costio miliynau i drethdalwyr ac sy'n tanseilio'r lluoedd arfog yn y gwasanaeth a roddant. O dan lywodraeth Geidwadol, bydd milwyr o Brydain yn y dyfodol yn ddarostyngedig i'r Gyfraith Gwrthdaro Arfog, sy'n cynnwys Confensiwn Genefa a Chyfraith Lluoedd Arfog y DU, ac nid Llys Hawliau Dynol Ewrop. Byddwn yn atgyfnerthu'r ffordd y rheoleiddir gwasanaethau cyfreithiol ac yn cyfyngu ar gymorth cyfreithiol i gwmnïau cyfreithiol diegwyddor sy'n cyflwyno hawliadau cyfreithiol blinderus yn erbyn y lluoedd arfog. Byddwn yn cyflwyno gwell iawndal i aelodau o'r lluoedd arfog sy'n cael eu hanafu a theuluoedd y rhai sy'n cael eu lladd wrth ymladd.

## Y cyfarpar gorau i'n lluoedd arfog

Rydym yn bwriadu buddsoddi £178 biliwn mewn cyfarpar milwrol newydd dros y degawd nesaf, gan greu swyddi hyfedr ym mhob rhan o'r wlad. Am y tro cyntaf ers cenhedlaeth mae'r Llynges Frenhinol yn tyfu. Rydym wedi dechrau ar y gwaith o adeiladu'r gyntaf o fflyd o bedair llong Dreadnought â thaflegrau balistig a byddwn yn cwblhau'r dosbarth Astute o longau tanfor hela a lladd. Bydd ein dwy gludlong awyrennau newydd yn arwydd o rym milwrol Prydain am yr hanner canrif nesaf: mae HMS Queen Elizabeth yn dechrau treialon môr yn yr haf a bydd HMS Prince of Wales yn dechrau gwasanaeth gweithredol yn 2020. Ochr yn ochr â'n llongau distryw Math 45 newydd, byddwn yn adeiladu wyth ffrigad atal llongau tanfor Math 26 ac yn datblygu ein rhaglen ar gyfer dosbarth newydd o ffrigadau ysgafnach at ddibenion cyffredinol fel y gallwn gynyddu maint ein llynges ymhellach erbyn y 2030au. Byddwn hefyd yn cyflwyno pum Bad Patrôl oddi ar yr Arfordir.

O ran y Fyddin, byddwn yn cyflwyno hofrenyddion ymosod Apache, dronau newydd, systemau taflegrau a bomiau newydd, a gwell cyfarpar i'r Lluoedd Arbennig. Byddwn hefyd yn cyflwyno'r cerbydau arfog AJAX a weithgynhyrchir ym Merthyr Tudful yn y de. Bydd yr Awyrlu Brenhinol, ynghyd â Changen Awyr y Llynges, yn cael yr awyren gyrchu

Lightning II, yn ogystal ag Awyrennau Patrôl Morol newydd. Gyda'i gilydd, hon yw'r rhaglen fuddsoddi fwyaf yn ein lluoedd arfog ers cenedlaethau.

## Cefnogi ein cyn-filwyr

Byddwn yn cefnogi cyn-aelodau o'r lluoedd arfog, a fu'n barod i beryglu eu bywydau drosom, wrth iddynt symud i fywyd sifilaidd. Byddwn yn cynnal ac yn atgyfnerthu Cyfamod y Lluoedd Arfog ac yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gyflawni ei amcanion yng Nghymru. Byddwn yn helpu cyn-filwyr i ddechrau gyrfaoedd newydd drwy sicrhau bod y sgiliau a ddysgwyd a'r cymwysterau a enillwyd ganddynt yn y lluoedd arfog yn cael eu cydnabod gan gyflogwyr sifilaidd a thrwy gyflwyno saib o flwyddyn rhag talu Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyflogwr i gwmnïau sy'n recriwtio aelodau o'r Lluoedd Arfog ar ôl iddynt adael y gwasanaeth. Byddwn yn gwella'r ffordd y caiff gwasanaethau'r llywodraeth i gyn-filwyr eu cydgysylltu, gan gynnwys tai, cyflogaeth a gwasanaethau iechyd meddwl, drwy gyflwyno Bwrdd Cyn-filwyr yn Swyddfa'r Cabinet.

# CARTREF DEMOCRATIAETH A RHEOLAETH Y GYFRAITH

**Bydd yr etholiad hwn yn penderfynu ar gyfansoddiad ein senedd, sef yr hynaf ymhlith yr holl ddemocratiaethau mawr.** Mae'r cyfreithiau a luniwn yn sail i ddyfarniadau ein llysoedd, sy'n cael eu parchu ledled y byd. Y ddemocratiaeth a'r system gyfreithiol ddigyffelyb hon yw ein gwaddol cenedlaethol mwyaf. Fodd bynnag, mae ffydd yn ein sefydliadau democrataidd a'n system gyfiawnder wedi dirywio'n gyffredinol yn ystod y ddau ddegawd diwethaf. Bwriad y Blaid Geidwadol hon, wrth ymateb i'r bleidlais hanesyddol ar ein haelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd, yw adfer ffydd yn ein democratiaeth, ac yn ein sefydliadau democrataidd a chyfreithiol.

## Democratiaeth lewyrchus a sicr

Efallai fod ein sefydliadau democrataidd yn hynafol ond ni ddylent gael eu hesgeuluso. Byddwn yn parhau i foderneiddio a gwella ein proses gofrestru etholiadol, gan ei gwneud mor hygyrch â phosibl er mwyn sicrhau bod pob llais yn cyfrif. Byddwn yn deddfu dros bleidleisiau am oes i etholwyr tramor Prydeinig. Byddwn yn parhau â'r adolygiad presennol o ffiniau, gan ymgorffori'r egwyddor o seddi cyfartal, a lleihau nifer yr ASau i 600 ar yr un pryd, sy'n debyg i siambrau democrataidd eraill yn y byd Gorllewinol. Byddwn yn cadw system y cyntaf i'r felin o bleidleisio mewn etholiadau seneddol ac yn ymestyn y system hon i etholiadau comisiynwyr yr heddlu a throseddu a meiri. Byddwn yn cadw'r etholfraint bresennol i bleidleisio mewn etholiadau seneddol yn ddeunaw oed. Byddwn yn diddymu'r Ddeddf Seneddau Tymor Penodol.

Mae'r cyhoedd ym Mhrydain yn haeddu bod yn hyderus yn ein democratiaeth. Byddwn yn

deddfu er mwyn sicrhau bod yn rhaid cyflwyno manylion adnabod cyn pleidleisio, diwygio pleidleisio drwy'r post a gwella agweddau eraill ar y broses etholiadol er mwyn sicrhau mai ein hetholiadau yw'r mwyaf diogel yn y byd. Byddwn yn cadw'r dull traddodiadol o bleidleisio â phensil a phapur, ac yn mynd i'r afael â phob agwedd ar dwyll etholiadol.

Er nad yw diwygio cynhwysfawr yn flaenoriaeth byddwn yn sicrhau bod Tŷ'r Arglwyddi yn parhau i gyflawni ei rôl gyfansoddiadol fel siambr diwygio a chraffu sy'n parchu goruchafiaeth Tŷ'r Cyffredin. Rydym eisoes wedi diwygio i ganiatáu i arglwyddi ymddeol ac i ddiarddel aelodau am ymddwyn yn wael a byddwn yn parhau i sicrhau bod gwaith Tŷ'r Arglwyddi yn berthnasol ac yn effeithiol o hyd drwy fynd i'r afael â materion megis ei faint.

## Dathlu gwasanaeth cyhoeddus

Mae ein gwlad yn un wych oherwydd y miliynau o bobl sy'n gweithio bob dydd i wasanaethu'r cyhoedd. Mae gwasanaeth cyhoeddus yn alwedigaeth anrhydeddus, ac yn un a ddathlwn. Rydym am i'r bobl fwyaf ymrwymedig a galluog fod yn rhan o wasanaeth cyhoeddus, ac i'r gwasanaethau cyhoeddus sbarduno symudedd cymdeithasol – a dyna pam rydym yn chwilio am ffyrdd o sicrhau bod prosesau recriwtio'r gwasanaeth sifil mor amrywiol â phosibl, nid yn unig o safbwynt rhyw a hil ond dosbarth cymdeithasol hefyd.

Byddwn yn parhau i ariannu cynlluniau i gael graddedigion o brifysgolion mwyaf blaenllaw Prydain i wasanaethu mewn ysgolion, heddluoedd, carchardai a sefydliadau gofal cymdeithasol ac iechyd meddwl. Mae'r rhaglenni hyn bellach yn rhai o gyflogwyr graddedigion mwyaf y DU, gan dderbyn y goreuon o'n prifysgolion a defnyddio eu talentau i fynd i'r afael â phroblemau cymdeithasol sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn. Rydym am fynd ymhellach. Byddwn yn darparu cyllid sbarduno ar gyfer cynlluniau tebyg er mwyn recriwtio gweithwyr proffesiynol hŷn o sectorau eraill, gan gynnwys y rhai sy'n dychwelyd i'r gweithle ar ôl gofalu am blant a pherthnasau a'r rhai sydd ar fin ymddeol. Byddwn yn ariannu cynlluniau penodol yn uniongyrchol yn Lloegr ac yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau canlyniadau tebyg yng Nghymru er mwyn annog ein graddedigion gorau i fynd i mewn i'r sector cyhoeddus.

Rydym yn gwybod bod gwasanaethau cyhoeddus yn dibynnu ar y gweision cyhoeddus sy'n eu rhedeg, a dyna pam y byddwn yn cynnig rhyddid o dan y gyfraith i gyflogeion greu mentrau cydfuddiannol, lle y bo'n briodol, yn y sector cyhoeddus. Byddwn yn adolygu'r system anrhydeddau er mwyn sicrhau ei bod yn ennyn hyder y cyhoedd, yn gwobrwyo gwasanaeth cyhoeddus gwirioneddol a bod y rhai sy'n derbyn anrhydeddau yn cynnal eu huniondeb.

## Diwygio'r system gyfiawnder

Yn ystod y saith mlynedd diwethaf gwelwyd gostyngiad hanesyddol mewn troseddu a gwelliannau i ddiogelwch y cyhoedd. Byddwn yn adeiladu ar y record honno.

Mae system cyfiawnder troseddol gadarn yn gofyn am system gyfreithiol dda. Rydym

yn coleddu ein barnwriaeth gadarn ac annibynnol. Mae ein llysoedd a'n barnwriaeth yn cael eu parchu fel y rhai gorau yn y byd. Mae gwasanaethau cyfreithiol yn un o allforion mawr Prydain ac yn sail i'n sector gwasanaethau proffesiynol. Byddwn yn parhau i foderneiddio ein llysoedd, gan wella adeiladau a chyfleusterau llysoedd a'i gwneud yn haws i bobl ddatrys anghydfodau a chael cyfiawnder.

Byddwn hefyd yn cadw'r un awdurdodaeth gyfreithiol sydd wedi bod yn fuddiol i Gymru a Lloegr, ac a ddylai gael ei chadw er mwyn rhoi sicrwydd i fusnesau a chymunedau ledled Cymru.

Byddwn yn cymryd camau i'w gwneud yn fwy anodd i bobl ddod i mewn i'r wlad os oes ganddynt euogfarn droseddol a byddwn yn gweithredu system olrhain â lloeren ar gyfer pob troseddwr sy'n wladolyn tramor ac sy'n destun gorchymyn allgludo sydd eto i'w weithredu neu achos allgludo.

## Cefnogi dioddefwyr

Byddwn yn sicrhau bod dioddefwyr troseddau yn cael eu cefnogi ar bob cam o'r system cyfiawnder troseddol. Byddwn yn ymgorffori hawliau dioddefwyr o dan y gyfraith, gan egluro pa lefel o wasanaeth y dylent ei disgwyl gan yr heddlu, y llysoedd a'r system cyfiawnder troseddol. Byddwn yn sicrhau bod dioddefwyr sy'n blant a dioddefwyr trais rhywiol yn gallu cael eu croesholi cyn eu treial heb y gofid o ymddangos yn y llys. Bydd eiriolwyr a ariennir drwy arian cyhoeddus yn cael hyfforddiant arbenigol i ymdrin â dioddefwyr cyn derbyn achosion o droseddau rhywiol difrifol. Er mwyn sicrhau na fydd poen a dioddefaint teuluoedd Hillsborough dros yr ugain mlynedd diwethaf yn digwydd byth eto, byddwn yn cyflwyno adfocad cyhoeddus annibynnol, a fydd yn gweithredu ar ran teuluoedd profedigaethus ar ôl trychineb gyhoeddus a'u cefnogi mewn cwestau cyhoeddus. Byddwn yn ymestyn cwmpas y Cynllun Dedfrydau Rhy Drugarog fel y gellir herio amrywiaeth ehangach o ddedfrydau. A byddwn yn bwrw ymlaen â'n cynllun i fynd i'r afael â throseddau casineb a gyflawnir ar sail crefydd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth drawsryweddol.

## Atgyfnerthu'r heddlu a'r gwasanaethau diogelwch

Byddwn yn helpu heddluoedd a gwasanaethau erlyn Prydain sydd o'r radd flaenaf i ymladd yn erbyn troseddu, diogelu'r cyhoedd a rhoi diogelwch i fusnesau. Byddwn yn creu heddlu seilwaith cenedlaethol, gan ddwyn ynghyd y Gwnstabliaeth Niwclear Sifil, Heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn a'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig i wella'r ffordd y diogelir seilwaith hanfodol megis safleoedd niwclear, rheilffyrdd a'r rhwydwaith ffyrdd strategol. Byddwn yn cryfhau ymateb Prydain i droseddau coler wen drwy uno'r Swyddfa Twyll Difrifol â'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, gan wella prosesau rhannu cudd-wybodaeth a rhoi hwb i ymchwiliadau i dwyll difrifol, gwyngalchu arian a throseddau ariannol. Byddwn yn ymestyn mynediad uniongyrchol i'r heddlu, gan gynnwys ar lefel prif swyddogion. Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein gwasanaethau diogelwch o'r radd flaenaf ac yn cynnal ac yn datblygu ein strategaeth wrthderfysgaeth i'n diogelu rhag

terfysgaeth yma a thramor. A byddwn yn cryfhau'r ymateb i fygythiadau seibr i fusnesau preifat, gwasanaethau cyhoeddus, seilwaith cenedlaethol hanfodol, ac unigolion gan weithio gyda'r Ganolfan Seibrddiogelwch Genedlaethol i atal ymosodiadau lle bynnag y bo modd, a chyda'r heddlu ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn rhyngwladol er mwyn sicrhau y caiff y rhai sy'n cyflawni troseddau eu dwyn gerbron llys.

Byddwn yn ehangu rôl comisiynwyr yr heddlu a throseddu er mwyn eu helpu i leihau troseddau yn eu cymunedau lleol. Byddwn yn sicrhau bod comisiynwyr yn cydgysylltu gweithgarwch atal troseddau â gwasanaethau cyffuriau ac alcohol ac iechyd meddwl lleol yn well. Yng Nghymru byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Byrddau Iechyd lleol i gydgysylltu dull gweithredu a fydd yn sicrhau canlyniadau tebyg. Byddwn yn adeiladu ar y Ddeddf Plismona a Throsedd, a gyflwynodd drefniadau i gydgysylltu'r heddlu a gwasanaethau tân ac achub yn well, gan ddatganoli mwy o gyfrifoldebau am gyfiawnder troseddol a chyllidebau i gomisiynwyr lleol.

## Cosb a diwygio

Dylai carchardai fod yn lleoedd diwygio ac adsefydlu, ond dylem bob amser gofio mai cosb yw carchar, i bobl sydd wedi cyflawni troseddau difrifol.

Mae aildroseddu yn costio £15 biliwn y flwyddyn i gymdeithas sy'n dangos bod llawer mwy i ni ei wneud er mwyn sicrhau bod y system gosbi yn gweithio'n well. Mae'n rhaid i garchardai ddod yn lleoedd diogelwch, disgyblaeth a gwaith caled, lle y caiff pobl eu helpu i weddnewid eu bywydau. Dylent helpu carcharorion i ddysgu Saesneg, mathemateg a'r sgiliau gwaith sydd eu hangen arnynt i gael swydd pan fyddant yn gadael y carchar, a hefyd roi'r cymorth sydd ei angen ar garcharorion i gefnu ar gyffuriau a delio â phroblemau iechyd meddwl.

Rydym wedi cyflawni ein hymrwymiad i adeiladu carchar modern gwerth miliynau o bunnau yn Wrecsam sydd eisoes wedi rhoi hwb gwerth £100 miliwn i'r economi leol. Ledled y DU, byddwn yn buddsoddi dros £1 biliwn i foderneiddio'r ystad garchardai, gan adeiladu carchardai newydd yn lle'r rhai yn y cyflwr gwaethaf a chreu 10,000 o leoedd carchar modern. Yng Nghymru, rydym yn bwriadu adeiladu carchar newydd ger Port Talbot a fydd hefyd yn rhoi hwb economaidd mawr i'r ardal gyfagos. Byddwn yn diwygio gofynion mynediad, hyfforddiant, rheoli a llwybrau gyrfa swyddogion carchardai. Byddwn yn creu fframwaith cyfreithiol newydd i garchardai, gan gryfhau'r arolygiaeth a'r ombwdsmon er mwyn cynnig prosesau craffu allanol mwy trylwyr.

Nid yw cosbau yn y gymuned yn gwneud digon i atal troseddau a thorri'r cylch o droseddu mynych. Felly byddwn yn creu fframwaith dedfrydu cymunedol cenedlaethol sy'n cosbi troseddwyr ac sy'n canolbwyntio ar y mesurau sy'n cynnig cyfle gwell o newid agweddau pobl ac atal troseddau, megis cyrffyw a gorchmynion sy'n mynd i'r afael â cham-drin cyffuriau ac alcohol. Byddwn yn cyflwyno darpariaeth benodol i droseddwyr sy'n fenywod.

# 3. MERITOCRATIAETH FAWR Y BYD

## Bydd Theresa May a'r Ceidwadwyr Cymreig yn darparu'r canlynol

- Diwygiadau i'r system addysg yng Nghymru er mwyn gwella safonau yn ein hysgolion.
- Gwella statws addysg alwedigaethol yng Nghymru drwy sicrhau bod mwy o gynlluniau prentisiaeth o ansawdd uchel.
- Llywodraeth nad yw'n ofni ymdrin ag anghyfiawnderau tanbaid y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, anghyfartalwch hiliol, stigma iechyd meddwl a gwahaniaethu ar sail anabledd.
- Diogelu dioddefwyr cam-drin domestig yn y gyfraith drwy Fil Trais a Cham-drin Domestig nodedig newydd.
- Marchnadoedd tecach i ddefnyddwyr a gweithredu ar gostau byw, gan gynnwys cap ar dariffau er mwyn diogelu cwsmeriaid ynni rhag cynnydd annerbyniol.
- Mewnfudo cynaliadwy, a reolir, gan leihau mewnfudo net i'r degau o filoedd.

**Rydym wedi gwneud cryn dipyn dros y blynyddoedd diwethaf i ddileu rhaniadau hirsefydledig yn ein gwlad.** Ond mae rhai anghyfiawnderau cymdeithasol yn parhau. Os ydych yn un o ysgolion y wladwriaeth rydych yn llai tebygol o gyrraedd y proffesiynau sydd ar y brig na rhywun sy'n cael addysg breifat. Os ydych yn fachgen dosbarth gweithiol gwyn, rydych yn llai tebygol o fynd i brifysgol nag unrhyw un arall ym Mhrydain. Os ydych yn ddu, cewch eich trin yn llymach gan y system cyfiawnder troseddol na rhywun gwyn. Os cewch eich geni'n dlawd, byddwch yn marw naw mlynedd yn gynt nag eraill ar gyfartaledd. Os ydych yn ferch, byddwch yn ennill llai na dyn. Os ydych yn dioddef o broblemau iechyd meddwl, nid oes digon o help wrth law. Mae'r rhain yn anghyfiawnderau tanbaid sy'n niweidio undod ein gwlad, a byddwn yn mynd i'r afael â nhw.

Y gwir amdani yw, os ydym am sicrhau mai Prydain yw Meritocratiaeth Fawr y byd, mae hefyd angen i ni wneud llawer mwy i gefnogi miliynau o bobl sy'n byw mewn teuluoedd cyffredin sy'n gweithio. Oherwydd mae bywyd yn aml yn llawer anos i'r teuluoedd hyn nag yr ymddengys fod llawer mewn awdurdod yn ei sylweddoli. Efallai fod ganddynt swydd, ond nid oes ganddynt sicrwydd swydd bob amser; efallai eu bod yn berchen ar eu cartrefi, ond maent yn poeni am dalu'r morgais ac yn meddwl tybed a fydd eu plant yn gallu fforddio prynu tŷ eu hunain; maent yn llwyddo fwy neu lai i gael dau ben llinyn ynghyd, ond maent yn poeni am gostau byw a chael eu plant i mewn i ysgol dda. Maent yn haeddu llywodraeth sydd ar eu hochr nhw.

# GWLAD SEILIEDIG AR RINWEDDAU

**Yr anghyfiawnder mwyaf ym Mhrydain heddiw yw'r ffaith nad eich ymdrechion a'ch talent sy'n pennu cyfeiriad eich bywyd ond o ble y dewch, pwy yw'ch rhieni a pha ysgolion yr ewch iddynt, i raddau helaeth.** Yng Nghymru, lle mai Llywodraeth Lafur sy'n gyfrifol am y polisi addysg, mae hyn yn hynod wir fel y gwelir gan dablau cynghrair PISA. Nid yw hyn yn iawn. Rydym am sicrhau mai Prydain yw Meritocratiaeth Fawr y byd: gwlad lle caiff pawb gyfle teg i fynd mor bell ag y gallant ar sail eu talent a'u gwaith caled, lle mae mantais yn seiliedig ar rinweddau nid braint. Er mwyn llwyddo, rhaid i ni ymdrechu'n galetach i sicrhau y gall pawb, ni waeth pwy ydynt nac o ble maent yn dod, gael addysg o'r radd flaenaf.

Mae Cymru yn haeddu system addysg o'r radd flaenaf a bydd y Ceidwadwyr Cymreig yn gweithio gyda chydweithwyr yn y Cynulliad Cenedlaethol er mwyn gwella safonau ac ehangu dewis fel y gall ein plant a'n pobl ifanc gystadlu â'r gorau yn y byd.

Bydd y Ceidwadwyr Cymreig yn y Cynulliad Cenedlaethol yn hyrwyddo diwygiadau i'n system addysg er mwyn gwella safle Cymru mewn tablau cynghrair byd-eang. Dylai pob plentyn yng Nghymru allu cyflawni ei botensial llawn ni waeth ble mae'n byw na beth yw ei gefndir. Rydym am weld gwlad lle caiff llwyddiant ei ddiffinio gan waith a thalent, nid genedigaeth neu amgylchiadau.

Mae ehangu dewis rhieni a disgyblion yn allweddol i wella safonau yn ein hysgolion ond, bob blwyddyn, o dan y Blaid Lafur yng Nghymru, ni chaiff miloedd o blant fynychu'r ysgolion o'u dewis nhw a'u rhieni am fod ysgolion da a llwyddiannus yn llawn. Byddai'r Ceidwadwyr Cymreig yn rhyddhau ysgolion o reolaeth awdurdodau lleol ac yn ariannu ysgolion yn uniongyrchol, gan leihau biwrocratiaeth a sicrhau bod mwy o arian yn cyrraedd y rheng flaen. Byddai ein cynlluniau yn galluogi ysgolion poblogaidd i dyfu ac yn grymuso rhieni, athrawon a llywodraethwyr i wneud y penderfyniadau sydd orau i'w hysgolion.

Bydd y Ceidwadwyr Cymreig yn sicrhau bod pob plentyn yn cael cwricwlwm academaidd llawn gwybodaeth. Byddem yn cyflwyno dysgu ieithoedd tramor modern mewn ysgolion cynradd fel rhan o strategaeth genedlaethol ar gyfer ieithoedd modern, a thrwy hynny feithrin gwlad deirieithog. Byddem hefyd yn cynnwys sgiliau rhaglennu a chodio yng Nghwricwlwm newydd Cymru er mwyn paratoi dysgwyr ar gyfer swyddi'r dyfodol.

Byddwn hefyd yn cefnogi prifysgolion gorau Cymru. Drwy wneud addysg uwch yn fwy hygyrch i bawb, a chefnogi addysg bellach, byddwn yn dileu'r rhwystrau i ddysgu, gan alluogi pobl i feithrin y sgiliau ac ennill y cymwysterau sydd eu hangen arnynt i lwyddo. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a sefydliadau addysg uwch i sicrhau cyllid i'n prifysgolion ac achub ar gyfleoedd ymchwil, cydweithredu, a chyfnewid myfyrwyr a staff ar ôl Brexit. Byddwn yn ystyried ymarferoldeb graddau cywasgedig a gaiff eu hastudio dros ddwy flynedd academaidd a byddwn yn annog twf opsiynau cyrsiau rhan-amser, o bell a hyblyg.

Byddai'r Ceidwadwyr Cymreig yn gwella statws addysg alwedigaethol yng Nghymru drwy sicrhau bod mwy o gynlluniau prentisiaeth o ansawdd uchel. Byddem yn cyflwyno miloedd o brentisiaethau hyblyg, gyda mynediad at gymysgedd o fusnesau bach a mawr, gan gynyddu'r niferoedd sy'n eu dewis a hyrwyddo cydbwysedd rhwng y rhywiau. Byddwn yn annog Llywodraeth Cymru a phartïon eraill â diddordeb i weithredu dull cyffredin o gydnabod cymwysterau addysg dechnegol ledled y DU. Bydd hyn yn ei gwneud yn syml i fusnesau, yn enwedig y rhai â chyflogeion y naill ochr i Glawdd Offa. Byddwn hefyd yn parhau i gefnogi'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, ac yn buddsoddi er mwyn ehangu mynediad i addysg Gymraeg yn ein colegau a'n prifysgolion.

## Dysgu gyrfaol

Er mwyn ei gwneud yn syml i fusnesau, yn enwedig y rhai â chyflogeion y naill ochr i Glawdd Offa, byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod polisïau Llywodraeth y DU ar sgiliau a dysgu gyrfaol yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

Yn fwyaf nodedig, byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar addewidion y Ceidwadwyr i helpu pob gweithiwr i feithrin ei sgiliau yn ei swydd bresennol drwy gyflwyno hawl newydd i ofyn am gyfnod absenoldeb i gael hyfforddiant. Ynghyd â hyn, byddwn yn helpu gweithwyr i aros mewn swyddi diogel wrth i'r economi newid drwy gyflwyno cynllun ailhyfforddi cenedlaethol. O dan y cynllun, y llywodraeth fydd yn talu am gostau hyfforddi, gyda chwmnïau yn gallu cael gafael ar y Lefi Prentisiaeth i ategu costau cyflogau yn ystod yr hyfforddiant. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i geisio canlyniadau tebyg yng Nghymru.

Byddwn hefyd yn galw ar i Lywodraeth Cymru anelu at gyflawni'r un nod o feithrin y sgiliau digidol sydd eu hangen ar bobl nawr, ac yn y dyfodol, drwy gyflwyno hawl i ddysgu gydol oes mewn sgiliau digidol, fel rydym wedi'i wneud gyda llythrennedd a rhifedd.

## Mwy o bobl mewn gwaith

Mae lefelau cyflogaeth ar eu huchaf erioed a byddwn yn parhau i anelu at gyflogaeth lawn. Byddwn yn parhau i redeg y system les yn unol â'n cred mai gwaith yw'r llwybr gorau allan o dlodi, y dylai gwaith bob amser dalu ffordd, ac y dylai'r system fod yn deg i bobl sydd angen cymorth a'r rhai sy'n talu amdano. Nid ydym yn bwriadu cyflwyno rhagor o ddiwygiadau lles radical yn y senedd hon a byddwn yn parhau i gyflwyno Credyd Cynhwysol, er mwyn sicrhau ei bod bob amser yn talu i weithio.

Byddwn hefyd yn gweithio i helpu'r grwpiau hynny sydd, yn y gorffennol, wedi ei chael yn anodd cael gwaith, drwy gymell cyflogwyr i'w cyflogi. Felly yn achos busnesau sy'n cyflogi wardiaid blaenorol y system ofal, rhywun ag anabledd, y rhai â phroblemau iechyd meddwl cronig, y rhai sydd wedi cyflawni trosedd ond sydd wedi ad-dalu'r ddyled i gymdeithas, a'r rhai sydd wedi bod allan o waith am fwy na blwyddyn, byddwn yn cynnig cyfnod o flwyddyn lle na fydd yn rhaid i'w cyflogwyr dalu Cyfraniadau Yswiriant Gwladol. Byddwn hefyd yn darparu cymorth wedi'i dargedu i bobl ifanc rhwng 18 a 24 oed fel bod pawb, waeth beth yw eu dechrau mewn bywyd, yn cael y cyfle gorau posibl i gael gwaith.

# GWLAD SY'N DOD AT EI GILYDD

## Rheoli mewnfudo

Mae Prydain yn economi agored ac yn gymdeithas groesawgar a byddwn bob amser yn sicrhau y gall busnesau Prydeinig recriwtio'r goreuon o bob cwr o'r byd ac y gall prifysgolion gorau Prydain ddenu myfyrwyr rhyngwladol. Rydym hefyd o'r farn y dylai mewnfudo gael ei reoli a'i leihau, oherwydd pan fo mewnfudo yn rhy gyflym ac yn rhy uchel, mae'n anodd creu cymdeithas gydlynus.

Diolch i lywodraeth Geidwadol, caiff y system ei rheoli'n well erbyn hyn. Mae'r math o

fewnfudo sydd gennym – mwy o weithwyr medrus a myfyrwyr prifysgol, llai o gam-drin a llai o fewnfudwyr heb sgiliau – yn well o ran buddiannau'r wlad. Ond gyda mewnfudo net blynyddol o 273,000, mae mewnfudo i Brydain yn dal i fod yn rhy uchel. Ein nod yw lleihau mewnfudo i lefelau cynaliadwy, hynny yw mewnfudo net blynyddol o ddegau o filoedd, yn hytrach na'r cannoedd o filoedd a welwyd dros y ddau ddegawd diwethaf.

Felly, byddwn yn parhau i leihau mewnfudo o'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd. Byddwn yn cynyddu'r trothwyon enillion ar gyfer pobl sydd am noddi mewnfudwyr ar gyfer fisâu teuluol. Byddwn yn gwneud gofynion fisa myfyrwyr yn llymach, er mwyn sicrhau ein bod yn cynnal safonau uchel. Byddwn yn disgwyl i fyfyrwyr adael y wlad ar ddiwedd eu cwrs, oni bai eu bod yn bodloni gofynion uwch, newydd sy'n caniatáu iddynt weithio ym Mhrydain ar ôl cwblhau eu hastudiaethau. Bydd myfyrwyr o dramor yn parhau i fod yn rhan o'r ystadegau mewnfudo – yn unol â diffiniadau rhyngwladol – ac o fewn cwmpas polisi'r llywodraeth i leihau mewnfudo net blynyddol.

Drwy adael yr Undeb Ewropeaidd byddwn hefyd, am y tro cyntaf mewn degawdau, yn gallu rheoli mewnfudo o'r Undeb Ewropeaidd. Felly byddwn yn sefydlu polisi mewnfudo sy'n ein galluogi i leihau a rheoli nifer y bobl sy'n dod i Brydain o'r Undeb Ewropeaidd, tra'n parhau i'n galluogi i ddenu'r gweithwyr medrus sydd eu hangen ar ein heconomi.

## Integreiddio cymunedau rhanedig

Mae Prydain yn un o'r cymdeithasau amlhiliol, amlddiwylliannol, amlgrefyddol mwyaf llwyddiannus yn y byd. Rydym yn falch o'n hamrywiaeth, a'r cyfoeth diwylliannol ac economaidd sy'n deillio ohoni.

Ni ddylai ein mwynhad a'n balchder yn ein hamrywiaeth olygu ein bod yn anwybyddu'r ffaith bod gennym, mewn gormod o rannau o'n gwlad, gymunedau sydd wedi'u rhannu, ar sail hiliol neu grefyddol yn aml. I fynd i'r afael â hyn, byddwn yn cyflwyno strategaeth integreiddio newydd, a fydd yn ceisio helpu pobl mewn cymunedau mwy ynysig i ymgysylltu â'r byd ehangach, helpu merched yn arbennig i gael gwaith, ac addysgu mwy o bobl i siarad Saesneg. Byddwn yn gweithio gydag ysgolion i sicrhau bod y rhai sy'n derbyn myfyrwyr o gefndir hiliol, diwylliannol neu grefyddol penodol yn eu haddysgu am werthoedd amlblwyfol, Prydeinig ac yn eu helpu i ddod i adnabod pobl â ffyrdd o fyw gwahanol.

## Trechu eithafiaeth

Ni ddylai ein mwynhad o amrywiaeth Brydeinig ein hatal rhag mynd i'r afael â bygythiad eithafiaeth. Mae eithafiaeth, yn enwedig eithafiaeth Islamaidd, yn golygu nad yw rhai pobl ym Mhrydain, yn enwedig merched, yn cael mwynhau'r rhyddid y dylent ei fwynhau, mae'n tanseilio cydlyniant ein cymdeithas a gall esgor ar drais. I drechu eithafiaeth, mae angen i ni ddysgu sut y gwnaeth cymdeithas sifil a'r wladwriaeth ymdrin â hiliaeth yn yr ugeinfed ganrif. Byddwn yn ystyried pa droseddau newydd y gallai fod angen eu creu, a pha droseddau gwaethygedig newydd y gallai fod angen eu sefydlu, er mwyn

trechu'r eithafwyr. Byddwn yn cefnogi'r sector cyhoeddus a chymdeithas sifil i adnabod eithafwyr, atal eu negeseuon a hyrwyddo gwerthoedd amlblwyfol Prydeinig. A byddwn yn sefydlu Comisiwn Gwrth-eithafiaeth er mwyn nodi enghreifftiau o eithafiaeth a'u datgelu, cefnogi'r sector cyhoeddus a chymdeithas sifil, a helpu'r llywodraeth i nodi polisïau i drechu eithafiaeth a hyrwyddo gwerthoedd amlblwyfol.

# YMDRIN AG ANGHYFIAWNDERAU TANBAID

**Er mwyn sicrhau mai Prydain yw Meritocratiaeth Fawr y byd, lle mai eich dawn a'ch gwaith caled, nid pwy ydych nac o ble y dewch, sy'n pennu eich cyfleoedd mewn bywyd, rhaid i ni edrych y tu hwnt i raniadau mewn cyfleoedd addysgol.** Rhaid i ni ymdrin â'r anghyfiawnderau tanbaid a nodwyd gan Theresa May ar garreg drws Stryd Downing y llynedd: anghyfiawnderau hirsefydledig, ymgorfforedig sy'n effeithio ar bobl o wahanol ethnigrwydd, rhywedd a'r rhai ag anableddau a salwch meddwl.

## Y bwlch cyflog rhwng y rhywiau

Byddwn yn cymryd camau i gau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau â mwy na 250 o gyflogeion gyhoeddi mwy o ddata ar y bwlch cyflog rhwng dynion a merched. Byddwn yn parhau i weithio i sicrhau bod nifer gyfartal o ferched yn cael eu penodi i rolau cyhoeddus, a byddwn yn pwyso am gynnydd yn nifer y merched sy'n eistedd ar fyrddau cwmnïau.

Byddwn yn cymryd camau i wella'r defnydd o absenoldeb rhiant a rennir ac yn helpu cwmnïau i ddarparu amgylcheddau gwaith mwy hyblyg sy'n helpu mamau a thadau i rannu cyfrifoldebau rhianta. Rydym am helpu'r bobl hynny sydd wedi bod yn gofalu am blentyn neu blant am nifer o flynyddoedd neu'n cynorthwyo perthynas hŷn. I'r bobl hyn, gall fod yn anodd dychwelyd i'r gwaith: mae'r sefyllfa wedi newid ac mae pobl yn poeni nad yw eu sgiliau'n gyfredol mwyach. Byddwn yn mynd i'r afael â hyn, gan feithrin hyder rhieni a gofalwyr i ddychwelyd i'r gwaith pan y dymunant a sut y dymunant. Felly byddwn yn helpu cwmnïau i gyflogi rhieni a gofalwyr sy'n dychwelyd i'r gwaith ar ôl cyfnodau hir o absenoldeb ac yn cefnogi cynlluniau tebyg yn y sector cyhoeddus, gan gynnwys cyflogwr mwyaf y wlad, ein GIG. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i weithredu'r polisi hwn o fewn gwasanaethau cyhoeddus datganoledig.

## Y bwlch rhwng hiliau

Gweithred gyntaf Theresa May fel prif weinidog oedd gorchymyn archwiliad o anghyfartalwch hiliol o fewn y gwasanaethau cyhoeddus, y cyntaf o'i fath, er mwyn datgelu canlyniadau pobl o wahanol ethnigrwydd. Bydd yr adroddiad o'r archwiliad hwnnw yn cael ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf a bydd llywodraeth Geidwadol yn barod i

weithredu ar ei ganfyddiadau, waeth pa mor anghysurus ydynt.

Ynghyd â'r cyrch hwnnw ar anghyfiawnder, byddwn yn mynd i'r afael â'r materion hynny y gwyddom amdanynt eisoes. Byddwn yn atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer gorfodi cyfraith cydraddoldebau – fel y cynhelir ymchwiliadau priodol i landlordiaid preifat a busnesau sy'n gwrthod darparu gwasanaeth i bobl ar sail ethnigrwydd, crefydd neu rywedd, a'u herlyn. Byddwn yn deddfu i fandadu newidiadau yn arferion yr heddlu os na thargedir 'stopio a chwilio' yn well ac nad yw cymarebau 'stopio i arestio' yn gwella. Byddwn yn lleihau'r defnydd anghymesur o rym yn erbyn pobl Dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn y carchar, sefydliadau troseddwyr ifanc ac unedau iechyd meddwl diogel a byddwn yn deddfu yma hefyd os na wneir cynnydd. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar ymgyrch genedlaethol i gynyddu nifer y rhoddwyr organau o grwpiau pobl Dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig er mwyn lleihau'r amseroedd aros hir i gleifion o'r grwpiau hynny ac achub mwy o fywydau. Byddwn hefyd yn gofyn i gyflogwyr mawr gyhoeddi gwybodaeth am y bwlch cyflog i bobl o wahanol gefndiroedd ethnig.

## Y bwlch iechyd meddwl

Byddwn yn sicrhau bod pobl â phroblemau iechyd meddwl yn cael y parch a'r gofal maent yn ei haeddu. Yng Nghymru, byddwn yn hyrwyddo cynnydd mewn gwariant o grant bloc Cymru mewn termau real ar wasanaethau iechyd meddwl, bob blwyddyn, ac yn sefydlu targed 28 diwrnod newydd i blant ac oedolion gael gafael ar therapïau siarad. Byddwn hefyd yn ceisio gwella capasiti gwasanaethau iechyd meddwl yn ein hysbytai, ac i'n plant a'n pobl ifanc, ac yn gwella mynediad i gymorth iechyd meddwl i ferched, cyn, yn ystod ac ar ôl beichiogrwydd.

Byddwn yn mynd i'r afael â'r angen am driniaethau gwell ar gyfer pob cyflwr iechyd meddwl. Byddwn yn sicrhau mai'r DU yw'r brif economi ymchwil a thechnoleg yn y byd ar gyfer iechyd meddwl, gan ddwyn ynghyd fuddsoddiad cyhoeddus, preifat ac elusennol.

Fodd bynnag, ni fydd gwella gwasanaethau trin yn ddigon. Byddwn hefyd yn diwygio hen gyfreithiau er mwyn sicrhau bod y rhai â salwch meddwl yn cael eu trin yn deg a bod cyflogwyr yn cyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol.

Nid yw'r Ddeddf Iechyd Meddwl bresennol yn gweithio fel y dylai: os cewch orchymyn triniaeth yn y gymuned mae'n anodd iawn cael eich rhyddhau; anfonir rhywun i ysbyty'r meddwl yn rhy aml i'w cadw dan orchymyn yn hytrach na'u trin; ni chaiff teuluoedd ddigon o wybodaeth am eu hanwyliaid – weithiau rhieni yw'r olaf i gael gwybod bod eu plentyn wedi'i anfon i ysbyty'r meddwl. Felly byddwn yn cyflwyno'r Bil Iechyd Meddwl newydd cyntaf ers 30 mlynedd, gan roi parch cyfartal wrth wraidd triniaeth.

Byddwn yn trawsnewid y ffordd y caiff iechyd meddwl ei ystyried yn y gweithle. Byddwn yn diwygio rheoliadau iechyd a diogelwch fel bod cyflogwyr yn darparu hyfforddiant

cymorth cyntaf ac yn cynnal asesiad o anghenion mewn modd priodol ar gyfer iechyd meddwl, fel y maent yn gwneud ar hyn o bryd yn achos risgiau i iechyd corfforol, ac yn ehangu mesurau diogelu'r Ddeddf Cydraddoldebau yn erbyn gwahaniaethu ar sail cyflyrau iechyd meddwl sy'n gyfnodol ac yn amrywio. Byddwn yn ystyried canfyddiadau Adolygiad Stevenson-Farmer ym maes cymorth iechyd meddwl yn y gweithle, gan weithio gyda chyflogwyr i annog cynhyrchion a chymhellion newydd i wella'r cymorth iechyd meddwl a lles sydd ar gael i'w cyflogeion. Ac, fel y gwnaethom gyda Chyfeillion Dementia, byddwn yn hyfforddi miliwn o aelodau o'r cyhoedd mewn ymwybyddiaeth iechyd meddwl a chymorth cyntaf sylfaenol i dorri stigma salwch meddwl.

## Y bwlch anabledd

Byddwn yn adeiladu ar hanes balch y Ceidwadwyr o gefnogi'r rhai ag anableddau, gan gynnwys Deddf nodedig Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995. Rydym am weld agweddau at anabledd yn newid fel maent wedi gwneud ar gyfer hil, rhywedd a rhywioldeb dros y blynyddoedd diwethaf: dylai fod yn gwbl annerbyniol i bobl ag anableddau gael eu trin yn negyddol.

Byddwn yn sicrhau bod miliwn yn fwy o bobl ag anableddau yn cael gwaith dros y 10 mlynedd nesaf. Byddwn yn achub ar gyfleoedd gweithio hyblyg a'r economi ddigidol i greu swyddi i'r rhai ag anableddau sy'n ei chael yn anodd cael gwaith yn yr ystyr draddodiadol. Byddwn yn rhoi'r cyngor a'r cymorth angenrheidiol i gyflogwyr er mwyn iddynt gyflogi a chadw pobl anabl a'r rhai â chyflyrau iechyd. Byddwn yn parhau i sicrhau system les gynaliadwy, gyda help yn targedu'r rhai sydd ei angen fwyaf. Byddwn yn deddfu i sicrhau bod hawlwyr anabl di-waith neu'r rhai â chyflwr iechyd yn cael cymorth cyflogaeth personol sydd wedi'i deilwra.

Credwn na ddylai eich anabledd bennu lle rydych yn byw, yn siopa, yn mynd allan, yn teithio nac yn parcio eich car. Felly byddwn yn adolygu mynediad pobl anabl ac yn diwygio rheoliadau os oes angen i wella mynediad pobl anabl i safleoedd trwyddedig, meysydd parcio a thai. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i weithredu'r polisi hwn lle ceir cyfrifoldeb datganoledig. Byddwn yn gweithio gyda darparwyr gwasanaethau hanfodol beunyddiol, fel ynni a thelathrebu, i leihau'r costau ychwanegol a all ddeillio o anabledd.

## Atal trais domestig

Mae'r llywodraeth Geidwadol eisoes wedi gweithredu i helpu dioddefwyr trais domestig gael lloches. Gallwn a dylem fynd ymhellach. Mae angen i'r heddlu ymchwilio i honiadau'n drylwyr a thrin dioddefwyr â'r gofal maent yn ei haeddu. Mae angen i'r system gyfiawnder gael mwy o ganllawiau ac eglurder ynghylch effaith trais a cham-drin domestig ar deuluoedd. Ac mae angen i ni ddeall ac ymateb i effaith barhaol a dinistriol trais a cham-drin domestig ar blant, sy'n profi'r effeithiau fel oedolion.

Bydd llywodraeth Geidwadol yn cyflwyno Bil Trais a Cham-drin Domestig yn y senedd nesaf er mwyn cyfuno'r holl orchmynion atal a diogelu sifil a throseddol a darparu ar gyfer trosedd waethygedig newydd os yw plentyn yn profi'r fath ymddygiad. Ar hyn o bryd ni cheir unrhyw ddiffiniad statudol o drais a cham-drin domestig. Felly byddwn hefyd yn deddfu i gorffori diffiniad o drais a cham-drin domestig yn y gyfraith, gan ddarparu'r sail gyfreithiol i bopeth yn ein deddf newydd. Bydd hyn yn ein galluogi i weithio gyda grwpiau cymorth i ddioddefwyr, arbenigwyr ac asiantaethau, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, i bennu a yw'r diffiniad statudol presennol yn ddigon eang, helpu goroeswyr i ddeall yn haws a oes sail iddynt gwyno, a rhoi sail fwy dibynadwy i heddluoedd ymchwilio ac i Wasanaeth Erlyn y Goron erlyn.

Byddwn yn creu comisiynydd trais a cham-drin domestig yn y gyfraith, i sefyll i fyny dros ddioddefwyr a goroeswyr, monitro'r ymateb i drais a cham-drin domestig a dwyn yr heddlu a'r system cyfiawnder troseddol i gyfrif. A byddwn yn cymryd camau i helpu dioddefwyr trais domestig i adael partneriaid sy'n eu cam-drin, adolygu cyllid llochesi a sicrhau bod dioddefwyr sydd â thenantiaethau gydol oes ac sy'n dianc rhag trais yn gallu cael tenantiaeth gydol oes newydd yn awtomatig.

## Lleihau digartrefedd

Yn olaf, byddwn yn parhau i fynd i'r afael â digartrefedd a chysgu ar y stryd gan gynnwys drwy weithredu'r Ddeddf Lleihau Digartrefedd yn llawn. Ein nod fydd haneru achosion o bobl yn cysgu ar y stryd yn ystod y senedd a'u dileu'n gyfan gwbl erbyn 2027. I gyflawni hyn byddwn yn sefydlu tasglu lleihau digartrefedd newydd a fydd yn canolbwyntio ar gamau ataliol a thai fforddiadwy, a byddwn yn treialu dull Tai yn Gyntaf o ymdrin â chysgu ar y stryd.

# TORRI COSTAU BYW

**Mae dileu rhaniadau cymdeithasol hirsefydledig yn ein cymdeithas yn golygu ymdrin â phwysau economaidd beunyddiol sy'n rhwystro teuluoedd cyffredin sy'n gweithio.** Gall y llywodraeth helpu gyda chostau byw drwy gadw trethi mor isel â phosibl. Fel y nodwyd ym mhennod un rydym am leihau trethi ar fusnesau a theuluoedd sy'n gweithio ym Mhrydain. Ond gall y llywodraeth helpu hefyd drwy wneud i farchnadoedd defnyddwyr weithio'n decach, a thrwy wneud hynny leihau cost hanfodion y mae'n rhaid i deuluoedd eu prynu. Mae'r costau hyn yn cyfrif am gyfran lawer mwy o gyllidebau cartrefi dosbarth gweithiol na rhai cartrefi gwell eu byd.

## Marchnadoedd teg i ddefnyddwyr

Rhaid i'r gwaith o ymdrin â chostau byw olygu gwneud i farchnadoedd defnyddwyr weithio'n decach. Dylai marchnadoedd weithio i ddefnyddwyr, yn ogystal â chynhyrchwyr

– gyda chystadleuaeth yn cadw prisiau'n isel ac yn annog ymdrechion i ddatblygu cynnyrch newydd. Mae gwybodaeth wael, prisio cymhleth ac ymddygiad camfanteisiol yn atal marchnadoedd rhag gweithredu'n effeithlon er budd pawb.

Fel Ceidwadwyr, credwn mai marchnadoedd yw'r ffordd orau o sicrhau ffyniant ac arloesedd, ond dylem weithredu'n gadarn ac yn gyflym pan fydd marchnad yn gweithio yn erbyn buddiannau defnyddwyr. Nawr awn ymhellach i ddiwygio marchnadoedd er budd defnyddwyr a lleihau costau byw.

Bydd llywodraeth Geidwadol yn atgyfnerthu grym rheoleiddwyr. Byddwn yn atgyfnerthu pwerau cyrff gorfodi defnyddwyr i ddirwyo cwmnïau sy'n torri cyfraith defnyddwyr ac yn sicrhau y digolledir y sawl sydd wedi cael cam. Byddwn yn ystyried sut i roi llais i ddefnyddwyr wrth reoleiddio busnesau. Byddwn yn rhoi buddiannau defnyddwyr agored i niwed yn gyntaf, gan gynnwys ystyried dyletswydd ar reoleiddwyr i bwyso a mesur eu hanghenion. Byddwn yn ystyried sut y gall safleoedd newid wasanaethu cystadleuaeth yn well, gan gynnwys drwy roi gwybodaeth i siopwyr am ansawdd gwasanaeth a chwynion. Byddwn yn atgyfnerthu grym defnyddwyr ar-lein. Byddwn yn gweithredu i wneud telerau ac amodau'n gliriach, a rhoi diwedd ar y defnydd annheg o wasanaethau tanysgrifio, gan gynnwys ei gwneud yn gliriach pan ddaw cynnig am ddim i ben.

Byddwn hefyd yn gweithredu mewn marchnadoedd penodol. Byddwn yn gwneud biliau cwsmeriaid telathrebu yn decach ac yn haws i'w deall, gan gynnwys ei gwneud yn glir pan fydd cwsmer ffôn symudol wedi talu am ei ffôn yn llawn. Byddwn yn ystyried gwahardd cwmnïau rhag ffonio pobl yn ddigymell i'w hannog i wneud hawliadau anafiadau personol anwir. Byddwn yn galw ar i Lywodraeth Cymru gefnogi rhentwyr yng Nghymru sy'n ei chael yn anodd drwy wahardd ffioedd asiantaethau gosod, gan olygu bod Cymru yn dilyn polisi Lloegr. Byddwn yn cymryd camau i ymdrin â gweithredwyr meysydd parcio preifat twyllodrus. Byddwn yn lleihau costau yswiriant modurwyr cyffredin drwy leihau hawliadau gormodol a thwyllodrus anafiadau atchwipio. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru wrth i ni ddatganoli'r cyfrifoldeb am fasnachfraint Cymru a'r Gororau i adolygu tocynnau rheilffordd, dileu cymhlethdod a phrisio gwrthnysig, a chyflwyno ombwdsmon teithwyr i sefyll i fyny dros fuddiannau defnyddwyr rheilffordd sy'n cael gwasanaeth eilradd. Byddwn yn gweithio gyda chwmnïau trenau a'u cyflogeion i gytuno ar lefelau gwasanaeth gofynnol yn ystod cyfnodau o anghydfod diwydiannol – ac os na allwn ddod i gytundeb gwirfoddol, byddwn yn deddfu i wneud hyn yn orfodol.

## Marchnadoedd ynni teg

Byddwn yn troi ein sylw at y farchnad ynni manwerthu ar unwaith. Mae cwsmeriaid yn ymddiried mewn brandiau sefydledig ac yn credu'n anghywir fod eu teyrngarwch yn cael ei wobrwyo. Mae cyflenwyr ynni wedi gweithredu marchnad dwy haen ers amser hir, lle mae'r rhai sy'n chwilio am y fargen orau yn barhaus yn gallu gwneud yn dda ond caiff eraill eu cosbi am beidio â gwneud dim gyda phrisiau uwch. Y rhai sy'n dioddef fwyaf yw

cartrefi incwm is, pobl â chymwysterau is, pobl sy'n rhentu eu cartrefi a'r henoed. Bydd llywodraeth Geidwadol yn gweithredu er eu budd nhw.

Yn gyntaf, byddwn yn sicrhau bod mesuryddion deallus yn cael eu cynnig i bob cartref a busnes erbyn diwedd 2020, gan olygu y gall pobl reoli eu biliau ynni am y tro cyntaf.

Awn ymhellach. Byddwn yn cyflwyno cap ar dariffau a fydd yn ymestyn y diogelwch pris a roddir ar hyn o bryd i rai cwsmeriaid agored i niwed i fwy o gwsmeriaid ar y tariffau gwerth gwaethaf. Byddwn yn cadw elfen gystadleuol y farchnad ynni manwerthu drwy gefnogi mentrau i wneud y broses newid yn haws ac yn fwy dibynadwy, ond bydd y cap ar dariffau yn diogelu cwsmeriaid nad ydynt yn newid rhag cynnydd annerbyniol mewn prisiau.

Ynghyd â rhoi mwy o reolaeth dros filiau ynni i unigolion a diogelu cwsmeriaid rhag biliau annheg, byddwn yn eu helpu i arbed ynni. Mae cartref ynni effeithlon yn gartref mwy fforddiadwy ac iach. Byddai'r Ceidwadwyr Cymreig yn cyflwyno rhaglen effeithlonrwydd ynni 'Cartrefi Iach, Pobl Iach' i Gymru ar gyfer cartrefi sy'n dlawd o ran tanwydd ac yn gweithio gyda'r diwydiant adeiladu i sicrhau diogelwch ac effeithlonrwydd ynni.

## Dyled deg

I rai pobl, gall costau byw fynd yn drech na nhw. Gall problemau dyledion fod yn anodd eu datrys a gwaethygu chwalfa deuluol, diffyg gwaith, straen a phroblemau iechyd meddwl. Byddwn yn mabwysiadu cynllun "Seibiant", sydd â'r mesurau diogelu cywir i atal camddefnydd, fel y gall rhywun â phroblemau dyledion difrifol wneud cais am ddiogelwch cyfreithiol rhag llog pellach, taliadau a chamau gorfodi am hyd at chwe wythnos. Lle bo'n briodol, cânt gynnig cynllun ad-dalu statudol i'w helpu i ad-dalu eu dyledion mewn ffordd y gallant ymdopi â hi. Bydd hyn yn rhoi amser i ddyledwyr cymwys geisio cyngor a chymorth i wneud cais am ateb cynaliadwy i'w dyled.

# 4. ADFER Y CONTRACT RHWNG Y CENEDLAETHAU

## Bydd Theresa May a'r Ceidwadwyr Cymreig yn cyflawni'r canlynol

- Cyllid cyhoeddus cadarn, yn seiliedig ar hygrededd cyllidol a chyllideb wedi'i mantoli erbyn canol y degawd nesaf.
- Gwarant o gynnydd blynyddol ym mhensiwn y wladwriaeth drwy Glo Dwbl newydd a gyflwynir yn 2020.
- Urddas a diogelwch i'r henoed drwy gynnig yr ateb hirdymor priodol ar gyfer gofal yr henoed.
- Diwygiadau i atgyfnerthu a diogelu dyfodol ein GIG yng Nghymru.
- Cynigion i helpu mwy o bobl yng Nghymru i brynu eu cartref cyntaf.
- Gofal plant o ansawdd uchel i deuluoedd sy'n gweithio.

**Nid oes unrhyw nain na thaid am weld eu hwyrion na'u hwyresau yn waeth eu byd nag yr oeddent hwy, ond dyna'n union y mae llawer o bobl hŷn yn ei ofni heddiw.** Nid oes unrhyw fab na merch am weld eu rhieni yn cael gofal gwael nac am weld yr asedau y gwnaethant weithio mor galed i'w hennill yn cael eu cwtogi, ond dyna yw'r realiti i ormod o hen bobl mewn gofal. Rhaid i ni gyfaddef bod yr undod sy'n rhwymo cenedlaethau o dan bwysau yn ein gwlad.

Byddwn yn adfer y contract rhwng y cenedlaethau, gan ddiogelu pobl hŷn rhag salwch a sicrhau, ar yr un pryd, ein bod yn cadw ein haddewid o ddarparu cyfleoedd a ffyniant i genedlaethau iau. Mae'r contract hwnnw yn cynnwys ein Gwasanaeth Iechyd Gwladol, a sefydlwyd yn unol â'r egwyddor y dylai'r rhai mwy ffodus helpu'r rhai llai ffodus. Mae'n system o undod y mae pob un ohonom yn cyfrannu ati, nid yn unig er mwyn ein helpu ni a'n teuluoedd pan fyddwn mewn angen ond hefyd er mwyn diogelu eraill yn ein cymuned pan fydd angen help arnynt. Nid dim ond mater o hwylustod mohono: gwnawn hynny am fod y cymorth a roddwn i'n gilydd yn ein rhwymo.

Mae'r undod hwn yn un o egwyddorion y Ceidwadwyr, yn seiliedig ar deulu, cymuned a gwlad sydd oll yn bethau y mae'r Ceidwadwyr yn credu ynddynt ac yn anelu at eu gwarchod. Ar adegau, bydd undod yn gofyn am haelioni mawr gan un grŵp i un arall – pobl iau sy'n gweithio yn talu am henaint urddasol i bobl sydd wedi ymddeol, a phobl hŷn yn cydbwyso'r hyn a gânt ag anghenion y genhedlaeth iau.

Mae cyfleoedd enfawr ar gael i'n Teyrnas Unedig ond dim ond drwy wneud penderfyniadau ar gyfer yr hirdymor. Rydym yn ymddiried ym mhobl y wlad hon, sy'n ymwybodol ein bod yn wynebu dewisiadau anodd – ac sy'n mynnu parch gan wleidyddion a ddylai fod yn onest am y ffordd y gellir datrys y dewisiadau hyn.

# YMDRIN Â'R DIFFYG

**Yr effaith fwyaf y gall llywodraeth ei chael ar genedlaethau'r dyfodol yw'r swm y bydd yn dewis ei fenthyg er mwyn talu am lefelau gwariant presennol.** Mae benthyca bob amser yn golygu gwario arian nad yw gennych; ond mae benthyca gan y llywodraeth yn wahanol gan mai eraill sy'n gyfrifol am ad-dalu'r benthyciad hwnnw – y rheini a ddaw'n ddiweddarach, gan gynnwys pobl heb eu geni eto. Cred y Ceidwadwyr ei bod yn bwysig mantoli cyfrifon a thalu dyledion – gan nad yw'n briodol trosglwyddo bil i genedlaethau'r dyfodol na allwch ei dalu neu nad ydych yn barod i'w dalu eich hun.

Bydd y llywodraeth Geidwadol nesaf yn parhau â'r gwaith anodd ond angenrheidiol o adfer ein cyllid cyhoeddus gan sicrhau ar yr un pryd ein bod yn buddsoddi ar gyfer y dyfodol. Fel y nodwyd gennym ym mhennod un, byddwn yn parhau i anelu at gyllideb wedi'i mantoli erbyn canol y degawd nesaf, yn unol â'r rheolau cyllidol a gyhoeddwyd gan y canghellor yn ystod datganiad yr hydref y llynedd.

# CYMDEITHAS SY'N HENEIDDIO

**Mae pobl yn byw yn hwy.** Mae hyn yn beth da, ond ni ddylem anwybyddu goblygiadau hynny. Wrth i'n cymdeithas heneiddio, mae costau gofalu am genedlaethau hŷn – pensiynau, budd-daliadau pensiynwyr, gofal iechyd a gofal cymdeithasol – yn cynyddu; ac fe'u telir gan bobl sy'n gweithio drwy eu trethi. Gan fod y nifer gymharol o bobl iau yn lleihau, mae'r costau hynny yn cynyddu, nid yn unig o ran eu cyfanswm ond hefyd i unigolion. Felly er mwyn rhoi'r urddas sy'n ddyledus gennym i bobl hŷn a'r cyfleoedd y mae pobl iau yn eu haeddu, rydym yn wynebu penderfyniadau anodd.

## Gwarant o gynnydd blynyddol ym mhensiwn y wladwriaeth

Ddegawd yn ôl, roedd pensiynau yn wynebu argyfwng ac roedd tlodi yn bla ar ymddeoliad llawer o bobl hŷn. Roedd hynny'n anghywir a llywodraeth Geidwadol sydd wedi helpu i unioni'r sefyllfa honno. Drwy gyflwyno'r Clo Triphlyg ar Bensiynau a Phensiwn newydd y Wladwriaeth, rydym wedi cynyddu incwm miliynau o bobl hŷn, gan leihau tlodi ymhlith pensiynwyr i lefelau hanesyddol isel. Mae'r Clo Triphlyg wedi gweithio: nawr mae'n bryd rhoi pensiynau ar y trywydd cywir. Felly byddwn yn cadw ein haddewid i barhau â'r Clo Triphlyg tan 2020, a phan ddaw i ben, byddwn yn cyflwyno Clo Dwbl newydd, sy'n golygu y bydd pensiynau yn cynyddu yn unol â'r enillion sy'n talu amdanynt, neu'n unol â chwyddiant – pa un bynnag sydd uchaf. Byddwn hefyd yn sicrhau bod oedran pensiwn y wladwriaeth yn adlewyrchu'r cynnydd mewn disgwyliad oes, wrth weithredu mewn ffordd deg i ddiogelu pob cenhedlaeth.

Pensiwn y wladwriaeth yw conglfaen sylfaenol incwm adeg ymddeol. Yn ogystal â diogelu'r cynnydd ym mhensiwn y wladwriaeth, byddwn yn parhau i gefnogi'r gwaith llwyddiannus o ehangu pensiynau hunangofrestredig, gan alluogi mwy o bobl i gynyddu eu hincwm ymddeol gyda chymorth gan eu cyflogwyr a'r llywodraeth; byddwn yn parhau i ehangu'r trefniadau hunangofrestru i gyflogwyr bach ac yn eu cynnig i bobl hunangyflogedig. Byddwn yn hyrwyddo cynhyrchion cynilion a phensiynau hirdymor, gan gynnwys ISA Gydol Oes, er mwyn annog a chymell mwy o bobl i wneud darpariaeth ar gyfer anghenion hirdymor, gan gynnwys prynu tŷ ac ymddeol.

## Cynllun hirdymor ar gyfer gofal yr henoed

Nid yw ein system gofal i'r henoed yn gweithio i'r cannoedd ar filoedd o bobl nad ydynt

yn cael y sylw urddasol a gofalus y maent yn ei haeddu ar hyn o bryd, nac i'r bobl a'r sefydliadau sy'n darparu'r gofal hwnnw, ac nid yw ychwaith yn gynaliadwy i bobl iau a fydd o bosibl yn wynebu costau gofal eu hunain rhyw ddiwrnod. Nid yw'n deg bod ansawdd y gofal a gewch a faint y byddwch yn ei dalu am y gofal hwnnw yn dibynnu i raddau helaeth ar ble rydych yn byw a ph'un a ydych yn berchen ar eich cartref eich hun.

Yng Nghymru, mae polisi gofal yr henoed yn fater datganoledig ac mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi addo i helpu pobl hŷn ledled Cymru i barhau i fod yn aelodau gweithgar o'r teulu, y gymuned a chymdeithas, tra'n cynnig sicrwydd at y dyfodol gan gymryd camau clir o ran costau gofal preswyl.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig am ddiogelu £100,000 o asedau i'r rheini mewn gofal preswyl, gan gynnig urddas a sicrhau nad yw pobl yn colli eu cynilion oes oherwydd costau gofal. Byddem hefyd yn hyrwyddo trefniadau byw'n annibynnol a chynllunio at anghenion y dyfodol drwy gynnig Asesiadau Aros Gartref gwirfoddol i'r rheini sy'n cyrraedd oedran pensiwn. Byddwn hefyd yn grymuso pobl hŷn i wneud dewisiadau ynghylch eu gofal eu hunain drwy ymestyn a hyrwyddo'r defnydd o gyllidebau personol a thaliadau uniongyrchol.

Byddai'r Ceidwadwyr Cymreig hefyd yn cyflwyno Bil Hawliau Pobl Hŷn, i ymestyn a hyrwyddo hawliau pobl hŷn a chyflwyno dyletswydd ar gyrff y sector cyhoeddus i ymgynghori â phobl hŷn wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Byddem hefyd yn adolygu ac yn ymestyn pwerau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ac yn gwneud y rôl yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol yn hytrach na Llywodraeth Cymru.

Mae buddsoddiad o £2 filiwn gan Lywodraeth y DU yn y sector gofal cymdeithasol yn Lloegr yn darparu cyllid ychwanegol i Gymru. Rydym am greu system gofal gynaliadwy i'r henoed sy'n darparu urddas a sicrwydd i bobl hŷn yng Nghymru. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Llywodraeth y DU wrth ymdrin â gofal cymdeithasol er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i bobl hŷn ledled Cymru, yn enwedig y rheini sy'n byw ger y ffin.

Gan fod y rhan fwyaf o ofal yn cael ei ddarparu ar sail anffurfiol, gan deuluoedd yn bennaf, byddwn yn rhoi hawl statudol newydd i weithwyr gael absenoldeb gofalwr, fel y cynigir mewn gwledydd eraill.

Mae creu system gofal gynaliadwy i'r henoed yn golygu gwneud penderfyniadau am y ffordd y caiff y gyllideb gynyddol a neilltuir i bensiynwyr ei gwario, felly byddwn yn targedu help lle y mae ei angen fwyaf. Felly byddwn yn ystyried Taliadau Tanwydd Gaeaf, sef y budd-dal mwyaf a delir i bensiynwyr, yn y cyd-destun hwn. Telir y budd-dal ni waeth beth fo anghenion unigolion, gan roi arian i bensiynwyr mwy cyfoethog ond heb roi cymorth tebyg i bobl sy'n gweithio sydd ar incwm is. Byddwn yn cynnal profion

modd ar gyfer Taliadau Tanwydd Gaeaf, gan dargedu cymorth at y pensiynwyr lleiaf cyfoethog sy'n wynebu'r risg fwyaf o dlodi tanwydd. Yn Lloegr, caiff yr arian a ryddheir ei drosglwyddo'n uniongyrchol i faes iechyd a gofal cymdeithasol, gan helpu i ddarparu urddas a gofal i'r pensiynwyr mwyaf agored i niwed a thawelwch meddwl i'w teuluoedd. Yng Nghymru, bydd yr arian a ryddheir yn darparu adnoddau ychwanegol sylweddol i Lywodraeth Cymru drwy broses arferol fformiwla Barnett gan roi cyfle i Lywodraeth Cymru benderfynu p'un a ddylid defnyddio'r arian ychwanegol i helpu pensiynwyr yng Nghymru, neu ar gyfer blaenoriaethau eraill. Byddai'r Ceidwadwyr Cymreig yn defnyddio'r arian ychwanegol hwn ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, gan helpu pensiynwyr ledled Cymru. Byddwn yn parhau â'r holl fudd-daliadau eraill i bensiynwyr, gan gynnwys cardiau bws, profion llygaid, presgripsiynau a thrwyddedau teledu am ddim, drwy gydol oes y senedd hon.

# EIN GWASANAETH IECHYD GWLADOL

**Mae ein Gwasanaeth Iechyd Gwladol wrth wraidd undod yn ein Teyrnas Unedig – ein hymrwymiad i'n gilydd, rhwng yr hen a'r ifanc, y rhai mwy ffodus a'r rhai llai ffodus, a phobl iach a phobl sâl.**

Cred y Blaid Geidwadol yn egwyddorion sylfaenol y GIG. Yn gyntaf, y dylai'r gwasanaeth ddiwallu anghenion pawb, ni waeth pwy ydynt na ble maent yn byw. Yn ail, y dylai gofal fod yn seiliedig ar angen clinigol, yn hytrach na'r gallu i dalu. Yn drydydd, y dylid rhoi gofal am ddim. Wrth i'r GIG ddechrau ei wythfed degawd, byddwn yn parhau i hyrwyddo'r egwyddorion hyn drwy ddarparu'r adnoddau sydd eu hangen ar y GIG a sicrhau ei fod yn atebol am ddarparu gofal eithriadol i gleifion ble bynnag a phryd bynnag y bydd ei angen arnynt.

Yng Nghymru, Llywodraeth Lafur sy'n gyfrifol am y GIG, ac mae methiant Llafur i fuddsoddi yn y GIG yng Nghymru ac i ddiogelu gwasanaethau yn cael effaith andwyol ar ein meddygon, ein nyrsys a staff ein hysbytai.

Gwnaeth y Llywodraeth Geidwadol yn Lloegr y penderfyniad i ddiogelu gwariant ar iechyd yn Lloegr, a darparodd gyllid i'r gweinyddiaethau datganoledig wneud yr un peth, ond penderfynodd y Llywodraeth Lafur yng Nghymru, gyda chefnogaeth Plaid Cymru a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, gwtogi gwariant ar iechyd. O ganlyniad, methwyd targedau perfformiad allweddol ac mae canlyniadau cleifion wedi dirywio. Mae Llafur Cymru wedi llywyddu dros wasanaeth iechyd nad oes ganddo ddigon o arian, digon o staff na digon o adnoddau. Byddai'r Ceidwadwyr Cymreig yn cynyddu cyllid i'r GIG yng Nghymru, gan roi blaenoriaeth i ofal cleifion a sicrhau bod iechyd ar frig yr agenda.

Bwriad sylfaenol y GIG oedd darparu lefelau da o ofal i bawb, ble bynnag y maent yn byw. Ni chyflawnwyd hyn yng Nghymru yn ddiweddar a bydd y Ceidwadwyr Cymreig yn gweithredu i gefnogi staff meddygol, lleihau amseroedd aros a gwella canlyniadau.

Byddwn yn diogelu gwasanaethau iechyd gwledig ac yn gweithredu'n groes i agenda Llafur, sef cwtogi, cau ac israddio gwasanaethau hanfodol mewn ysbytai gwledig. Byddwn hefyd yn comisiynu adolygiadau annibynnol o ysbytai a gwasanaethau'r GIG sy'n cyflawni canlyniadau gwael i gleifion. Byddwn yn annog casgliad cyflym i'r gwaith dilynol sy'n mynd rhagddo o hyd yn dilyn sgandal Tawel Fan ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Byddwn yn sicrhau bod llywodraethau'r DU a Chymru yn parhau i gydweithio'n agos ar faterion iechyd trawsffiniol er mwyn sicrhau y gall pawb sy'n byw ym mhob rhan o Gymru gael gafael ar y driniaeth orau.

Byddai'r Ceidwadwyr Cymreig yn gweithio gyda phobl ym mhob rhan o'r system iechyd i ddatrys yr argyfwng recriwtio meddygon yn y GIG yng Nghymru sydd o dan ofal Llafur, lle y cafodd gwasanaethau eu diddymu a meddygfeydd eu cau. Byddwn hefyd yn sicrhau y caiff pob teulu sy'n colli baban y cymorth profedigaeth sydd ei angen arnynt, gan gynnwys hawl newydd i absenoldeb oherwydd profedigaeth plentyn.

# CARTREFI I BAWB

**Nid ydym wedi adeiladu digon o gartrefi yn y wlad hon ers cenedlaethau, ac mae prynu neu rentu cartref wedi dod yn gynyddol anodd i'w fforddio.** Os nad unionir y sefyllfa hon, ni fyddwn yn gallu ymestyn yr addewid o gartref gweddus, heb sôn am berchentyaeth, i'r miliynau sy'n ei haeddu.

Fel y blaid perchentyaeth, mae'r Ceidwadwyr Cymreig am i fwy o gartrefi gael eu hadeiladu er mwyn gallu rhoi'r cyfle i bobl ledled Cymru ddod yn berchen ar eu cartref fforddiadwy eu hunain neu rentu cartref fforddiadwy.

Bydd penderfyniad Llafur i ddiddymu'r Hawl i Brynu yng Nghymru yn tanseilio symudedd cymdeithasol, gan amddifadu miloedd o deuluoedd o gyfle i brynu eu cartref cyntaf. Cred y Ceidwadwyr Cymreig fod gan bawb yr hawl i brynu eu cartref eu hunain ac felly byddem yn anelu at sicrhau dyfodol hirdymor i'r Hawl i Brynu yng Nghymru ac ymestyn yr Hawl i Brynu i holl denantiaid Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.

Cred y Ceidwadwyr Cymreig mai cymunedau lleol sy'n adnabod eu hardaloedd orau a dyna pam ein bod o blaid rhaglen Hawliau Cymunedol Llywodraeth y DU. Byddem yn grymuso cymunedau lleol gan roi Hawl i Gynnig iddynt am asedau sy'n bwysig yn lleol megis neuaddau pentref, tafarndai a llyfrgelloedd pan fyddant o dan fygythiad.

# PLANT A THEULUOEDD

**Dylai Prydain fod y wlad orau yn y byd i blant.** Yma yng Nghymru, rydym am weithio gyda Llywodraeth Cymru i ostwng lefelau tlodi plant. O ganlyniad i'n diwygiadau, mae 62,000 yn llai o blant mewn aelwydydd heb waith yng Nghymru. Rydym hefyd am ostwng lefelau tlodi plant, ac mae gennym uchelgeisiau mawr ar gyfer ansawdd gofal plant, iechyd plant a chymorth i blant sy'n agored i niwed y mae'r wladwriaeth yn gweithredu fel rhiant iddynt.

Yn ogystal â gwella safonau a chynyddu disgwyliadau o fewn y system addysg yng Nghymru, bydd y Ceidwadwyr Cymreig yn cynnig dyfodol mwy sicr i blant drwy gefnogi teuluoedd gyda chostau cynyddol gofal plant a chynnig mwy o gyfleoedd i bobl ifanc gyfrannu at eu cymuned leol yn llawn. Gwyddom fod gofal plant o ansawdd uchel yn bwysig nid yn unig i rieni sy'n gweithio ond yn fwy byth i ddatblygiad a hapusrwydd plentyn. Dyna pam y byddai'r Ceidwadwyr Cymreig yn cynyddu argaeledd y lwfans gofal plant am ddim i rieni plant tair a phedair oed ac yn gweithio gyda'r sector gofal plant i'w gynyddu o 10 awr i fwy na 30 awr yr wythnos. Byddwn hefyd yn ymgynghori ar sut y gellir cydnabod cyfraniad neiniau a theidiau wrth ddarparu gofal plant i aelodau'r teulu ac yn grymuso rhieni i benderfynu ble a phryd y bydd eu plentyn yn mynd i'r ysgol feithrin, gan ddefnyddio eu hawl i ofal plant am ddim mewn ffordd fwy hyblyg.

Byddwn hefyd yn diwallu anghenion plant sy'n gweithredu fel gofalwyr, gan wella'r broses o'u hadnabod, helpu i adnabod gofalwyr ifanc er mwyn dileu'r rhwystrau i addysg a chyflwyno cynlluniau teithio rhatach. Byddwn yn sicrhau bod cynlluniau cymorth priodol ar waith ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd wedi cael eu mabwysiadu mewn ysgolion a cholegau.

Yn olaf, byddwn yn ystyried ffyrdd o wella'r system cyfiawnder teuluol. Mae angen i lysoedd teuluol wneud mwy i helpu teuluoedd, gan werthfawrogi rolau mamau a thadau, tra'n sicrhau bod rhieni yn cyflawni eu cyfrifoldebau.

# 5. FFYNIANT A DIOGELWCH MEWN OES DDIGIDOL

## Bydd Theresa May a'r Ceidwadwyr Cymreig yn cyflawni'r canlynol

- Economi ddigidol fwyaf dynamig y byd, gan sicrhau y gall busnesau digidol gael gafael ar y buddsoddiad, y sgiliau a'r dalent sydd eu hangen arnynt i lwyddo.
- Diogelwch o ran data pobl ar-lein, gyda chymorth cyfraith diogelu data newydd.
- Diogelwch i blant ar-lein, a hawliau newydd yn ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau cyfryngau cymdeithasol ddileu gwybodaeth am bobl ifanc pan fyddant yn cyrraedd 18 oed.
- Gwasanaethau'r llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus digidol, gan ddefnyddio data a thechnoleg ddigidol i wella hygyrchedd gwybodaeth y llywodraeth a sicrhau y caiff anghenion siaradwyr Cymraeg eu cydnabod gan Wasanaeth Digidol y Llywodraeth.
- Rheolau newydd ar gyfer yr economi ddigidol, wedi'u hategu gan reoliadau domestig a phartneriaeth ryngwladol.
- Diogelwch ar-lein, gyda buddsoddiad digynsail mewn seiberddiogelwch a seibersafonau cadarnach ar gyfer gwasanaethau'r llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus.

**Mae'r cyfleoedd a'r bygythiadau sy'n deillio o ddatblygiadau technoleg ddigidol yn cyflwyno heriau ymarferol ac athronyddol sylweddol i bobl, cymunedau a llywodraethau ledled y byd.** Mae'r technolegau newydd hyn yn cynnig ffyrdd newydd a chyflymach o gyfathrebu, dysgu, teithio, cael hwyl a chynnal busnes. Maent yn cyflymu cyfradd newidiadau – gan gyflwyno normau newydd o fewn blynyddoedd yn hytrach na degawdau; gan herio ein cyfreithiau a'n rheoliadau i barhau'n gyfredol.

Bu'r DU bob amser ar flaen y gad o ran newidiadau o'r fath, o ddyddiadau cynharaf cyfrifiadureg i ddatblygiad y We Fyd Eang. Heddiw, rydym yn parhau â'r traddodiad hwnnw ac mae gennym economi ddigidol o'r radd flaenaf, sy'n cynnwys arbenigedd penodol ym maes deallusrwydd artiffisial, seiberddiogelwch, gemau, FinTech, GovTech a rhith-wirionedd. Rydym yn gadarnhaol am y cyfleoedd sydd ar gael yn yr oes ddigidol, ond rydym yn deall bod y cyfleoedd hyn yn arwain at heriau a bygythiadau newydd – i'n diogelwch, ein preifatrwydd, ein llesiant emosiynol, ein hiechyd meddwl a diogelwch ein plant. Bydd llywodraeth Geidwadol yn ymateb i'r heriau hyn, er mwyn rhoi tawelwch meddwl i bobl Prydain eu bod yn ddiogel a'n bod yn gweithredu mewn modd teg yn yr oes ddigidol newydd, ac er mwyn atgyfnerthu statws y DU fel un o economïau digidol mwyaf blaenllaw'r byd.

# SIARTER DDIGIDOL

**Ers cannoedd o flynyddoedd, mae'r Deyrnas Unedig wedi pennu'r rheolau ac wedi creu amgylchedd lle y gall syniadau newydd a thechnolegau newydd ffynnu – o farchnadoedd ariannol i'r trên ager i embryoleg ddynol a chod bywyd ei hun.** Mae ein cyfoeth a'n diogelwch fel cenedl yn seiliedig ar ein gallu i lywio'r dyfodol nid yn unig i ni'n hunain ond i'r byd. Nawr, rhaid i ni wneud hynny unwaith eto, creu'r fframwaith seiliedig ar reolau lle y gall y technolegau newydd greu ffyniant a thwf.

Bydd llywodraeth Geidwadol yn datblygu siarter ddigidol, gan weithio gyda'r diwydiant ac elusennau i lunio fframwaith newydd sy'n cydbwyso rhyddid â diogelwch i ddefnyddwyr, ac yn cynnig cyfleoedd ochr yn ochr â rhwymedigaethau i fusnesau a llwyfannau. Mae'r siarter hon yn cynnwys dau nod sylfaenol: y byddwn yn sicrhau mai Prydain yw'r lle gorau i ddechrau a rhedeg busnes digidol; ac y byddwn yn sicrhau mai Prydain yw'r lle mwyaf diogel yn y byd i fod ar-lein.

## Y lle gorau ar gyfer busnes digidol

Bydd ffyniant Prydain yn y dyfodol yn seiliedig ar ein gallu technegol a'n dawn

greadigol. Drwy ein strategaeth ddiwydiannol a'n strategaeth ddigidol fodern, byddwn yn helpu cwmnïau digidol yn ystod pob cam o'u twf. Byddwn yn helpu arloeswyr a busnesau newydd, drwy annog buddsoddiad cynnar ac ystyried cymhellion pellach o dan ein Cynllun Buddsoddi mewn Mentrau a'n Cynllun Buddsoddi Cychwynnol mewn Mentrau blaenllaw. Byddwn yn helpu busnesau digidol yng Nghymru i ddatblygu a thyfu, gyda'r uchelgais y bydd llawer o fusnesau newydd yn cofrestru yma yn y DU, ac yn agor swyddfeydd newydd Banc Busnes Prydain yng Nghasnewydd, yn ogystal ag yn Birmingham, Bryste, Caergrawnt, Caeredin a Manceinion, sy'n arbenigo yn y sector lleol. Fel y nodwyd gennym ym mhennod un, byddwn yn sicrhau y gall busnesau digidol fanteisio ar y dalent orau o dramor er mwyn gallu cystadlu ag unrhyw le yn y byd. Caiff hyn ei ategu gan o leiaf un athrofa dechnoleg newydd yn y DU, a fydd yn ymwneud yn benodol â meithrin sgiliau digidol o'r radd flaenaf ac a gaiff ei datblygu a'i rhedeg mewn partneriaeth â'r diwydiant technoleg. Pan fyddwn yn gadael yr Undeb Ewropeaidd, byddwn yn ariannu Banc Busnes Prydain gan ddefnyddio arian a ddychwelir o'r Gronfa Buddsoddi Ewropeaidd.

Byddwn yn sicrhau bod model busnes cynaliadwy ar waith ar gyfer cyfryngau o ansawdd uchel ar-lein, er mwyn sicrhau chwarae teg i ddiwydiant y cyfryngau a'r diwydiant creadigol. Byddwn yn adeiladu ar sector diwydiannau creadigol cynyddol Cymru ac yn helpu i ddarparu'r sgiliau a'r seilwaith digidol sydd eu hangen ar gwmnïau creadigol a byddwn yn ceisio datblygu'r trefniadau treth ffafriol sydd wedi eu helpu, gan gynnwys y cynllun credydau treth hynod lwyddiannus i'r diwydiannau creadigol. Byddwn yn sicrhau bod system gadarn ar waith i ddiogelu eiddo deallusol pan fydd y DU wedi gadael yr UE, gyda chamau diogelu cadarn yn erbyn tor-rheolau.

Byddwn yn sicrhau ei bod hi'n haws i gwmnïau a defnyddwyr gynnal busnes ar-lein. Byddwn yn rhoi'r hawl i fusnesau fynnu cael llofnod digidol a'r hawl i ganslo contractau ar ffurf ddigidol. Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i bob cwmni digidol ddarparu derbynebau digidol, telerau ac amodau cliriach wrth werthu nwyddau a gwasanaethau ar-lein a chefnogi dulliau prawf adnabod digidol newydd. Byddwn yn rhoi'r un camau diogelu ar waith i ddefnyddwyr mewn marchnadoedd ar-lein ag sydd ganddynt ar y stryd fawr. Byddwn yn ei gwneud hi'n haws i gwsmeriaid band eang newid darparwyr ac yn sicrhau bod eu prisiau yn fwy tryloyw.

Byddwn yn sicrhau y gall defnyddwyr a busnesau gael gafael ar y seilwaith digidol sydd ei angen arnynt er mwyn llwyddo. Rydym wedi buddsoddi mewn gwelliannau i fand eang ledled Cymru ac, erbyn hyn, gall dros 620,000 o gartrefi a busnesau yng Nghymru fanteisio ar fand eang cyflym iawn. Disgwylir y bydd y buddsoddiad hwn o fudd i 100,000 o eiddo ychwanegol erbyn diwedd 2017 a fydd yn golygu y bydd mwy na 96 y cant o eiddo yng Nghymru yn gallu manteisio ar wasanaeth cyflym iawn. Bydd ein Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol yn sicrhau y gall pob cartref a phob busnes ym Mhrydain fanteisio ar fand eang cyflym iawn erbyn 2020. Gwyddom y bydd angen

gwelliannau i wasanaethau band eang o hyd ar lawer o bobl yng Nghymru a byddwn yn pwyso ar Lywodraeth Cymru i wella'r broses o gyflwyno band eang drwy ddiwygiadau cynllunio. Byddwn yn gweithio i ddarparu cysylltedd gigagyflymder i gynifer o fusnesau a chartrefi â phosibl. Byddwn yn cyflwyno taleb cysylltiad ffeibr llawn i gwmnïau ledled y wlad erbyn 2018 ac, erbyn 2022, bydd colofnau ffeibr sylweddol ar waith gennym mewn dros gant o drefi a dinasoedd, gyda deg miliwn o eiddo wedi'u cysylltu â gwasanaeth ffeibr llawn a llwybr clir tuag at sicrhau bod y gwasanaeth hwnnw ar gael yn genedlaethol yn ystod y degawd nesaf.

Mae gennym uchelgeisiau tebyg ar gyfer gwasanaethau ffôn symudol. Erbyn 2022, byddwn yn cynyddu cwmpas gwasanaethau ffôn symudol i 95 y cant o arwynebedd daearyddol y DU. Byddwn hefyd yn pwyso ar Lywodraeth Cymru i osgoi unrhyw oedi diangen pellach wrth ymdrin â diwygiadau cynllunio i ategu cwmpas a chapasiti estynedig. Erbyn yr un dyddiad, bydd signal ffôn symudol llawn a di-dor ar gael ar hyd pob prif ffordd a phrif reilffordd, a chaiff gwasanaeth rhyngrwyd WiFi ei warantu ar bob trên sy'n teithio ar reilffyrdd o'r fath. Byddwn yn parhau i ryddhau mwy o sbectrwm o ddefnydd sector cyhoeddus er mwyn gwella'r gwasanaeth i'r sector preifat ac yn dechrau cyflwyno rhwydwaith 5G newydd, gan gynnig cysylltiad gigagyflymder i'ch ffôn deallus. Rydym am sicrhau bod Cymru ar flaen y gad, gan droi heriau daearyddol yn fanteision drwy weithio gyda darparwyr symudol ar waith ymchwil a datblygu technoleg 5G, a chan ddefnyddio'r clwstwr digidol sy'n datblygu yn Ne-orllewin Cymru fel rhan o Gytundeb Dinas Bae Abertawe. Rydym yn bwriadu sicrhau y bydd y rhan fwyaf o'r boblogaeth yn gallu derbyn signal 5G erbyn 2027.

## Y lle mwyaf diogel i fod ar-lein

Wrth ddefnyddio'r chwyldro digidol, rhaid i ni gymryd camau i ddiogelu pobl sy'n agored i niwed a rhoi hyder i bobl ddefnyddio'r rhyngrwyd heb ofni cael eu cam-drin, dioddef trosedd neu ddod i gysylltiad â chynnwys erchyll. Ein man cychwyn yn hyn o beth yw y dylai rheolau ar-lein adlewyrchu'r rheolau sy'n llywodraethu ein bywyd all-lein. Dylai fod yr un mor annerbyniol i fwlio ar-lein ag ar yr iard chwarae, yr un mor anodd i feithrin perthynas amhriodol â phlentyn ar y rhyngrwyd ag yn y gymuned, yr un mor anodd i blant gael gafael ar bornograffi treisgar a diraddiol ar-lein ag ar y stryd fawr, a'r un mor anodd cyflawni trosedd ddigidol â throsedd ffisegol.

Lle y gall technoleg gynnig ateb, byddwn yn ymchwilio i'r ateb hwnnw. Byddwn yn gweithio gyda'r diwydiant i gyflwyno camau diogelu newydd i blant, rhag delweddau pornograffi, trais a chynnwys arall sy'n amhriodol o ran oedran nid yn unig ar gyfryngau cymdeithasol ond mewn siopau apiau ac ar wefannau cynnwys hefyd. Byddwn yn rhoi cyfrifoldeb ar y diwydiant i beidio â llywio defnyddwyr – hyd yn oed yn anfwriadol – at areithiau casineb, pornograffi neu ffynonellau eraill o niwed. Byddwn yn egluro cyfrifoldeb llwyfannau i alluogi unigolion i roi gwybod am gynnwys amhriodol, achosion o fwlio, cynnwys niweidiol neu anghyfreithlon, gan ei gwneud yn ofynnol iddynt ddileu'r

cynnwys ar sail cydymffurfio-neu-egluro.

Byddwn yn parhau i bwyso ar gwmnïau'r rhyngrwyd i gyflawni eu hymrwymiadau i ddatblygu adnoddau technegol i nodi a dileu propaganda terfysgol, i helpu cwmnïau llai i feithrin eu galluoedd ac i roi cymorth i sefydliadau cymdeithas sifil hyrwyddo naratifau amgen a gwrthnaratifau. Yn ogystal, ni chredwn y dylid bod man diogel i derfysgwyr allu cyfathrebu ar-lein a byddwn yn gweithio i'w hatal rhag gallu gwneud hyn.

Lle y byddwn o'r farn bod angen cymryd mwy o gamau i gadw pobl yn ddiogel, byddwn yn gweithredu i'w diogelu. Byddwn yn rhoi hawliau newydd i bobl er mwyn sicrhau bod rheolaeth ganddynt dros eu data eu hunain, gan gynnwys y gallu i'w gwneud yn ofynnol i'r prif lwyfannau cyfryngau cymdeithasol ddileu gwybodaeth a ddelir amdanynt pan fyddant yn cyrraedd 18 oed, y gallu i gael gafael ar ddata personol a'u hallforio, a disgwyliad y dylid storio data personol a ddelir mewn ffordd ddiogel. Er mwyn creu fframwaith moesegol cadarn ar gyfer sut y caiff data eu defnyddio, byddwn yn sefydlu Comisiwn Defnyddio Data a Moeseg arbenigol i roi cyngor i reoleiddwyr a'r senedd ar natur y defnydd o ddata a'r ffordd orau o atal camddefnydd. Bydd y Comisiwn yn ein helpu i ddatblygu'r egwyddorion a'r rheolau a fydd yn rhoi hyder i bobl bod eu data yn cael eu defnyddio mewn ffordd briodol. Ochr yn ochr â'r comisiwn hwn, byddwn yn cyflwyno cyfraith diogelu data newydd, a fydd yn addas ar gyfer ein hoes ddata newydd, er mwyn sicrhau'r safonau gorau posibl ar gyfer defnyddio data mewn ffordd ddiogel, hyblyg a dynamig a diogelu ein harweinyddiaeth fyd-eang o ran rheoleiddio data mewn ffordd foesegol a chymesur.

Byddwn yn parhau â'n buddsoddiad o £1.9 biliwn mewn seiberddiogelwch ac yn adeiladu ar y gwaith a wnaed i sefydlu'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol yn llwyddiannus drwy ein strategaeth seiberddiogelwch flaenllaw. Byddwn yn sicrhau y caiff ein gwasanaethau cyhoeddus, busnesau, elusennau a defnyddwyr unigol eu diogelu rhag seiber-risgiau. Byddwn yn atgyfnerthu safonau seiberddiogelwch ar gyfer gwasanaethau'r llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus ymhellach, gan ei gwneud yn ofynnol i bob gwasanaeth cyhoeddus gydymffurfio â'r technegau seiberddiogelwch mwyaf cyfredol sy'n briodol.

## Rhyddid i'r cyfryngau

Ar adeg pan fo'r rhyngrwyd yn newid y ffordd y mae pobl yn cael gafael ar eu newyddion, mae angen i ni hefyd gymryd camau i ddiogelu dibynadwyedd a gwrthrychedd gwybodaeth sy'n hanfodol i'n democratiaeth a gwasg rydd ac annibynnol. Byddwn yn sicrhau y caiff y sawl sy'n creu cynnwys eu gwobrwyo'n briodol am y cynnwys a gyhoeddir ganddynt ar-lein. Byddwn yn gweithredu mewn modd cyson wrth reoleiddio'r cyfryngau ar-lein ac all-lein. O ystyried natur gynhwysfawr cam cyntaf Ymchwiliad Leveson ac o ystyried yr ymchwiliadau hirfaith gan yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron i achosion honedig o gamymddwyn, ni fyddwn yn bwrw ati ag ail gam Ymchwiliad

Leveson i ddiwylliant, arferion a moeseg y wasg. Byddwn yn diddymu Adran 40 o Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2014 a fyddai, pe'i deddfwyd, yn gorfodi sefydliadau'r cyfryngau i ddod yn aelodau o system reoleiddio ddiffygiol neu'n peri risg y byddai'n rhaid iddynt dalu costau cyfreithiol y ddwy ochr mewn achosion enllib a phreifatrwydd, hyd yn oed pe byddent yn ennill.

# GWASANAETHAU'R LLYWODRAETH A GWASANAETHAU CYHOEDDUS DIGIDOL

**Yn ogystal â gweithredu mewn modd eithriadol wrth ymdrin â'r bobl a wasanaethir ganddi mewn ffordd ddigidol, credwn y dylai'r llywodraeth fod ar flaen y gad o ran defnyddio technoleg ddigidol ym mhob un o'i systemau er mwyn iddi allu darparu gwell gwasanaethau cyhoeddus.**

Felly byddwn yn creu rhagdybiaeth newydd y bydd gwasanaethau'r llywodraeth yn cael eu cynnig yn ddieithriad ar ffurf ddigidol a disgwyliad y bydd holl wasanaethau'r llywodraeth ar gael i bawb ar-lein, gyda chymorth digidol parod ar gael ar gyfer pob un o wefannau'r sector cyhoeddus. Rydym hefyd yn ymrwymedig i sicrhau y caiff anghenion siaradwyr Cymraeg eu diwallu'n well gan Wasanaeth Digidol y Llywodraeth. Byddwn yn cyhoeddi llawer mwy o wybodaeth am wasanaethau cyhoeddus ar-lein, gan gynnwys gwybodaeth berthnasol am faterion lleol a thrafnidiaeth gyhoeddus er mwyn sicrhau y gall pawb ddod o hyd i wybodaeth gyfredol am waith ffordd, ceisiadau cynllunio a llwybrau bysiau ar-lein, heb y drafferth a'r oedi sy'n bodoli ar hyn o bryd.

Byddwn yn cyhoeddi data perfformiad gweithredol ar gyfer pob gwasanaeth sy'n ymdrin â'r cyhoedd er mwyn gallu cymharu'r gwasanaethau hynny fel mater o drefn – gan helpu'r cyhoedd i sicrhau bod eu gwasanaethau lleol yn atebol, neu i ddewis gwasanaethau eraill gwell os byddai'n well ganddynt. Wrth wneud hynny, bydd yn ofynnol i lywodraeth ganolog a llywodraeth leol ryddhau gwybodaeth yn rheolaidd ac mewn fformat agored, a chaiff data eu cyfuno a'u cyflwyno'n ddienw lle y bo'n bwysig gwneud hynny. Byddwn yn creu mwy o wasanaethau digidol o fewn y llywodraeth ac yn cyflwyno cymrodoriaethau trawsnewid digidol, fel y gall cannoedd o arweinwyr o'r byd technoleg ymuno â'r llywodraeth er mwyn helpu i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus gwell. Byddwn yn parhau â'r ymgyrch am ddata agored, gan gynnal ein statws fel yr arweinydd byd-eang.

Er mwyn gallu manteisio'n llawn ar y cyfle hwn, rhaid i ni ddefnyddio llwyfannau cyffredin ym mhob rhan o'r llywodraeth a'r sector cyhoeddus ehangach. Rhaid i hynny ddechrau yn y ffordd y gellir ein hadnabod ar-lein, er mwyn sicrhau bod gan bobl un ffordd gyffredin a diogel o gadarnhau pwy ydynt i bob rhan o'r llywodraeth. Dyna pam y byddwn yn cyflwyno Verify, er mwyn i bobl allu cadarnhau pwy ydynt i holl wasanaethau

ar-lein y llywodraeth erbyn 2020, gan ddefnyddio eu data diogel eu hunain nas delir gan y llywodraeth. Byddwn hefyd yn sicrhau bod y llwyfan hwn ar gael yn ehangach, er mwyn i bobl allu cadarnhau pwy ydynt yn ddiogel wrth ddefnyddio gwasanaethau anllywodraethol megis gwasanaethau bancio. Byddwn yn llunio strategaeth ar gyfer symleiddio'r defnydd o ddata personol o fewn y llywodraeth, gan leihau achosion o ddyblygu data ar draws pob system, er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio'n awtomatig â'r egwyddor 'Unwaith-yn-Unig' o fewn gwasanaethau llywodraeth ganolog erbyn 2022 ac o fewn gwasanaethau cyhoeddus ehangach erbyn 2025.

Byddwn yn rhannu arfer gorau gyda Llywodraeth Cymru wrth i ni ddefnyddio arloesedd digidol er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r her fawr sy'n gysylltiedig â phoblogaeth sy'n heneiddio, ar y cyd â'n diwygiadau gofal cymdeithasol a nodir ym mhennod pedwar. Byddwn yn helpu darparwyr newydd sy'n ceisio defnyddio technoleg ddigidol i fonitro cyflyrau hirdymor yn well, dyrannu gofalwyr i gleifion neu gefnogi gwell gofal cartref yn hytrach na gofal mewn ysbytai.

## Seilwaith digidol

Bydd technoleg ddigidol hefyd yn trawsnewid y broses o reoli ein seilwaith cenedlaethol. Rydym yn arwain y ffordd wrth baratoi ar gyfer cerbydau awtonomaidd a byddwn yn bwrw ati â'n cynlluniau i ddefnyddio technoleg ddigidol i wella ein rheilffyrdd, er mwyn sicrhau y gall ein ffyrdd a'n rheilffyrdd gludo mwy o bobl yn gyflymach, yn fwy diogel ac yn fwy effeithlon. Bydd gridiau doeth yn defnyddio ein seilwaith trydan a cherbydau trydan yn y ffordd fwyaf effeithlon, a byddwn yn defnyddio technoleg i reoli ein gofod awyr yn well er mwyn lleihau llygredd sŵn a gwella capasiti. Byddwn yn ehangu ein rhaglen cymorth i'r busnesau sy'n datblygu'r technolegau newydd hyn, gan greu gwell amgylchedd ar gyfer eu profi yn y DU.

## Tir digidol

A byddwn yn defnyddio technoleg ddigidol i ryddhau gwerth aruthrol o'n tir na chaiff ei wireddu ar hyn o bryd, gan gyflwyno mwy o arbenigedd yn y diwydiant datblygu eiddo a llawer mwy o dryloywder i brynwyr. Er mwyn gwneud hyn, byddwn yn cyfuno rhannau perthnasol Cofrestrfa Tir EM, Arolwg Ordnans, Asiantaeth y Swyddfa Brisio, y Swyddfa Hydrograffig ac Arolwg Daearegol er mwyn creu corff data geo-ofodol cynhwysfawr o fewn y llywodraeth, y storfa data tir agored fwyaf yn y byd. Bydd y corff newydd hwn yn pennu'r safonau ar gyfer digideiddio'r broses gynllunio ac yn helpu i greu'r map digidol mwyaf cynhwysfawr o Brydain hyd yn hyn. Wrth wneud hynny, bydd yn cefnogi economi ddigidol fywiog ac arloesol, yn amrywio o adnoddau arloesol i helpu pobl a datblygwyr i lunio mapiau rhithwir o Brydain i'w defnyddio mewn gemau fideo a rhith-wirionedd.

# FFRAMWAITH AR GYFER DATA A'R ECONOMI DDIGIDOL

**Dywed rhai nad cyfrifoldeb y llywodraeth yw rheoleiddio technoleg a'r rhyngrwyd.** Rydym yn anghytuno. Er na allwn greu'r fframwaith hwn ar ein pen ein hunain, cyfrifoldeb y llywodraeth, nid cwmnïau preifat, yw sicrhau diogelwch pobl a thegwch y rheolau y mae'n rhaid i bobl a busnesau gydymffurfio â hwy. Nid ydym yn cytuno ychwaith bod risgiau dull gweithredu o'r fath yn fwy na'r buddiannau posibl. Er mwyn sicrhau marchnadoedd sefydlog, dylid diogelu defnyddwyr rhag cael eu cam-drin, dylid sicrhau y gall arian lifo'n ddidrafferth ac yn ddiogel a bod cystadleuaeth rhwng busnesau yn deg. Nid yw tanseilio sylfeini cymdeithasau cryf a democratiaethau sefydlog – rheolau cyfraith, preifatrwydd a diogelwch – o fudd i unrhyw un.

Felly byddwn yn llunio fframwaith rheoleiddio cyfreithiol i ategu ein siarter ddigidol ac i sicrhau bod cwmnïau digidol, llwyfannau cyfryngau cymdeithasol a darparwyr cynnwys yn cydymffurfio â'r egwyddorion hyn. Byddwn yn cyflwyno cyfundrefn sancsiynau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth, gan alluogi rheoleiddwyr i ddirwyo neu erlyn y cwmnïau hynny sy'n methu â chyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol, ac i orchymyn iddynt ddileu cynnwys lle y mae'n amlwg yn mynd yn groes i gyfraith y DU. Byddwn hefyd yn creu pŵer cyfreithiol i'r llywodraeth gyflwyno ardoll diwydiant cyfan gan gwmnïau cyfryngau cymdeithasol a darparwyr gwasanaethau cyfathrebu er mwyn helpu i wella ymwybyddiaeth ac ymgymryd â gweithgareddau ataliol i drechu niwed sy'n gysylltiedig â'r rhyngrwyd, fel y gwneir eisoes gyda'r diwydiant hapchwarae.

Fel y gwnaethom ddangos esiampl i'r byd wrth reoleiddio embryoleg ddeng mlynedd ar hugain yn ôl, gwyddom drwy greu'r system lywodraethu briodol ar gyfer yr economi ddigidol a defnyddio data, y byddwn yn denu'r busnesau priodol sy'n awyddus i ddod yn ganolbwynt byd-eang ar gyfer defnyddio data a gwaith ymchwil.

## Setliad rhyngwladol

Mae'r cwestiynau hyn yn gwestiynau y mae pob gwlad yn ceisio mynd i'r afael â hwy. Mae'r rhyngrwyd yn rhwydwaith byd-eang a dim ond drwy gymryd camau gweithredu byd-eang pendant y gallwn wneud cynnydd gwirioneddol.

Credwn y gall y Deyrnas Unedig arwain y ffordd wrth ddarparu atebion. Felly, byddwn yn dechrau trafodaethau â'r prif gwmnïau technoleg a democratiaethau eraill â meddylfryd tebyg am reolau byd-eang yr economi ddigidol, er mwyn datblygu fframwaith cyfreithiol rhyngwladol a fu o fudd i ni cyhyd mewn meysydd eraill megis bancio a masnach. Rydym yn cydnabod cymhlethdod y dasg hon ac mai dim ond dechrau'r broses fydd y gwaith hwn, ond mae'n dasg angenrheidiol ac rydym yn bwriadu bod ar flaen y gad.

Drwy wneud y pethau hyn – siarter ddigidol, fframwaith ar gyfer moeseg data, cytundeb rhyngwladol newydd – byddwn yn sicrhau bod ein gwlad arbennig yn arwain y chwyldro newydd hwn; byddwn yn dewis sut mae technoleg yn llywio ein dyfodol; a byddwn yn dangos, hyd yn oed wrth wynebu newid digynsail, y pethau da y gall llywodraeth eu gwneud.

# CASGLIAD

Dyma ein cynllun ar gyfer Cymru gryfach, fel rhan o Brydain fwy diogel a ffyniannus. Dyma ein gweledigaeth o wlad unedig, o gyfleoedd a rennir, o gymunedau diogel, bywiog a chynaliadwy ac o Feritocratiaeth Fawr, lle y caiff pawb, ym mhob rhan o'n gwlad, y cyfle i ddefnyddio eu talentau fel y dymunant. Yn ystod y cyfnod hwn o newid cenedlaethol sylweddol, dim ond gyda'r arweinyddiaeth gref a sefydlog y mae ein budd cenedlaethol yn ei mynnu y gallwn gyflawni ein huchelgeisiau. Gyda Theresa May a'i thîm, byddwn yn sicrhau'r cytundeb gorau posibl gyda'r Undeb Ewropeaidd ac yn dechrau ar ein taith tuag at ddyfodol byd-eang newydd. Mae'n rhaid i ni nawr, unwaith eto, ddangos ein cryfder fel cenedl a chymeriad ein pobl unedig. Fe wnawn lwyddo, os symudwn ymlaen, gyda'n gilydd.